# Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £250,000 i £10miliwn

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol y DU.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 21 Awst 2024.

## Trosolwg

Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen ariannu ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU.

Defnyddiwch yr arweiniad hwn i wneud cais am grantiau rhwng £250,000 a £10m.

Rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb yn gyntaf ac, os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais.

Bydd eich cais fel arfer yn mynd trwy ddau gam: cam datblygu o hyd at ddwy flynedd, sy'n eich galluogi i weithio ar eich cynnig prosiect, a cham cyflwyno o bum mlynedd ar y mwyaf. Os nad ydych yn credu bod proses ymgeisio dau gam yn addas ar gyfer eich prosiect, cysylltwch â'ch swyddfa leol i trafod hyn.

### Ai hon yw'r rhaglen iawn i chi?

- A yw eich sefydliad eisiau gofalu am dreftadaeth a'i chynnal yn y DU?
- A fydd eich prosiect treftadaeth yn para ddim mwy na phum mlynedd (ac eithrio'r cam datblygu)?
- A oes angen grant rhwng £250,000 a £10m arnoch?
- A ydych yn sefydliad nid-er-elw neu'n bartneriaeth a arweinir gan sefydliad nid-er-elw?
- A yw eich prosiect yn cymryd ein pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth?

Os gwnaethoch chi ateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau hyn, mae'n bosibl bod Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn addas i chi.

### Ein hegwyddorion buddsoddi

Mae pedair egwyddor fuddsoddi'n llywio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad

- cynaladwyedd sefydliadol

Mae'n rhaid i chi gymryd pob un o'r pedair egwyddor hyn i ystyriaeth yn eich cais. Eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu ar gryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor, a dangos hynny.

Bydd yr egwyddorion buddsoddi, a'n mentrau strategol, yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb yn y dyfodol.

### Pethau y mae angen i chi eu gwybod

- Mae'n rhaid peidio â dechrau ar ein prosiect cyn i ni wneud penderfyniad.
- Yn gyntaf mae'n rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb i ddweud wrthym am eich syniad, a byddwn yn rhoi gwybod i chi os byddwch yn cael eich gwahodd i wneud cais.
- Mae'r terfynau amser ar gyfer ceisiadau datblygu a chyflwyno'n digwydd bob chwarter
- Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais a’r holl ddogfennau ategol cywir, byddwn yn asesu eich cais o fewn 12 wythnos ac, ar ôl ei asesu, fe gaiff ei gyflwyno i’r cyfarfod penderfynu nesaf a drefnir.
- Ar gyfer grantiau dan £1m, rhaid i chi gyfrannu o leiaf 5% o gostau eich prosiect. Ar gyfer grantiau dros £1m, rhaid i chi gyfrannu o leiaf 10% o gostau eich prosiect.
- Fel arfer mae taliadau am grantiau datblygu dan £250,000 yn cael eu gwneud mewn tri cham: 50% ymlaen llaw, 30% ymlaen llaw, ac yna 20% mewn ôl-daliadau. Gwneir taliadau ar gyfer grantiau datblygu dros £250,000, a'r holl grantiau cyflwyno, mewn ôl-daliadau.
- Rydym yn darparu llawer o arweiniad arfer da. Argymhellwn i chi ddarllen yr arweiniad sy'n berthnasol i chi i'ch helpu i ddatblygu a rheoli eich prosiect.
- Mae'n bosibl y byddwn yn ystyried ceisiadau dros £10m ar gyfer prosiectau treftadaeth sy'n wirioneddol eithriadol. Os yw hyn yn berthnasol i'ch prosiect chi, dylech gysylltu â'ch swyddfa leol i gael trafodaeth.

Expand All accordions

## Yr hyn a ariannwn

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n gwerthfawrogi, yn cynnal ac yn gofalu am dreftadaeth i bawb ar draws y DU, nawr ac yn y dyfodol.

Gall treftadaeth olygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Gall fod yn unrhyw beth o'r gorffennol yr ydych yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Gallai hyn gynnwys natur a chynefinoedd, adeiladau ac amgylcheddau hanesyddol, neu ddiwylliannau, traddodiadau ac atgofion pobl. Archwiliwch yr ystod eang o fathau o dreftadaeth y gallai eich prosiect eu cynnwys.

Rydym yn ariannu prosiectau sydd:

- yn canolbwyntio'n glir ar dreftadaeth - gall hyn fod yn dreftadaeth genedlaethol, rhanbarthol neu leol yn y DU
- yn cymryd y pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth
- yn cynnwys cynllun clir gyda dechrau, canol a diwedd diffiniedig
- heb ddechrau eto
- yn gallu dangos yr angen am fuddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol

Mae'n bwysig cynllunio eich prosiect yn ofalus, gan gynnwys costau, amserlenni a derbyn cymorth ar gyfer eich prosiect cyn i chi ddechrau llenwi cais. Bydd yr arweiniad isod yn eich helpu i feddwl am yr hyn y dylech ei gynnwys yn eich prosiect a'r costau y gallwn eu talu.

Gall ein grantiau treftadaeth gefnogi ystod eang o weithgareddau a chostau prosiect uniongyrchol, megis:

- treuliau gwirfoddolwyr, swyddi staff newydd a chostau hyfforddi
- gwaith cyfalaf, atgyweirio, cynnal a chadw a chadwraeth
- ffioedd proffesiynol, costau digwyddiadau a gweithgareddau i gryfhau eich sefydliad
- caffael treftadaeth a chostau sy'n gysylltiedig â'r hyn sy'n cael ei brynu
- costau i ymuno â Fit for the Future, rhwydwaith cynaladwyedd amgylcheddol DU gyfan

Ni allwn dalu costau presennol nac unrhyw weithgaredd sydd wedi digwydd cyn i'r grant gael ei ddyfarnu, nac unrhyw beth sy'n hyrwyddo achos neu gredoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd.

Ni fyddwn yn cefnogi prosiectau sy'n cynnwys gosod glaswellt neu blanhigion artiffisial, fodd bynnag caniateir arwynebau diogelwch chwarae arbenigol ac arwynebau chwaraeon proffesiynol.

Mae rhai prosiectau'n anelu at sicrhau twf economaidd drwy fuddsoddi mewn treftadaeth. Rydym yn galw'r rhain yn brosiectau Menter Treftadaeth. £5m yw'r uchafswm y gallwch ymgeisio amdano o dan menter treftadaeth.

## Iaith Gymraeg

Os bydd eich prosiect yn digwydd yng Nghymru, mae'n rhaid i chi ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith. Dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Gwnewch yn si?r bod cyfieithu wedi'u cynnwys yn eich cynllun prosiect a chyllideb eich prosiect o dan y categori costau 'Arall' yn adran costau prosiect y cais.

Am ragor o wybodaeth gweler ein Harweiniad prosiect dwyieithog yng Nghymru.

## Hyrwyddo a chydnabod ariannu

Mae cydnabod eich grant gan y Gronfa Treftadaeth yn rhan bwysig o'ch prosiect. Dyma'ch cyfle i ddangos sut mae arian y Loteri Genedlaethol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi treftadaeth yn y DU, ac i ddiolch yn gyhoeddus i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am wneud eich prosiect yn bosibl.

Bydd cynllunio'n gynnar, a dyrannu cyllideb briodol, yn eich helpu i fodloni ein gofynion a chydnabod eich grant mewn ffyrdd sy'n greadigol ac yn addas ar gyfer eich prosiect.

Rydym yn eich annog i ddatblygu cynigion neu ddigwyddiadau hyrwyddo arloesol ar gyfer chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, er enghraifft, efallai y byddwch yn cofrestru ar gyfer Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol i redeg cynigion arbennig.

Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cydnabyddiaeth yn y categori costau 'Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo' yn adran costau prosiect y cais. Rydym yn argymell i chi seilio'r costau hyn ar ddyfynbrisiau gan ddarpar gyflenwyr.

Os yw eich grant am fwy na £1m tuag at ofod arddangosfa newydd, canolfan ymwelwyr, gardd gymunedol neu gyfleuster cyhoeddus arall, hoffem hefyd drafod y ffordd orau o ymgorffori'r Loteri Genedlaethol yn enw'r gofod neu'r safle.

Defnyddiwch ein [pecyn cymorth cydnabyddiaeth] i gynllunio eich gweithgareddau'n gymesur â maint eich grant.

## Gwerthuso ac adrodd

Mae gwerthuso o ansawdd da yn eich helpu i ddeall eich effaith ac yn rhoi cyfle i eraill ddysgu o'ch profiad. Yn ei dro, mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i nodi'r gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud drwy ein grantiau.

Rydym yn argymell i chi ymwreiddio gwerthuso yn eich prosiect o’r cychwyn cyntaf. Yn ôl ein tystiolaeth, po fwyaf gofalus y mae prosiectau'n cyllidebu ar gyfer eu gwerthusiad, yr uchaf fydd ansawdd yr adroddiad terfynol.

Bydd angen i chi gynnwys cyllideb ar gyfer gwerthuso ac adrodd yn y categori costau 'Gwerthuso' yn adran costau prosiect eich cais, ar gyfer y camau datblygu a chyflwyno ill dau.

## Adennill costau llawn

Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol (er enghraifft, efallai bod gennych fwrdd ymddiriedolwyr ac wedi'ch ariannu gan grantiau a rhoddion), gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad ar ffurf adennill costau llawn.

Mae adennill costau llawn yn golygu sicrhau ariannu ar gyfer yr holl gostau sydd ynghlwm wrth redeg prosiect. Mae hyn yn golygu y gallwch ofyn i gostau prosiect uniongyrchol gael eu hariannu yn ogystal â chyfran gymesur o gostau sefydlog eich sefydliad.

Gall hyn gynnwys costau sy’n cefnogi’r prosiect yn rhannol, ond sydd hefyd yn cefnogi prosiectau neu weithgareddau eraill y mae eich sefydliad yn eu darparu, megis cyflogau staff sy’n gweithio ar draws prosiectau ym meysydd gweinyddu, rheoli, AD, neu godi arian, costau swyddfa fel rhent neu gyfleustodau a ffioedd cyfreithiol neu archwilio.

Gall ariannu sy’n talu am rai o’ch costau rhedeg fod yn bwysig i’ch cynaladwyedd, felly rydym yn eich annog i ystyried cynnwys hyn yn eich cyllideb yn y categori costau ‘Adennill costau llawn’ os

ydych yn gymwys.

Mae arweiniad cydnabyddedig ar gyfrifo’r swm adennill costau llawn sy’n berthnasol i’ch prosiect ar gael gan sefydliadau megis Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

### Eich gallu i reoli costau'r prosiect

Rhaid i chi gyfrannu at gostau eich prosiect ar y lefel grant hon. Gelwir hyn yn ariannu partneriaeth a gall fod yn arian parod, cyfraniadau nad ydynt yn arian parod, amser gwirfoddolwyr neu gyfuniad o'r rhain i gyd.

Rydym yn defnyddio cyfradd safonol o £20 yr awr i gyfrifo amser gwirfoddolwyr.

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, gallwch gynnwys y cynnydd mewn costau rheoli a chynnal a chadw'r dreftadaeth yn y dyfodol ar gyfer hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhau ymarferol fel ariannu partneriaeth.

Ar gyfer ceisiadau grant rhwng £250,000 ac £1m:

- Rhaid i chi ddarparu o leiaf 5% o gostau’r cam datblygu ac o leiaf 5% o gostau’r cam cyflwyno fel ariannu partneriaeth.

Ar gyfer ceisiadau grant rhwng £1m a £10m:

- Rhaid i chi ddarparu o leiaf 10% o gostau’r cam datblygu ac o leiaf 10% o gostau’r cam cyflwyno fel ariannu partneriaeth.

Os yw eich prosiect yn derbyn ariannu gan ddosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol (er enghraifft, y Gronfa Gymunedol) gall hyn gyfrif fel ariannu partneriaeth, ond ni all gyfrif tuag at eich lleiafswm cyfraniad o 5% neu 10%.

Os ydych yn darparu'r lleiafswm ariannu partneriaeth gofynnol, neu os na allwch ddarparu unrhyw ariannu partneriaeth, bydd angen i chi esbonio pam yn eich cais. Byddwn wedyn yn ystyried eich achos dros swm y grant y gofynnir amdano fel rhan o'n hasesiad.

Expand All  accordions

## Pwy all ymgeisio?

O dan y rhaglen hon, rydym yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau nid-er-elw a phartneriaethau a arweinir gan sefydliadau nid-er-elw.

Dyma rai enghreifftiau o’r mathau o sefydliadau y gallwn eu hariannu:

- elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau corfforedig elusennol
- grwpiau cymunedol a gwirfoddol

- cynghorau cymuned/plwyf
- cwmnïau buddiant cymunedol
- sefydliadau ffydd neu eglwysig
- awdurdodau lleol
- sefydliadau sector cyhoeddus eraill

Mae angen i sefydliadau fod â chyfrif banc, dogfen lywodraethu, a dau neu fwy o aelodau nad ydynt yn perthyn i'w gilydd nac yn byw yn yr un cyfeiriad.

Os ydych yn ansicr a ydych yn gymwys i wneud cais, cysylltwch â'ch tîm lleol drwy gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb.

### Partneriaethau

Rydym yn eich annog i weithio gyda phobl eraill i ddatblygu a chyflawni eich prosiect.

Mae partner yn sefydliad arall neu gorff trydydd parti sy'n rhan annatod o gyflawni'ch prosiect.

Nid yw partneriaid yn isgontractwyr. Bydd ganddynt rôl weithredol yn y prosiect a byddant yn cymryd rhan yn y prosiect. Byddant yn helpu i adrodd ar gynnydd, yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd ac yn cefnogi gwerthusiad y prosiect.

Os ydych yn bwriadu gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni cyfran sylweddol o'ch prosiect, mae'n rhaid i chi ffurfioli eich perthynas trwy gytundeb partneriaeth.

Os ydych yn gwneud cais ar y cyd, bydd angen i chi benderfynu pa sefydliad fydd yr ymgeisydd arweiniol. Bydd yr ymgeisydd arweiniol yn cwblhau'r cais, ac os yw'n llwyddiannus, bydd yn derbyn y grant ac yn darparu diweddariadau prosiect. Fel arfer rydym yn disgwyl mai perchennog y dreftadaeth fydd yr ymgeisydd arweiniol. Os nad perchennog y dreftadaeth yw'r ymgeisydd arweiniol, byddwn fel arfer yn gofyn iddynt ymrwymo i delerau'r grant.

Expand All accordions

## Y broses ymgeisio

Rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb yn gyntaf ac, os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais. Bydd gennych 12 mis i gyflwyno cais.

Os nad ydym yn eich gwahodd i wneud cais, byddwn yn esbonio ein rheswm. Rhaid i chi aros tri mis cyn cyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb newydd.

Bydd eich cais mewn cystadleuaeth â phrosiectau eraill yn y camau datblygu a chyflwyno. Nid yw dyfarnu grant datblygu'n gwarantu y byddwch yn derbyn dyfarniad grant cyflwyno.

### Cam datblygu

Dylai eich cais fel arfer gynnwys cam datblygu i'ch helpu i weithio ar eich cynnig ar gyfer y prosiect. Dylech gynnwys gwybodaeth fanwl am y cam hwn ac amlinellu cynigion ar gyfer eich cam cyflwyno. Mae'r cam datblygu'n eich galluogi i ddod i well dealltwriaeth o'r costau, yr adnoddau, yr amserlen ac anghenion eich cynulleidfaoedd. Dylech ddefnyddio'r wybodaeth hon i greu cynigion manwl ar gyfer eich cais cam cyflwyno.

Gallwch gymryd hyd at ddwy flynedd i gwblhau'r cam hwn.

Mae'r cam datblygu'n debygol o gynnwys:

- ymgynghori â phobl y tu allan i'ch sefydliad
- adolygiad o'ch llywodraethu, cynllunio busnes ac unrhyw faterion cyfreithiol
- gwaith dylunio a chynllunio manwl
- unrhyw arolygon neu ymchwiliadau angenrheidiol

**Adolygu eich cam datblygu**

Byddwn yn adolygu eich prosiect yn ystod y cam hwn i weld pa gynnydd yr ydych yn ei wneud gyda'ch cais cam cyflwyno.

Ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf, byddwn yn edrych ar eich cynlluniau pan fyddant yn cyfateb i gam gwaith 2 RIBA.

Prif ddiben yr adolygiad yw cadarnhau bod:

- y prosiect yn dod yn ei flaen yn dda ac yn dilyn y dibenion cymeradwy
- diweddariadau costau ac ariannu partneriaeth yn dynodi prosiect hyfyw
- modd rheoli'r risgiau
- cynllun cadwraeth drafft ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â gwaith cyfalaf ar dir neu adeiladau

Mae'r adolygiad hefyd yn darparu cyfle i adolygu unrhyw newidiadau sylweddol ac amlygu unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwaith pellach. Os oes pryderon difrifol, efallai y bydd eich prosiect yn methu'r adolygiad a byddwn yn argymell nad ydych yn cyflwyno cais cam cyflwyno.

## Cam cyflwyno

Byddwn yn trafod eich cais cam cyflwyno gyda chi yn ystod eich cam datblygu. Dylech ddarparu gwybodaeth fanwl am eich cynigion cam cyflwyno yn eich cais.

Os dyfernir grant cyflwyno i chi, bydd gennych hyd at bum mlynedd i gwblhau eich prosiect oni bai ein bod wedi cytuno ar gyfnod prosiect hwy gyda chi.

## Terfynau amser ymgeisio

Mae yna derfynau amser chwarterol ar gyfer ceisiadau cam datblygu a chyflwyno.

**Penderfyniadau brys**

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y byddwn yn ystyried proses ymgeisio llwybr cyflym, os oes angen dirfawr am benderfyniad cyflymach (er enghraifft, os oes gennych gyfle i brynu eitem treftadaeth mewn arwerthiant ond bod angen symud yn gyflym). Os credwch fod hyn yn berthnasol i'ch prosiect, dylech gysylltu â'ch swyddfa leol i drafod hyn.

Expand All accordions

# Sut i wneud cais

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i sicrhau eich bod yn barod i wneud cais:

Cam un:

- Rwyf wedi darllen yr arweiniad ymgeisio a'r cwestiynau ymgeisio
- Rwyf wedi ddarllen y?telerau grant ar gyfer y rhaglen hon
- Rwyf wedi cyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb

Anelwn at ymateb i'ch Mynegiad o Ddiddordeb o fewn 20 diwrnod gwaith.

Os ydych yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais llawn.

Noder: nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym ni yn y dyfodol, ond mae'n dangos ein bod yn gweld potensial yn eich cynnig cychwynnol.

Cam dau (os bydd fy Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus, a chaf fy ngwahodd i wneud cais):

- Rwyf wedi llunio cynllun a chyllideb ar gyfer y prosiect a gwirio fy nghostiadau
- Rwyf wedi paratoi'r holl ddogfennau ategol gorfodol gan gynnwys cyfrifon fy sefydliad
- Rwyf wedi ystyried unrhyw ganiatadau neu drwyddedau sydd eu hangen arnaf, er enghraifft trwydded ystlumod neu ganiatâd adeilad rhestredig
- Rwyf wedi cynllunio sut i werthuso fy mhrosiect
- Rwyf wedi cynllunio sut i gydnabod fy ngrant, os bydd fy nghais yn llwyddiannus

Gwneud cais am neu reoli cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth.

Expand All accordions

# Dogfennau ategol

Bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau ategol perthnasol a amlinellir yn yr adran hon fel rhan o'r broses ymgeisio.

Mae angen rhai dogfennau yn ystod cam datblygu eich prosiect, ac mae angen rhai eraill yn ystod y cam cyflwyno. Hefyd, bydd angen i chi ddarparu fersiynau wedi'u diweddaru o rai o'r dogfennau a ddarparwyd gyda'ch cais cam datblygu fel rhan o'ch cais cam cyflwyno.

Ni fydd pob un o'r dogfennau eraill a restrir isod yn berthnasol i'ch prosiect. Bydd yr wybodaeth ychwanegol a'r arweiniad i'r cwestiynau ymgeisio'n eich helpu i benderfynu a ydynt yn berthnasol. Peidiwch â chyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol, gan na fyddwn yn eu defnyddio wrth wneud ein hasesiad.

Mae angen dogfennau ategol ychwanegol ar gyfer ceisiadau sy'n cyfeirio at brosiectau Menter Treftadaeth.

Mae'n bosibl y bydd angen dogfennau ategol ychwanegol ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â chaffaeliadau. Gweler rhagor o wybodaeth yn yr adran Caffael adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth.

## Dogfennau ategol y cam datblygu

**Rhaid** i chi ddarparu'r dogfennau gorfodol a ganlyn:

- dogfen lywodraethu (oni bai eich bod wedi’ch eithrio)
- gwybodaeth cyfrifon
- amserlen ar gyfer y camau datblygu a chyflwyno
- cofrestr risgiau ar gyfer y camau datblygu a chyflwyno
- dogfen yn amlinellu'r prif risgiau ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau
- dadansoddiad costau manwl ar gyfer y cam datblygu
- cynllun busnes cyfredol eich sefydliad

**Dogfen lywodraethu (er enghraifft, cyfansoddiad)**

Rhaid i chi ddarparu copi o ddogfen lywodraethu eich sefydliad.

Rhaid bod gennych o leiaf ddau berson ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli nad ydynt yn perthyn i'w gilydd trwy waed neu briodas, nac yn byw yn yr un cyfeiriad.

Dylai eich dogfen lywodraethu gynnwys y canlynol:

- enw cyfreithiol a nodau eich sefydliad
- datganiad sy’n atal eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i’w aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy’n cadarnhau, os caiff eich sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, y bydd asedau’r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu nid-er-elw arall ac nid i aelodau’r sefydliad
- y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu a llofnod eich cadeirydd neu berson awdurdodedig arall

Ni allwn ariannu eich sefydliad os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys yr uchod. Mae'r Comisiwn Elusennau'n darparu arweiniad ar greu dogfen lywodraethu.

Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethu os ydych yn:

- sefydliad cyhoeddus, er enghraifft, awdurdod lleol neu brifysgol
- elusen sy'n gofrestredig gyda Chomisiynau Elusennau Cymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu Reoleiddiwr Elusennau'r Alban

**Cyfrifon**

Rhaid i chi ddarparu eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u harchwilio neu eu dilysu gan gyfrifydd ar gyfer y tair blynedd diwethaf a'ch cyfrifon rheoli ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Os yw cyfrifon eich sefydliad yn h?n na 18 mis oed, neu os sefydlwyd eich sefydliad lai na 14 mis yn ôl ac nad oes ganddo set o gyfrifon wedi'u harchwilio, rhaid i chi ddarparu eich tair cyfriflen banc ddiwethaf neu lythyr wedi'i arwyddo gan eich banc.

**Cofrestr risgiau**

Rhaid i chi gyflwyno cofrestr risgiau ar gyfer y camau datblygu a chyflwyno.

Mae cofrestr risgiau'n ddogfen, fel arfer wedi'i llunio fel tabl, sy'n rhestru'r holl risgiau a nodwyd gan sefydliad ac wedi'u blaenoriaethu yn nhrefn pwysigrwydd.

Rydym yn gwybod bod pob prosiect yn wynebu heriau a risgiau. Byddwn am weld pa risgiau yr ydych wedi'u hystyried, yr effaith y byddai'r risg yn ei chael ar eich prosiect a sut y byddech yn cynllunio i reoli pob risg.

Ar gyfer pob risg, amlinellwch:

- natur y risg, er enghraifft technegol, marchnad, ariannol, economaidd, rheoli, cyfreithiol
- disgrifiad o'r risg
- y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, gan ddefnyddio gwerth canrannol neu radd isel, canolig neu uchel
- yr effaith y gallai'r risg ei chael ar gostau, amser a/neu berfformiad y prosiect
- yr effaith gyffredinol y gallai’r risg ei chael ar gyflwyno’r prosiect
- sut y byddech yn mynd i'r afael â’r risg

**Dadansoddiad manwl o gostau**

Rhaid i chi ddarparu taenlen yn manylu ar y costau y gwnaethoch eu hamlinellu wrth gwblhau eich cais.

Mae arnom angen taenlen fanwl o wariant ac incwm y prosiect, gan gyfeirio at y penawdau cyllideb a ddefnyddiwyd yn eich cais, gan eitemeiddio pob agwedd.

Er enghraifft, efallai eich bod wedi cynnwys gwaith atgyweirio a chadwraeth yn eich cyllideb gychwynnol, gyda chrynodeb pennawd o 'atgyweiriadau to, £100,000'. Dylech ymhelaethu ar hyn yn eich dadansoddiad manwl o gostau, gan ddarparu taenlen sy'n cynnwys rhestr wedi'i

heitemeiddio o'r deunyddiau a'r llafur dan sylw gyda rhes ar wahân ar gyfer pob cost.

### Cynllun busnes

Rhaid i chi gyflwyno cynllun busnes cyfredol eich sefydliad.

Os nad oes gennych gynllun busnes, gofynnir i chi gyflwyno'r ddogfen rydych yn ei defnyddio i reoli eich treftadaeth. Os ydych yn sefydliad sy'n rheoli nifer o safleoedd neu, er enghraifft, yn awdurdod lleol, gofynnir i chi gyflwyno'r dogfennau cynllunio sydd fwyaf perthnasol i'r dreftadaeth yn eich cais.

Mae cynllun busnes yn nodi agweddau ariannol a threfniadaethol eich busnes. Mae'n dangos:

- trosolwg o'ch sefydliad
- statws ariannol eich sefydliad
- cyd-destun eich sefydliad
- sut rydych am ddatblygu eich sefydliad

Nid yw cynllun busnes yr un peth â chynllun prosiect. Mae'n canolbwyntio ar y sefydliad cyffredinol ac nid ar weithgareddau prosiect penodol, ond fe ddylai gyfleu sut mae eich prosiect arfaethedig yn cydweddu â'ch uchelgeisiau fel sefydliad. Am ragor o wybodaeth gweler ein harweiniad cynllun busnes.

### Amserlen y prosiect

Rhaid i chi ddarparu amserlen ar gyfer y camau datblygu a chyflwyno.

Dylai hyn gynnwys gwybodaeth fanwl am y cam datblygu a gwybodaeth amlinellol am y cam cyflwyno. Dylai hyn hefyd gynnwys cyfeiriadau at y cerrig milltir yr ydych yn disgwyl i'ch prosiect eu cyflawni, gan ddarparu trosolwg cynhwysfawr o sut yr ydych yn disgwyl i'ch prosiect esblygu dros amser.

### Disgrifiadau swydd (os yn berthnasol)

Os ydych yn bwriadu recriwtio staff neu brentisiaid newydd i helpu cyflwyno eich prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd newydd. Dylai pob disgrifiad swydd gynnwys y cyflog a'r oriau gwaith arfaethedig.

### Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith yr ydych yn bwriadu ei brynu i mewn yn ystod eich prosiect.

Os ydych yn comisiynu gwaith, er enghraifft, gan artist neu bensaer, dylech ddarparu brîff. Dylai'r brîff ddisgrifio'r gwaith, faint o amser y bydd yn ei gymryd, faint y bydd yn ei gostio a'r sgiliau gofynnol.

Gallwch gael mwy o wybodaeth a defnyddio ein templed o frîff.

**Cyfrifo adennill costau llawn ar gyfer y cam datblygu (os yn berthnasol)**

Os ydych wedi cynnwys adennill costau llawn fel pennawd cost yng nghostau eich prosiect, rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn yn seiliedig ar gyfrifon a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae arweiniad cydnabyddedig ar gyfrifo'r swm adennill costau llawn sy'n berthnasol i'ch prosiect ar gael gan sefydliadau megis Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Ni allwn dderbyn ceisiadau sy'n cynnwys adennill costau llawn gan sefydliadau sector cyhoeddus (er enghraifft, amgueddfeydd a ariennir gan lywodraeth, awdurdodau lleol neu brifysgolion).

**Delweddau o'r prosiect (os yn berthnasol)**

Os yn berthnasol, darparwch hyd at chwe delwedd sy'n helpu i roi darlun o'ch prosiect.

Gwnewch yn si?r bod gennych bob caniatâd sydd ei angen, megis perchnogaeth ar hawlfraint a ffurflenni caniatâd cyfranogwyr, i rannu'r delweddau hyn gyda ni, gan y byddwn o bosibl yn eu defnyddio i hysbysu pobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect.

**Tystiolaeth o gefnogaeth (os yn berthnasol)**

Darparwch hyd at chwe darn o dystiolaeth o gefnogaeth, er enghraifft llythyrau, e-byst neu ffurflenni adborth, gan sefydliadau neu unigolion eraill sy'n cefnogi neu'n cymryd rhan yn eich prosiect.

Mae darparu tystiolaeth o gefnogaeth yn ffordd dda o ddangos i ni eich bod wedi siarad â phobl eraill a bod ganddynt ddiddordeb yn eich prosiect a'u bod wedi'u hymrwymo iddo.

**Cytundebau partneriaeth (gorfodol os yn berthnasol)**

Os ydych yn bwriadu gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni eich prosiect, bydd angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid a dylai pob parti ei lofnodi. Dylai'r ddogfen hon adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn am gyngor annibynnol ar y ffordd orau o lunio cytundeb.

**Arolwg cyflwr (os yn berthnasol)**

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chadwraeth treftadaeth, rhaid i chi ddarparu arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall i ddweud wrthym beth yw cyflwr presennol y dreftadaeth a'r gwaith sydd ei angen i ddychwelyd y dreftadaeth i gyflwr da.

Dylai'r arolwg neu'r adroddiad hefyd nodi blaenoriaeth gymharol y gwaith arfaethedig, er mwyn i chi wybod pa waith sydd fwyaf hanfodol, y mae angen ymdrin ag ef fwyaf ar fyrder.

Mae mathau eraill o arolwg a allai fod yn berthnasol i'w cynnwys fel rhan o arolwg cyflwr, megis arolwg perfformiad ac effeithlonrwydd ynni adeilad.

**Dogfennau perchnogaeth (os yn berthnasol)**

Os ydych yn cynllunio unrhyw waith cyfalaf, neu'n bwriadu prynu adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth, bydd angen i chi ddarparu copïau o unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i'ch perchnogaeth. Enghreifftiau o'r rhain yw dogfennau perchnogaeth y Gofrestrfa Tir, neu brydles neu benawdau telerau.

## Dogfennau ategol y cam cyflwyno

Wrth gwblhau cais cam cyflwyno, **rhaid** i chi ddarparu fersiynau wedi’u diweddaru o’r dogfennau canlynol i adlewyrchu’r ddealltwriaeth newydd o’r costau, yr adnoddau, yr amserlen ac anghenion eich cynulleidfaoedd yr ydych wedi'i datblygu yn ystod cam datblygu eich prosiect:

- cynllun busnes
- dadansoddiad llawn o gostau, gan gynnwys colofnau ychwanegol sy'n cymharu costau adeg dyfarnu eich grant datblygu, yr adolygiad o'ch cam datblygu a chyflwyno'ch cais cam cyflwyno
- cofrestr risgiau ar gyfer y cam cyflwyno ac ar ôl i'r prosiect ddod i ben
- amserlen ar gyfer y cam cyflwyno
- cyfrifiad o adennill costau llawn ar gyfer y cam cyflwyno, os yn berthnasol
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir, os yn berthnasol
- disgrifiadau swydd ar gyfer y cam cyflwyno, os yn berthnasol
- delweddau, os yn berthnasol
- cytundebau partneriaeth, os yn berthnasol
- dogfennau perchnogaeth, os yn berthnasol

Rhaid i chi ddarparu'r dogfennau a ganlyn fel y bo'n berthnasol.

**Cynllun gweithgareddau neu gynllun gweithredu ardal**

Rhaid i chi ddarparu cynllun gweithgareddau neu gynllun gweithredu ardal fel y bo'n berthnasol. Os yw eich prosiect yn ymwneud â gweithgareddau a phobl, rhaid i chi gynhyrchu cynllun gweithgareddau. Os ydych yn gweithio ar brosiect ardal, rhaid i chi gynhyrchu cynllun gweithredu ardal.

**Cynllun gweithgareddau**

Mae cynllun gweithgareddau'n disgrifio popeth y byddwch yn ei wneud fel rhan o'ch prosiect a gefnogir gan y Loteri Genedlaethol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl dan sylw. Gall y rhain fod yn gyfranogwyr, ymwelwyr, gwirfoddolwyr neu hyfforddeion ond gallent hefyd gynnwys staff newydd a phresennol a'ch ymddiriedolwyr neu'ch gr?p llywio.

Bydd angen i chi benderfynu pa grwpiau penodol o bobl yr ydych eisiau eu cyrraedd gyda'ch ariannu. Wedyn, nodwch yr holl weithgareddau – yn fanwl ac wedi’u costio’n gywir – y byddwch yn eu gwneud i ddiwallu eu hanghenion a chyflawni ein hegwyddorion buddsoddi o fewn eich prosiect.

Mae eich cynllun gweithgareddau'n benodol i'r prosiect treftadaeth yr ydych yn gofyn i ni ei ariannu. Dydy e ddim yr un peth â'ch cynlluniau ar gyfer gwaith bob dydd neu gynllun datblygu cyffredinol ar

gyfer gweithgarwch eich sefydliad.

Mae mwy o wybodaeth yn ein harweiniad cynllun gweithgareddau.

### Cynllun gweithredu ardal

Os yn berthnasol, dylai eich cynllun gweithredu ardal gynnwys:

- crynodeb sy’n esbonio cymeriad unigryw eich ardal a sut mae wedi esblygu dros amser – gan gynnwys yr holl dir, bioamrywiaeth, adeileddau, adeiladau a nodweddion sy’n gwneud neu a allai wneud cyfraniadau cadarnhaol at naws unigryw gyffredinol yr ardal
- gwybodaeth am sut mae’r ardal yn cael ei rheoli a’i gwarchod ar hyn o bryd, gan gynnwys asesiad o strategaethau a pholisïau cyfredol yn erbyn meincnodau sector priodol, ac argaeledd sgiliau treftadaeth a'r angen amdanynt
- dadansoddiad o gyflyrau demograffig, cymdeithasol ac economaidd yr ardal; asesiad o fuddiannau a phryderon gwahanol rhanddeiliaid megis perchnogion treftadaeth, cymunedau lleol, y gymuned fusnes ac ymwelwyr
- gweledigaeth gytunedig eich sefydliad ar gyfer yr ardal
- gwybodaeth a fydd yn eich helpu i ddylunio gweithgareddau y byddwch yn eu rhedeg fel rhan o'ch cynllun i ennyn diddordeb pobl leol yn nhreftadaeth yr ardal
- eich sail resymegol dros ffiniau eich ardal
- asesiad o'r polisïau a'r pwerau statudol y mae angen eu rhoi ar waith i warchod cymeriad yr ardal a chynnal buddion eich cynllun yn y tymor hir er budd y dreftadaeth a chymunedau lleol
- bygythiadau i'r ardal a chyfleoedd i fynd i'r afael â'r rhain megis newid yn yr hinsawdd; yr amgylchedd gwleidyddol a materion polisi ehangach; newidiadau cymdeithasol ac economaidd; ac agweddau lleol a dealltwriaeth o'r dreftadaeth
- crynodeb o’r math a chategori o waith y gellid ei wneud i warchod a gwella cymeriad tir, bioamrywiaeth, adeileddau, adeiladau, nodweddion a’r ardal yn gyffredinol
- cynlluniau ar gyfer etifeddiaeth hirdymor arfaethedig eich prosiect a sut y caiff hyn ei sicrhau
- manylion sut y byddwch yn gwerthuso eich prosiect ardal a pha adnoddau y bydd eu hangen arnoch i gwblhau'r gwerthusiad hwn

Dylai eich cynllun gweithredu ardal gael ei uwchlwytho mewn dogfen megis PDF. Dylech gynnwys crynodeb gweithredol nad yw'n hwy nag un dudalen o A4 a thudalen gynnwys.

Rydym yn darparu manylion pellach ar sut i greu cynllun gweithredu ardal.

### Adroddiad llif arian parod

Rhaid i chi ddarparu trosolwg cyflawn o lif arian parod eich sefydliad trwy gydol eich prosiect. Dylai hyn gynnwys adroddiad misol o'ch balans banc, ynghyd ag unrhyw warged neu ddiffyg arian parod misol.

Os oes gennych is-gwmni masnachu, paratowch lif arian parod cyfunol ar gyfer y rhiant-sefydliad a'r is-gwmni.

Esboniwch y tybiaethau yr ydych yn eu gwneud ynghylch unrhyw incwm y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol o unrhyw ffynonellau ariannu eraill.

### Rhagamcaniadau incwm a gwariant am bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect

Mae'n rhaid i chi ddarparu asesiad ariannol cyffredinol o'ch sefydliad fel y bo'n berthnasol i'ch prosiect, gan gynrychioli eich gweithrediad o ddydd i ddydd a'ch model ariannol gan gynnwys eich prif ffynonellau ariannu, fel y bwriadwch weithredu am y pum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Dylai hyn gynnwys rhagolwg o'ch cyfrif incwm a gwariant, rhagolwg llif arian parod yn dangos y llif arian parod misol disgwyliedig a datganiadau o'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhagolygon.

Dylech gynnwys manylion y tybiaethau a wneir yn eich cyfrifiadau. Tybiaeth yw unrhyw beth yr ydych yn dibynnu arno i wneud rhagolygon. Er enghraifft, nifer cyfartalog yr ymwelwyr yr ydych yn eu disgwyl yn seiliedig ar y flwyddyn flaenorol, neu unrhyw gostau anhysbys o ran deunyddiau.

Cofiwch sicrhau eich bod hefyd yn cynnwys manylion unrhyw gronfeydd wrth gefn a allai effeithio ar eich adroddiad.

### Strwythur rheoli'r prosiect

Rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n esbonio strwythur rheoli eich prosiect, gan gyfeirio at brosesau gwneud penderfyniadau a llinellau cyfathrebu ac adrodd. Efallai y bydd yn berthnasol darparu siart sefydliadol/diagram rhwydwaith syml i ddangos strwythurau llywodraethu, rheoli a staffio eich sefydliad fel y bônt yn berthnasol i'r prosiect.

### Cynllun rheoli a chynnal a chadw (os yn berthnasol)

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, creu deunydd newydd, neu brynu adeilad hanesyddol, adeiledd, treftadaeth trafnidiaeth, neu dir, byddwn yn gofyn i chi baratoi cynllun rheoli a chynnal a chadw fel rhan o'ch cais cam cyflwyno.

Mae'r cynllun rheoli a chynnal a chadw yn dweud wrthym sut y byddwch yn gofalu am eich treftadaeth unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau, gan gynnwys sut rydych yn disgwyl cynnal buddion eich prosiect yn y dyfodol. Byddwn yn disgwyl i chi sicrhau bod y gwaith rydym wedi'i ariannu'n cael ei gadw mewn cyflwr da.

Byddwn yn disgwyl i'ch sefydliad fabwysiadu eich cynllun rheoli a chynnal a chadw, i'w integreiddio i'ch polisïau rheoli a gofal presennol, a darparu adnoddau ariannol i roi'r cynllun hwnnw ar waith am gyfnod eich contract grant.

Dylai eich cynllun rheoli a chynnal a chadw nodi sut y bydd canlyniadau eich prosiect yn cael eu cynnal, pwy fydd yn ei wneud, pa sgiliau y bydd eu hangen arnynt, pryd y bydd angen gwneud pethau a beth fydd cost y gwaith hwn.

Dylai eich cynllun gynrychioli gwaith a gwblhawyd yn ystod y cam datblygu gan gyfeirio, er enghraifft, at y ffyrdd yr ydych yn bwriadu cynnal ansawdd nodweddion sydd newydd eu hadfer.

Gall hyn gynnwys tarddiad a manyleb y deunyddiau neu'r palet o liwiau a ddefnyddiwyd i beintio nodweddion/dodrefn ymhlith penderfyniadau eraill a wnaed yn ystod eich prosiect hyd yma.

Gweler canllaw cyflawn i greu cynllun rheoli a chynnal a chadw.

**Manyleb ddylunio neu gynllun dehongli (os yn berthnasol)**

Gall fod yn berthnasol cynnwys manyleb ddylunio neu gynllun dehongli sy'n esbonio'r ffordd y mae eich prosiect yn bwriadu arddangos neu rannu treftadaeth.

Dehongli yw'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu storïau a syniadau am dreftadaeth i wahanol gynulleidfaoedd. Mae'n golygu troi gwybodaeth yn rhywbeth hygyrch, perthnasol a deniadol.

Dylech gynnwys cyfeiriad penodol at y ffyrdd y bydd eich prosiect yn dyfnhau dealltwriaeth pobl o dreftadaeth, archwilio a gwneud synnwyr o safleoedd a thirweddau hanesyddol, gwrthrychau, traddodiadau neu ddigwyddiadau.

Gallwch gynnwys eich cynlluniau ar gyfer y profiad ehangach a fydd yn helpu ymwelwyr i ymgysylltu â threftadaeth. Gall hyn gynnwys cynlluniau pensaernïol a dyluniadau ar gyfer gwrthrychau diriaethol neu adeiladau, gwaith adnewyddu neu arddangosfa.

Gall dehongli fod ar sawl ffurf wahanol, o lwybrau, disgrifiadau sain a ffilmiau i weithdai, gwaith rhyngweithiol ac arddangosiadau ar-lein.

Darllenwch ein canllaw i greu cynllun dehongli.

**Cynllun cadwraeth wedi'i ddatblygu (os yn berthnasol)**

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, creu deunydd newydd, neu brynu adeilad hanesyddol, adeiledd, treftadaeth trafnidiaeth neu dir, dylech gyflwyno cynllun cadwraeth sy'n manylu ar y ddealltwriaeth o'ch treftadaeth a'r cyfleoedd i rannu eich treftadaeth ag eraill, fel y gwnaethoch ei nodi yn eich cam datblygu. Gallwch ymdrin ag unrhyw risgiau a bygythiadau yr ydych wedi'u nodi.

Darllenwch ein canllaw i greu cynllun cadwraeth.

Expand All accordions

## Sut y byddwn yn asesu'ch cais

Dewiswch yn ofalus pryd i wneud eich cais. Peidiwch â rhuthro i gyflwyno cais cyn eich bod yn barod, a gwnewch yn si?r eich bod wedi meddwl am y ffordd orau o bennu hyd a lled eich gweithgarwch a sut y byddwch yn ei reoli.

Rydym yn derbyn nifer uwch o geisiadau nag y gallwn eu hariannu ac mae angen blaenoriaethu lle y gall ein buddsoddiad wneud gwahaniaeth sylweddol.

Dylech ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen gais.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais ar-lein, byddwn yn gwirio bod popeth yn ei le a byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod pryd y gallwch ddisgwyl penderfyniad. Ni fydd modd i ni ddechrau asesu'ch cais hyd nes y bydd gennym yr wybodaeth berthnasol a'r dogfennau ategol.

Os yw eich cais am ddyfarniad grant datblygu, mae'n annhebygol y byddwch yn clywed gennym eto hyd nes i ni roi gwybod i chi am y penderfyniad.

Fel sefydliad sy’n dosbarthu arian cyhoeddus, rydym yn cynnal rhai gwiriadau ar yr wybodaeth a roddwch i ni pan fyddwch yn gwneud cais (er enghraifft, efallai y byddwn yn gwirio’ch hanes gyda ni neu’n cynnal gwiriadau hunaniaeth neu dwyll).

Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

- a yw eich prosiect yn berthnasol i dreftadaeth yn y DU
- yr anghenion a'r cyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw
- i ba raddau y bydd eich prosiect yn cymryd pob un o'r pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth
- sut y bydd effaith eich prosiect yn cael ei chynnal

Mae’n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried materion fel sicrhau lledaeniad daearyddol o’n hariannu.

Os nad yw eich cais yn amlwg yn ymwneud â threftadaeth y DU neu os nad yw'n cymryd pob un o'r pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth, mae'n bosibl y caiff ei wrthod yn gynharach yn ystod y broses asesu a byddwn yn rhoi gwybod i chi.

## Ystyried risg

Wrth asesu'ch cais, byddwn yn gwneud dyfarniad pwyllog ar y risgiau posibl i’ch prosiect a’ch risgiau sefydliadol presennol – ac yn edrych i weld a ydych wedi nodi’r rhain a dweud wrthym sut y byddwch yn lliniaru yn eu herbyn.

Bydd pob prosiect yn wynebu bygythiadau a chyfleoedd y bydd angen i chi eu nodi a'u rheoli. Rydym am i chi fod yn realistig ynghylch y risgiau y gallai eich prosiect a'ch sefydliad eu hwynebu fel eich bod mewn sefyllfa dda i reoli a chyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus.

Dylech hefyd ystyried chwyddiant a chostau wrth gefn yn ofalus yn eich cais.

Mae chwyddiant ar gyfer prosiectau adeiladu'n debygol o barhau'n uchel hyd y gellir rhagweld. Dylech ddarparu ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar amserlen y prosiect, ynghyd â ffactorau eraill fel y deunyddiau a ddefnyddir, gofynion o ran llafur a lleoliad.

Gallwch gyrchu dadansoddiadau a rhagamcaniadau ar gyfer costau chwyddiant o ffynonellau megis?Building Cost Information Service?ac ymgynghoriaethau gan gynnwys?Gardiner & Theobold Market Intelligence,?Turner & Townsend?a?Rider Levett Bucknall.

Y mathau o risgiau a phroblemau y dylech eu hystyried yw:

- ariannol: er enghraifft, gostyngiad yn y cyfraniad o ffynhonnell ariannu arall

- sefydliadol: er enghraifft, prinder pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch neu staff sy'n gorfod gweithio ar brosiectau eraill
- economaidd: er enghraifft, cynnydd annisgwyl yng nghost deunyddiau
- technegol: er enghraifft, darganfod lleithder annisgwyl ac eang
- cymdeithasol: er enghraifft, ymatebion negyddol i ymgynghori neu ddiffyg diddordeb gan eich cynulleidfa darged
- rheoli: er enghraifft, newid arwyddocaol yn nhîm y prosiect
- cyfreithiol: er enghraifft, rheoli cymhorthdal, neu newidiadau yn y gyfraith sy'n golygu nad yw'r prosiect yn ymarferol
- amgylcheddol: er enghraifft, anawsterau wrth ddod o hyd i ffynonellau pren o goedwigoedd a reolir yn dda

## Amser asesu

Unwaith y bydd gennym bopeth sydd ei angen arnom, byddwn yn anelu at asesu eich cais o fewn 12 wythnos ac, ar ôl ei asesu, fe gaiff ei gyflwyno i'r cyfarfod penderfynu nesaf a drefnir. (Noder: ni allwn ddechrau asesu eich cais hyd nes bod yr holl wiriadau gofynnol wedi'u cwblhau a'n bod wedi derbyn yr holl wybodaeth ategol ofynnol.)

## Penderfyniadau

Gwneir penderfyniadau ar sail chwarterol gan Bwyllgor eich gwlad neu ardal neu gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

## Os yw eich cais yn llwyddiannus

Rhaid i chi aros i dderbyn caniatâd gennym cyn dechrau ar eich prosiect. Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen ar-lein a rhoi'r canlynol i ni:

manylion eich cyfrif banc (gorfodol)

- prawf o berchnogaeth/gofynion prydles (ar gyfer pob prosiect cyfalaf, os bu unrhyw newidiadau ers cyflwyno'r cais)
- manylion caniatadau statudol a/neu drwyddedau sydd eu hangen ac a gafwyd (os yn berthnasol)
- cadarnhad o ariannu partneriaeth (os yn berthnasol)
- dadansoddiad o gostau ac adroddiad llif arian parod
- strwythur rheoli'r prosiect a dulliau o ddewis ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr
- amserlen neu raglen waith y prosiect

Bydd angen cyfrif banc ar eich sefydliad. Rhaid i'r enw ar y cyfrif banc hwn gyfateb yn union i enw'r sefydliad sy'n gwneud y cais.

Bydd angen i chi ymrwymo i'n telerau grant. Mae hyd y telerau grant yn dibynnu ar y math o brosiect:

- gweithgareddau: dyddiad dod i ben y prosiect

- cyfalaf: ugain mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- digidol: ugain mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect
- caffaeliad: Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem o dreftadaeth, tir neu adeilad, bydd telerau'r grant yn para am gyfnod amhenodol. Os, yn y dyfodol, y byddwch am waredu'r hyn yr ydych wedi'i brynu, rhaid i chi ofyn am ein caniatâd a gallwn hawlio rhan neu'r cyfan o'n grant yn ôl.

Dyddiad Cwblhau'r Prosiect yw'r dyddiad pan fyddwn yn eich hysbysu y rhoddwyd cofnod wedi'i gwblhau i'r Prosiect.

Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu cyfarfod dechrau arni. Yn y cyfarfod hwn mae'n bosibl y cewch eich cyflwyno i ymgynghorydd o'n Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi (RoSS), a fydd yn eich cefnogi i ddatblygu neu gyflwyno agweddau ar eich prosiect neu'n helpu i adolygu risgiau.

**Sut rydym yn talu eich grant**

Ar gyfer grantiau datblygu hyd at £250,000, byddwn yn talu eich grant mewn tri rhandaliad:

1. byddwn yn rhoi 50% o'r grant i chi ymlaen llaw
2. unwaith y byddwch wedi gwario hanner cyntaf cyfanswm costau cymwys eich prosiect, byddwn yn rhoi'r 30% nesaf i chi
3. byddwn yn talu'r 20% terfynol o'ch grant pan fyddwch wedi gorffen eich prosiect ac wedi anfon adroddiad cwblhau terfynol, gwerthusiad prosiect a phrawf o gydnabod eich grant atom

Ar gyfer grantiau datblygu dros £250,000 ac ar gyfer pob grant cyflwyno byddwn yn talu'r grant mewn ôl-daliadau. Byddwn hefyd yn cadw'r 10% olaf o'ch grant hyd nes y byddwn yn fodlon bod y prosiect wedi'i gwblhau, bod y grant wedi'i wario'n briodol, a'ch bod wedi anfon eich adroddiad gwerthuso a phrawf o'ch cydnabyddiaeth o'r ariannu atom.

Byddwn yn talu eich grant fel canran o gostau eich prosiect. Rydym yn disgrifio hyn fel canran talu.

Er enghraifft, os yw cyfanswm costau eich prosiect yn £1m a'ch cyfraniadau arian parod yw £250,000, eich grant fydd £750,000 a'ch canran talu fydd 75%.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael treftadaeth, byddwn yn talu swm llawn y grant sydd ei angen ar gyfer y pryniant mewn un taliad.

**Adrodd**

Rydym yn eiddgar i glywed am sut mae eich prosiect yn dod yn ei flaen a'r cyflawniadau rydych wedi'u gwneud gyda'r ariannu. Fel rhan o'ch adroddiadau ffurfiol ar eich grant, mae'n rhaid i chi roi diweddariadau i ni am y prosiect yn ystod oes eich prosiect. Byddwn yn disgwyl diweddariad prosiect bob tri mis fel arfer, ac o leiaf bob tro y byddwch yn gofyn am daliad.

## Os yw eich cais yn aflwyddiannus

Mae’r broses asesu'n gystadleuol ac ni allwn ariannu pob un o’r ceisiadau o ansawdd da a dderbyniwn. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn dweud pam wrthych ac efallai yn awgrymu eich bod yn gwneud cais arall, ond mae'n rhaid i chi siarad â ni am hyn cyn gwneud cais arall.

Expand All accordions

## Caffael adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth

Efallai bod gennych gynlluniau i ddefnyddio ein grant i ariannu caffael adeilad, tir neu eitemau treftadaeth.

Gallwn ariannu prosiectau sy'n ymwneud â phrynu tir ac/neu adeiladau sy'n bwysig i'n treftadaeth ac sydd ar werth am bris y farchnad neu'n is na hynny. Mae'n rhaid mai budd o ran rheoli treftadaeth dros y tymor hir a rhoi mynediad i'r cyhoedd yw'r prif resymau dros eich pryniant arfaethedig.

Ni all unigolion preifat neu sefydliadau er-elw ddefnyddio ein hariannu i gaffael adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth.

Mae’n bwysig bod pryniannau’n gweddu i’n strategaeth a’n hegwyddorion buddsoddi fel ariannwr. Os yw eich prosiect yn ymwneud â phrynu tir neu adeiladau, rhaid i chi eu prynu ar rydd-ddaliad neu â les sydd ag o leiaf 99 mlynedd yn weddill arni.

Byddwn yn helpu i brynu adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth dim ond os byddwch yn dangos y canlynol yn eich cais:

- bydd risgiau i gadwraeth yr adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth wedi'u lleihau os bydd y pryniant yn llwyddiannus
- mae'r pris yn adlewyrchu cyflwr a gwerth yr ased(au) treftadaeth yn gywir
- bydd yr ased(au) treftadaeth yn hygyrch i'r cyhoedd ar ôl eu prynu a bydd y pryniant yn golygu y bydd mwy o bobl yn ymwneud â threftadaeth
- gallwch ddangos bod gennych gynlluniau digonol ar gyfer gofal a chynnal a chadw hirdymor dros gyfnod o 10 mlynedd o leiaf ar ôl cwblhau’r prosiect
- gallwch ddangos bod yr hyn y dymunwch ei brynu'n arwyddocaol i dreftadaeth yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol

Dylai eich cais gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth am hanes ac arwyddocâd yr adeiladau, y tir neu'r eitemau treftadaeth.
- Datganiad ynghylch pam mai chi yw'r sefydliad cywir i fod yn berchennog arno. Dylai hyn gael ei ategu gan yr hyn a ddywedwch yn eich polisïau, megis eich polisi caffaeliadau, rheoli casgliadau neu gasglu.
- Tystiolaeth mai chi fydd y perchennog llawn, neu achos da dros berchnogaeth ar y cyd sydd wedi'i chynllunio'n dda.

- Prawf dogfennol o darddle (tarddiad) yr eitem(au) treftadaeth. Mae enghreifftiau o brawf yn cynnwys dogfennau gwerthu, dogfennau cyfreithiol, dogfennau allforio, datganiad ysgrifenedig gan y perchennog presennol a dogfennau hanes.
- Tystiolaeth mai’r perchnogion presennol yw’r perchnogion (bod ganddynt deitl cyfreithiol) a bod ganddynt yr hawl i werthu ac i drosglwyddo’r teitl i’r perchennog newydd. Yn achos prynu eiddo neu dir, gall hyn gynnwys tystiolaeth o unrhyw gyfamodau cyfreithiol, hawliau (fel pysgota, saethu, mwynau, draenio), tenantiaethau tymor hir neu fyr, hawliau tramwy neu fynediad, neu unrhyw fuddiannau eraill sydd ynghlwm wrth y tir neu'r adeilad.
- Prisiad annibynnol ar sail marchnad agored ar gyfer yr ased(au) treftadaeth y dymunwch eu prynu. Dylai hyn gynnwys rhesymeg y prisiwr sy'n cyd-fynd â'r prisiad, nid datganiad o'r gwerth yn unig. Yn achos caffael tir ac eiddo, rydym yn croesawu prisiadau gan y Prisiwr Dosbarth. Nid oes angen i chi gomisiynu prisiad ar gyfer eitemau sy'n destun gohiriad allforio neu'n rhan o'r Broses Prisio Trysor.
- Tystiolaeth eich bod wedi dilyn arweiniad cyfredol ar hynafiaethau cludadwy, masnachu anghyfreithlon, ac eitemau a chasgliadau a allai fod yn sensitif. Dylech ddarparu datganiad yn amlinellu eich ymchwil i'r cyfreithiau a'r canllawiau perthnasol ar gaffaeliadau moesegol.
- Disgrifiad o sut y byddwch yn rheoli'r adeiladau, y tir neu'r eitemau treftadaeth a'u cadw'n ddiogel, ar yr adeg y byddwch yn eu prynu ac yn y dyfodol.
- Adroddiad cadwraethwr yn nodi a oes gan y dreftadaeth unrhyw anghenion cadwraeth ac, os oes, sut y byddwch yn diwallu'r anghenion hynny. Dylai'r adroddiad gynnwys tystiolaeth bod gan eich sefydliad yr amodau amgylcheddol cywir i gartrefu'r pryniant.

Ni fyddwn yn cefnogi pryniannau y credwn sydd uwchlaw gwerth y farchnad. Bydd prisiad annibynnol o’r eitem(au) y dymunwch eu prynu'n cael ei wneud fel rhan o’r broses asesu. Fel arfer byddwn yn barod i gefnogi pryniant ar ffigwr hyd at 10% uwchlaw brig unrhyw amrediad o brisiad a dderbynnir.

Mae’r costau cymwys sy’n gysylltiedig â phryniant yn cynnwys:

- y pris prynu ei hun
- ffioedd a ysgwyddir gan eich sefydliad fel prynwr gan gynnwys prisiadau, ffioedd asiant a phremiwm y prynwr ar gyfer pryniannau mewn arwerthiant
- TAW na ellir ei hadennill

Cofiwch wneud yn si?r bod y rhain wedi'u hadlewyrchu yn eich tabl costau.

Mae costau anghymwys yn cynnwys:

- ffioedd y gwerthwr (er enghraifft, ffioedd cyfreithiol ac asiant)

Dylech hefyd gynnwys costau holl weithgareddau eraill eich prosiect ar ôl i chi brynu’r adeiladau, y tir neu’r eitemau treftadaeth.

Os ydych eisoes yn rheoli'r ased(au) treftadaeth yr ydych am eu prynu, bydd angen i chi ddangos i ni pa fanteision ychwanegol a ddaw yn sgil y pryniant. Bydd angen i chi ddangos bod yr holl opsiynau ar gyfer gwneud cytundeb rheoli priodol gyda'r perchennog presennol wedi'u harchwilio cyn gwneud cais am grant i brynu.

Byddwn yn ariannu prynu gweithiau celf, archifau, gwrthrychau a chasgliadau eraill sy'n bwysig i'r dreftadaeth ac a grëwyd mwy na 10 mlynedd yn ôl. Byddwn hefyd yn ariannu prynu eitemau mwy diweddar o bwysigrwydd treftadaeth, ond dim ond os ydynt yn rhan o gasgliad mwy, sy'n fwy na 10 mlwydd oed.

Ni fyddwn yn rhoi blaenoriaeth i bryniant dim ond oherwydd gohiriad allforio. Mae gohiriad allforio'n rhoi cyfle i sefydliadau godi'r arian gofynnol i brynu eitem neu gasgliad y bwriedir ei allforio. Mae'r gohiriad allforio'n gohirio'r drwydded allforio am gyfnod penodol er mwyn i gynnig gael ei wneud o'r tu mewn i'r DU. Os ydych yn bwriadu gwneud cais i ni dylech gysylltu â'ch swyddfa leol cyn gynted â phosibl, ac o fewn y cyfnod gohirio cyntaf.

Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth, bydd telerau'r grant yn parhau am gyfnod amhenodol. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am arwystl ar yr eitem(au), y tir neu'r adeiladau. Os, yn y dyfodol, y byddwch am waredu'r hyn yr ydych wedi'i brynu, rhaid i chi ofyn am ein caniatâd a gallwn hawlio ein grant yn ôl. Os yw'r eitem(au) eisoes ar fenthyg i'ch sefydliad, bydd angen i chi ddangos i ni pa fanteision ychwanegol a ddaw yn sgil eu prynu.

Os bydd un sefydliad a ariennir yn gyhoeddus am gaffael eitem dreftadaeth gan sefydliad tebyg, mae'n annhebygol y bydd digon o fudd cyhoeddus i ni ystyried ariannu'r pryniant. Efallai na fydd hyn yn wir, fodd bynnag, os yw'r caffaeliad yn ymwneud yn uniongyrchol ag achub treftadaeth sydd mewn perygl, a gellir cymeradwyo grant os yw'r gwrthrych, y tir, yr adeilad neu'r casgliad mewn perygl o gael ei golli o'r parth cyhoeddus oherwydd methiant sefydliadol y perchennog presennol.

Os oes angen penderfyniad brys arnoch gennym ni, rhaid i chi gysylltu â'ch swyddfa leol i drafod hyn cyn i chi wneud cais. Gallwch ddefnyddio'ch cais neu'ch Mynegiad o Ddiddordeb i nodi'r rhesymau pam fod angen cais llwybr cyflym arnoch. Dim ond os yw'r terfyn amser yn golygu na allwn asesu eich cais o fewn ein hamserlen arferol y byddwn yn ystyried cynnig penderfyniadau llwybr cyflym ar gyfer prynu eitemau neu gasgliadau treftadaeth.

Bydd ein staff yn trafod goblygiadau ein gweithdrefn llwybr cyflym ar gyfer eich cais gyda chi. Os oes gennych gyfnod amser byr i brynu'r eitem(au), gofynnwn i chi roi manylion i ni ynghylch sut y caiff y gwrthrych hwn ei integreiddio i'ch gweithgareddau dysgu a'ch rhaglenni cyhoeddus presennol. Byddwn yn disgwyl i weithgareddau a rhaglenni fod yn briodol ar gyfer y gwrthrych yr ydych yn ei gaffael.

Expand All  accordions

## Grantiau cymunedol

Mae cynlluniau grantiau cymunedol a thrydydd parti'n gronfeydd ariannol y gallwch eu defnyddio i ariannu grwpiau neu sefydliadau eraill i gyflwyno prosiectau bach i'ch helpu cyflawni eich nodau treftadaeth trosgynnol. Gallant eich helpu i wella ymgysylltu ac ehangu effaith eich prosiect.

Gellir defnyddio grantiau cymunedol i ariannu gweithgareddau neu waith cyfalaf ar asedau treftadaeth. Gellir eu dyfarnu i grwpiau cymunedol nid-er-elw neu berchnogion preifat treftadaeth i ymgymryd â gwaith cyfalaf er mwyn gwarchod y dreftadaeth honno. Ni ellir rhoi grantiau cymunedol

i gaffael tir, adeiladau neu eitemau treftadaeth.

Os mai chi yw'r ymgeisydd arweiniol, chi fydd yn rheoli'r broses grantiau cymunedol a'r gronfa ariannu. Chi fydd yn gyfrifol am:

- wahodd ac asesu ceisiadau drwy broses deg, agored a thryloyw
- sefydlu panel i wneud penderfyniadau i ddyfarnu neu wrthod grantiau
- adolygu'r cynnydd a wnaed ar y prosiect i sicrhau ei fod yn foddhaol
- gwneud taliadau grant
- monitro cydymffurfiaeth â thelerau'r grant cymunedol, datrys unrhyw broblemau ac ad-dalu'r grant os oes angen

Yn eich cais dylech esbonio beth yw nodau eich cynllun grantiau cymunedol, sut mae'n cyfrannu at y prosiect ehangach a sut y caiff ei reoli.

Argymhellwn na ddylai’r gronfa grantiau cymunedol fod yn fwy na £200,000. Dylid cyfyngu grantiau unigol i £10,000 ar gyfer gweithgareddau a £25,000 ar gyfer gwaith cyfalaf. Os oes angen cronfa grantiau cymunedol fwy ar eich prosiect neu os bydd angen gwneud dyfarniadau mwy ar gyfer cadwraeth adeiladau hanesyddol, bydd angen i chi gyfiawnhau hyn yn eich cais.

Bydd angen i chi ffurfioli'r dyfarniad grant mewn cytundeb trydydd parti rhyngoch chi a derbynnydd y grant cymunedol sy'n diffinio'r gweithgareddau i'w cyflwyno ac yn nodi telerau'r grant. Mae’n rhaid i dderbynyddion grantiau cymunedol ymrwymo i’n telerau grant safonol, gan gyfeirio’n benodol at y canlynol (lle bo’n berthnasol):

- Dyddiad Dod i Ben Cyffredinol y Grant
- Cydnabyddiaeth o Ariannu gan y Loteri Genedlaethol
- hawlio'n ôl
- monitro'r prosiect
- grant heb ei wario
- caffael
- gofynion digidol
- tir neu adeiladau sy'n eiddo i drydydd parti

Bydd angen i chi adlewyrchu'r meysydd hyn yn eich cytundebau gyda derbynyddion y grantiau cymunedol, gan mai chi fydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn deall telerau'r grant ac yn cytuno iddynt.

Rhaid i gytundebau â thirfeddianwyr trydydd parti, gan gynnwys perchnogion preifat, sicrhau bod gwaith cyfalaf yn cael ei reoli a'i gynnal a chadw o ddechrau'r gwaith ar y prosiect tan 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Gallwch gynnwys costau rheoli'r cynllun grant, gan gynnwys costau addasu a sefydlu unrhyw gytundebau trydydd parti a cheisio cyngor cyfreithiol, fel rhan o’r costau, yn eich cais.

Bydd angen i chi ddatblygu proses ymgeisio deg a thryloyw gyda chanllawiau clir. Rhaid i chi gyflwyno'ch cais a'ch proses fonitro i ni i'w cymeradwyo cyn lansio'r cynllun grantiau cymunedol.

Dylai fod gennych feini prawf clir ar gyfer ceisiadau a sicrhau bod y meini prawf hyn ar gael yn gyhoeddus ynghyd â rhestr o'ch dyfarniadau.

Rhaid i chi ymgymryd â diwydrwydd dyladwy cyn dyfarnu grantiau cymunedol. Fel lleiafswm, bydd angen i chi ofyn am y canlynol gan ymgeisydd:

- dogfen lywodraethu'r sefydliad (oni bai ei fod yn sefydliad sector cyhoeddus neu'n berchennog preifat treftadaeth)
- prawf o berchnogaeth os yw'r prosiect yn cynnwys gwaith ar dir, adeiladau neu eitemau treftadaeth (er enghraifft, gweithredoedd, lesau neu unrhyw wybodaeth yn ymwneud â morgeisi)
- copi o gyfrifon diweddar neu gyfriflenni banc y tri mis diwethaf

Rhaid i benderfyniadau i ddyfarnu neu wrthod ceisiadau gael eu gwneud gan banel grantiau. Ni ddylai pob aelod o'r panel ddod o'r un sefydliad, ac ni ddylai gynnwys sefydliadau neu unigolion a fydd o bosibl yn dymuno gwneud cais am grantiau o'r gronfa gymunedol. Gwrthdaro buddiannau yw hwn.

Bydd angen i chi sicrhau bod derbynyddion grantiau cymunedol wedi cydymffurfio â thelerau'ch cynllun grant cymunedol a bod y grant wedi'i ddefnyddio'n briodol. I wneud hyn bydd angen i chi gywain tystiolaeth gan dderbynnydd y grant cymunedol. Dylai lefel y manylder y gofynnwch amdano fod yn gymesur â swm y grant.

Bydd angen i chi ddatrys unrhyw broblemau gyda derbynnydd y grant cymunedol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer ad-dalu'r grant neu ei hawlio'n ôl.

Bydd gennych gyfrifoldeb cyffredinol dros adrodd i ni ar gynnydd y grantiau cymunedol a bydd angen i chi gynhyrchu adroddiad gwerthuso ar ddiwedd eich prosiect. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dyrannu cyllideb ddigonol i ymgymryd â'r gwaith gwerthuso hwn.

Expand All accordions

# Gofynion cyfreithiol a pholisi

## Perchnogaeth

Disgwyliwn i chi fod yn berchennog ar unrhyw eiddo (tir, adeiladau, eitemau treftadaeth neu eiddo deallusol) yr ydych yn gwario'r Grant arno neu feddu ar les sy'n bodloni ein gofynion.

Rhaid i chi fod yn berchennog ar y rhydd-ddaliad neu feddu ar les gydag o leiaf 20 mlynedd yn weddill arni ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect ar gyfer eich cam cyflwyno.

Dyddiad Cwblhau'r Prosiect yw'r dyddiad pan fyddwn yn eich hysbysu y rhoddwyd cofnod wedi'i gwblhau i'r Prosiect.

Rhaid i bob les fodloni'r gofynion canlynol:

- nid ydym yn derbyn lesau sydd â chymalau torri (mae’r rhain yn rhoi’r hawl i un neu fwy o bartïon y les ddod â’r les i ben o dan rai amgylchiadau)
- nid ydym yn derbyn lesau sydd â fforffediad ar gymalau ansolfedd (mae’r rhain yn rhoi’r hawl i’r landlord ddod â'r les i ben os bydd y tenant yn mynd yn fethdalwr)
- mae'n bosibl y bydd modd i chi werthu, is-osod neu forgeisio'r cyfan neu ran o’ch les, ond os byddwn yn dyfarnu grant i chi, rhaid i chi gael caniatâd gennym yn gyntaf i wneud unrhyw un o’r rhain

Os mai tir neu adeilad treftadaeth sy'n eiddo i drydydd parti neu drydydd partïon lluosog yw testun eich prosiect, byddwn fel arfer yn disgwyl i'r perchennog gael ei wneud yn grantï ar y cyd. Mewn rhai sefyllfaoedd, yn hytrach na gwneud y perchennog yn grantï ar y cyd, efallai y byddwn yn gofyn iddynt lofnodi llythyr ychwanegol yn cytuno i gydymffurfio ag unrhyw delerau grant sy’n ymwneud â’u heiddo.

Yn yr achos hwn, dylid rhoi cytundeb cyfreithiol ar waith hefyd rhwng pob perchennog tir neu adeilad a'r grantï. Nid oes ffurf ragnodedig ar gytundeb, ond mae gennym ofynion penodol y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gytundeb perchennog trydydd parti.

Fel lleiafswm, dylai’r cytundebau gynnwys y canlynol:

- cadarnhad ynghylch sut mae’r tir wedi'i ddal (rhydd-ddaliad neu ar brydles)
- disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau)
- cyfamodau ar ran y perchennog i gynnal a chadw’r eiddo a darparu mynediad cyhoeddus yn unol â thelerau’r grant (fel y bo’n berthnasol)
- darpariaeth y dylai unrhyw warediad ymlaen fod yn ddarostyngedig i'r cytundeb trydydd parti
- cadarnhad y bydd y cytundeb yn para o ddechrau’r gwaith ar dir y trydydd parti tan 10 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau’r Prosiect ar gyfer eich cam cyflwyno

Bydd angen cwblhau'r cytundebau a'u rhoi ar waith cyn rhyddhau unrhyw arian grant ar gyfer gwaith ar unrhyw dir neu adeilad sy'n eiddo i drydydd parti.

## Cymryd sicrwydd am y grant

Os ydych yn gorff nad yw’n gorff cyhoeddus, mae eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf ac mae eich grant dros £250,000, **ein polisi yw cymryd arwystl dros yr eiddo a ariennir gan grant.**

Os ydych yn gorff cyhoeddus megis awdurdod lleol neu brifysgol rydym yn gofyn am gyfyngiad ar eich teitl gyda'r Gofrestrfa Tir er mwyn sicrhau eich bod yn ceisio caniatâd gennym cyn ymgymryd ag unrhyw drafodion yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r eiddo a ariennir gan y grant.

Os yw unrhyw ran o'r uchod yn berthnasol i'ch prosiect, bydd angen i chi anfon manylion cyswllt eich cyfreithiwr atom cyn gynted â phosibl os dyfernir grant cam cyflwyno i chi.

Bydd angen i’ch cyfreithiwr ddarparu copïau swyddogol o’r gofrestr teitl gyfredol gyda chynllun neu’r wybodaeth angenrheidiol i’n galluogi i ddrafftio’r dogfennaeth arwystl. Bydd hyn yn cynnwys ymrwymiad gan eich cyfreithiwr i weithredu ar ein rhan i gyflawni'r holl chwiliadau cyn-gwblhau perthnasol ac i gofrestru’r arwystl yn y Gofrestrfa Tir ac yn Nh?’r Cwmnïau (os yn briodol).

Byddwch yn gyfrifol am ffioedd a chostau eich cyfreithiwr, ond gallwch gynnwys cost cyngor cyfreithiol fel rhan o gostau'r prosiect yn eich cais.

## Benthyca neu roi benthyg eitemau treftadaeth

Os ydych yn benthyca eitem neu gasgliad fel rhan o'r prosiect, er enghraifft, ar gyfer arddangosfa, a gofynnir i chi gyfrannu at gostau cadwraeth, mae'n bosibl y byddwn yn derbyn y gost hon os yw'n ffurfio rhan fach o'ch prosiect.

Efallai y bydd angen i berchnogion yr eitem neu gasgliad gael eu cynnwys yn eich cytundeb partneriaeth, neu ymrwymo i delerau'r grant os dyfernir grant. Gofynnir i chi gynnwys hyn yn eich Mynegiad o Ddiddordeb os credwch y bydd yn berthnasol i'ch prosiect.

Os ydych yn cynllunio prosiect adeiladu cyfalaf at ddiben storio neu arddangos casgliad nad ydych yn berchen arno, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog y casgliad gytuno i delerau'r grant (ac unrhyw amodau ychwanegol a nodir yng nghontract y grant) os dyfernir grant. Gofynnir i chi gynnwys hyn yn eich Mynegiad o Ddiddordeb os credwch y bydd yn berthnasol i'ch prosiect.

## Gwaith cyfalaf

Gallwn ariannu gwaith cyfalaf fel rhan o'ch prosiect. Diffinnir gwaith cyfalaf fel gwaith sy'n creu neu'n gwella ased.

Er enghraifft, byddai cadwraeth rhostir, atgyweiriadau i gofeb a digideiddio archif ffotograffig i gyd yn cael ei ystyried yn waith cyfalaf. Gall gwaith cloddio archeolegol a mathau eraill o weithgarwch archeolegol gynnwys gwaith cyfalaf.

Os yw prosiectau'n ymwneud ag adeiladwaith, rydym yn annog adfer, gwarchod ac ailddefnyddio, yn hytrach nag adeiladu o'r newydd. Os oes angen gwaith adeiladu o'r newydd (er enghraifft i wneud safleoedd yn gynhwysol, yn hygyrch neu'n ariannol hyfyw), esboniwch pam fel rhan o'ch cais. Dylid cyflwyno pob agwedd ar adeiladu o'r newydd mewn prosiect at y safonau amgylcheddol uchaf.

Dylai eich gwaith cyfalaf cynlluniedig adlewyrchu'r Cam Gwaith RIBA priodol ar gyfer y cais rydych chi'n ei wneud. Ar gyfer cais cam datblygu, dylid datblygu gwaith cyfalaf cynlluniedig hyd at, a chan gynnwys Cam Gwaith 1 RIBA. Ar adeg eich adolygiad datblygu, rhaid bod Cam Gwaith 2 RIBA wedi'i gwblhau a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at Gam Gwaith 3 RIBA. Ar gyfer cais cam cyflwyno, dylid datblygu gwaith cyfalaf hyd at a chan gynnwys Cam Gwaith 3 RIBA o leiaf.

Mae Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain yn darparu mwy o wybodaeth ar Gamau Gwaith RIBA.

Os yw'n berthnasol i'ch prosiect, efallai y byddwn yn gofyn i chi gyflwyno arolwg cyflwr, a thystiolaeth bellach yn dangos bod y gwaith yr ydych yn bwriadu ei wneud yn dilyn arfer da.

Dylech gynnwys costau priodol i dalu am chwyddiant gwaith cyfalaf a ragfynegir a swm wrth gefn priodol i ymdrin â'r risgiau sydd ynghlwm wrth waith cyfalaf mewn prosiect treftadaeth.

Ar gyfer prosiectau tirwedd a natur cyfalaf byddwn yn blaenoriaethu'r rhai sy'n canolbwyntio ar un neu fwy o'r themâu canlynol; cefnogi adferiad byd natur, darparu atebion seiliedig ar fyd natur i newid yn yr hinsawdd a/neu helpu pobl i ailgysylltu â byd natur.

## Prosiectau sy'n ymwneud â thir, cynefinoedd a rhywogaethau

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chadwraeth cynefin neu rywogaeth â blaenoriaeth, rhaid i'ch prosiect helpu cyrraedd targedau cynefinoedd a rhywogaethau UKBAP, cyfrannu at reolaeth gynaliadwy hirdymor yr ardal dan sylw a dangos ymagwedd strategol at warchod cynefin neu rywogaeth â blaenoriaeth.

Er y gall fod rhywfaint o fynediad cyhoeddus i'r tir sy'n rhan o'r prosiect, megis llwybrau neu guddfannau, rydym yn cydnabod efallai na fydd mynediad ffisegol bob amser yn briodol nac yn ddymunol am resymau cadwraeth cynefinoedd.

Lle bo'n briodol, ar ôl eu cwblhau, gofynnir i brosiectau wneud cais am Wobr y Faner Werdd a chyflawni hynny am saith mlynedd yn barhaus.

Er y caniateir arwynebau chwarae diogelwch arbenigol ac arwynebau chwaraeon proffesiynol fel rhan o gynlluniau prosiect, ni fyddwn yn cefnogi prosiectau tirwedd sy'n cynnwys gosod glaswellt neu blanhigion artiffisial, neu ddefnyddio mawn at ddibenion garddwriaethol neu dirwedd.

Os yn berthnasol, dylai stoc plannu ddod o ffynonellau bioddiogel megis planhigfeydd ag ardystiad 'Plant Healthy'.

Rhaid i unrhyw waith arsylwi rhywogaethau gydymffurfio â'r safonau ar gyfer ansawdd a hygyrchedd data a nodir gan y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (NBN) ar Atlas yr NBN. Rhaid i'r gwaith arsylwi hwn fod ar gael i'r cyhoedd ar drwydded agored ac ar fanylder y recordio, yn amodol ar gyfyngiadau rhywogaethau sensitif. Os nad ydych yn si?r am ffordd orau o fwrw 'mlaen, cysylltwch â'r NBN yn uniongyrchol i drafod y llwybr cyflenwi data mwyaf priodol.

Mae angen cyflwyno achos amgylcheddol cadarn ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag ailgyflwyno rhywogaethau i'r DU, a bydd angen i asiantaeth cadwraeth natur y wlad berthnasol gefnogi hyn. Bydd angen i'r prosiect gwrdd â'r canllawiau a sefydlwyd gan Gr?p  Arbenigol Ailgyflwyno IUCN/SSC.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein harweiniad natur a thirweddau.

## Yswirio gwaith ac eiddo

Rhaid i chi, a'ch contractwyr, drefnu yswiriant priodol ar gyfer unrhyw eiddo, gwaith, deunyddiau a nwyddau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect. Rhaid yswirio pob un o'r rhain am eu gwerth adfer llawn yn erbyn colled neu ddifrod, gan gynnwys chwyddiant a ffioedd proffesiynol.

Os bydd tân, mellt, stormydd neu lifogydd yn effeithio ar eich prosiect i'r graddau na allwch gwblhau'r prosiect fel y manylir yn eich cais, mae'n bosibl y byddwn yn ystyried hawlio ein grant yn ôl.

## Gwaith digidol

Mae gennym ofynion penodol ar gyfer gwaith digidol a gynhyrchir fel rhan o unrhyw brosiect.

Mae hyn yn ymdrin ag unrhyw beth yn eich prosiect rydych yn ei greu mewn fformat digidol sydd wedi'u dylunio i roi mynediad i dreftadaeth a/neu helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani.

Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ffotograffau, testun, meddalwedd, cynnwys gwe ac apiau, cronfeydd data, modelau 3D, recordiadau sain a fideo. Nid yw eitemau a grëir wrth reoli'r prosiect, er enghraifft e-byst rhwng aelodau tîm a chofnodion cyfarfodydd, wedi'u cynnwys yn y gofyniad.

Gofynnwn i chi rannu eich allbynnau digidol o dan drwydded agored. Ein trwydded agored ddiofyn yw CC-BY 4.0. Mae hyn yn helpu dileu rhwystrau i ddefnyddio ac ailddefnyddio gwaith a ariennir, gan alluogi gwell ymgysylltiad â threftadaeth y DU. Mae hefyd yn helpu sicrhau bod eraill yn rhoi credyd priodol i'ch gwaith.

Mae ein rheoliadau ynghylch gwaith digidol yn amrywio gan ddibynnu ar faint y grant. Gallwch ddarllen arweiniad pellach ar gynhyrchu deunyddiau digidol fel rhan o brosiect.

## Caffael

Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau caffael. Fel trosolwg, dylai prosiectau ag unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau unigol sy’n werth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW), geisio o leiaf dri thendr/dyfynbris cystadleuol. Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol.

Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau yr ydych wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad ar ba un i'w dderbyn. Rhaid i chi roi rhesymau llawn os na fyddwch yn dewis y tendr isaf. Gan ddibynnu ar natur eich sefydliad a’ch prosiect, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi gydymffurfio â Deddfwriaeth Caffael y DU.

Os yw partner yn y prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau y telir amdanynt drwy'r grant, mae angen i chi ddweud wrthym pam y cawsant eu dewis a pham nad yw proses dendro agored yn briodol. Byddwn yn ystyried ai dyma’r ffordd orau o gyflawni eich prosiect ac yn disgwyl i chi ddangos gwerth am arian a bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol.

Os ydych yn ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i geisio cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Os ydych eisoes wedi caffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau gwerth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW) ar gyfer eich prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch chi hynny. Ni allwn dalu eich grant os nad ydych wedi dilyn y drefn gywir.

## Recriwtio staff

Mae'n rhaid hefyd i chi hysbysebu'n agored yr holl swyddi staff ar gyfer y prosiect, gyda'r eithriadau a ganlyn:

- Mae gennych aelod staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres yr ydych yn ei symud i swydd ar y prosiect.
- Rydych yn ymestyn oriau aelod staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres, fel y gall weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost yr oriau ychwanegol sy'n cael eu treulio ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym beth yw eu rôl.

Yn yr achosion hyn, mae angen o hyd i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer y swydd sy'n esbonio'r gwaith y bydd yr aelod staff a benodir yn ei wneud yng nghyd-destun eich prosiect.

Rydym wedi'n hymrwymo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Fel lleiafswm mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gyfradd Cyflog Byw (a Chyflog Byw Llundain lle bo'n berthnasol) ar gyfer holl staff y prosiect. Gofynnir i chi ddangos tystiolaeth o gyllidebu ar gyfer y cyfraddau Cyflog Byw fel lleiafswm yn eich costau staff a'ch cyllidebau.

Rhaid i weithdrefnau recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a glynu wrth y ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol.

## Rheoli cymhorthdal

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae’n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus a'i fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Gofynnwn i chi ymgyfarwyddo â'r gofynion allweddol.

Ceir cymhorthdal pan fydd awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth ariannol o arian cyhoeddus sy’n rhoi mantais economaidd i’r derbynnydd, lle y gellir ystyried bod y derbynnydd hwnnw'n ymwneud â gweithgareddau economaidd. Bydd y rhan fwyaf o’n grantiau naill ai heb fod yn gymhorthdal neu’n gallu symud ymlaen fel cymhorthdal cyfreithlon sy’n bodloni gofynion Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Fel corff cyhoeddus, ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu’n derfynol a yw eich grant yn gymhorthdal a/neu gymhwyso eithriadau perthnasol fel y bo angen ac mae ein hasesiad rheoli cymhorthdal yn rhan bwysig o’r broses ymgeisio. Wrth baratoi eich cais dylech ystyried a yw unrhyw eithriad rheoli cymhorthdal penodol yn ofynnol ar gyfer eich prosiect. Byddwn yn disgwyl i'ch grant gydymffurfio ag egwyddorion y gyfundrefn rheoli cymhorthdal gan gynnwys y Ddeddf a'r Arweiniad Statudol a gyhoeddwyd. Os ydych yn ansicr a fydd eich prosiect yn bodloni'r gofynion perthnasol dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rydym yn cadw'r hawl i bennu gofynion pellach a cheisio gwybodaeth bellach yn hyn o beth a byddwn yn disgwyl i chi ddarparu unrhyw gymorth y gallwn fod ei angen yn rhesymol i gwblhau asesiad rheoli cymhorthdal.

## Embargos a sancsiynau llywodraeth y DU

Rhaid i'n grantiau beidio â chael eu defnyddio i ariannu sefydliadau sy’n cefnogi eithafiaeth, gweithgarwch troseddol ac/neu sy’n destun embargos a sancsiynau llywodraeth y DU.

Rhaid i chi ddilyn yr holl ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i'ch prosiect a chyflawni eich diwydrwydd dyladwy eich hun ar unrhyw gronfeydd, contractau neu unigolion sy'n gysylltiedig â

lleoedd a allai fod yn ddarostyngedig i embargos a sancsiynau.

Os yw eich prosiect wedi'i effeithio, cysylltwch â'ch Rheolwr Buddsoddi neu eich swyddfa leol. Rydym yn cadw'r hawl i atal taliadau grant os ystyriwn fod arian cyhoeddus mewn perygl.

Expand All accordions

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych gwestiwn am ein hariannu, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Os oes angen cymorth pellach arnoch gyda'ch cais, gallwch gael gwybod mwy am y mathau o gymorth a chefnogaeth y gallwn eu darparu.

Os hoffech ddod o hyd i wybodaeth am ein proses gwynion, ewch i'n Tudalen Gwasanaeth Cwsmeriaid.

Expand All accordions

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Mynegiad o Ddiddordeb: £250,000 i £10miliwn

30/01/2024
30/01/2024
See all updates
Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant o fwy na £250,000 gwblhau ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 30 Ionawr 2024.

Mae hyn oherwydd i ni gydnabod faint o waith sy'n cael ei wneud i wneud cais am ariannu ac wrth gynllunio prosiect. Mae'r cam MoDd yn ein helpu i hidlo unrhyw brosiectau sy'n annhebygol o gael eu hariannu, gan arbed amser y byddech chi efallai'n ei dreulio'n gweithio ar gais llawn yn ddiangen.

Mae cyfrif geiriau'r MoDd yn fwriadol fyr (uchafswm o 1,000 o eiriau) er mwyn lleihau amser ac ymdrech i chi wrth gwblhau'r cam hwn.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais cam datblygu ai beidio. Os ydych yn llwyddiannus, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn 12 mis o dderbyn y gwahoddiad. Os yw eich MoDd yn aflwyddiannus, allwch chi ddim gyflwyno cais am brosiect. Bydd angen i chi gyflwyno MoDd newydd yn gyntaf. Mae'n rhaid i chi aros tri mis cyn gwneud hyn.

## Cyn cyflwyno

Cofiwch sicrhau eich bod wedi darllen:

- yr hyn yr ydym yn ei ariannu
- pedair egwyddor buddsoddi  y disgwyliwn i brosiectau treftadaeth eu cymryd i ystyriaeth
- mae gwybodaeth lawn am yr hyn yr ydym yn ei ariannu ar gael yn arweiniad ymgeisio Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: £250,000 i £10miliwn.

## Rhesymau cyffredin pam bod MoDd yn aflwyddiannus

Nid yw MoDd bob amser yn llwyddiannus. Dyma rai rhesymau cyffredin:

- methu â chymryd pob un o'r pedair egwyddor fuddsoddi i ystyriaeth
- ailadrodd ein rhestr o egwyddorion buddsoddi yn hytrach na dweud wrthym sut y bydd eich prosiect yn ymateb iddynt
- dweud wrthym am waith cyfalaf yn unig
- methu ag esbonio'r angen/galw am y prosiect na'r gefnogaeth ehangach drosto

## Cwestiynau'r ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb

Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant o fwy na £250,000 gwblhau ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb (MoDd).

Gallwch weld y cwestiynau yn y ffurflen MoDd isod.

### Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth am eich syniad?

Os felly, dywedwch wrthym eu henw.

### Disgrifiwch yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect.

Dylech gynnwys unrhyw dasgau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gyflawni nod y prosiect. Mae gennych 200 o eiriau.

### Oes gennych chi deitl ar gyfer y prosiect?

Gellir newid hyn ar unrhyw adeg. Peidiwch â phoeni os nad oes gan y prosiect deitl eto, gallwch adael hyn yn wag.

### Amlinellwch sut y bydd eich prosiect yn ymateb i'n pedair egwyddor fuddsoddi.

Yr ymgeisydd fydd yn dangos cryfder y ffocws, a'r pwyslais ar bob egwyddor. Mae gennych 300 o eiriau.

### Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect.

Cofiwch gynnwys i bwy mae'n bwysig a pham. Mae gennych 100 o eiriau.

### Beth yw'r angen am y prosiect hwn?

Pa waith yr ydych wedi'i wneud sy'n dangos manteision posib y prosiect? Mae gennych 200 o eiriau.

### Pa mor hir ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?

Dywedwch wrthym ddyddiad dechrau a gorffen amcangyfrifedig os oes gennych nhw. Mae gennych 50 gair.

### Faint mae'r prosiect yn debygol o gostio?

Os ydych yn gwybod, dywedwch wrthym am y costau pwysicaf. Gellir amcangyfrif y costau hyn. Mae gennych 200 o eiriau.

### Faint o ariannu ydych chi’n bwriadu gwneud cais amdano gennym ni?

Cyflwynwch swm.

### Pryd ydych chi'n debygol o gyflwyno cais am ariannu, os gofynnir i chi wneud hynny?

Mae gennych 50 gair.

## Sut i gyflwyno

Pan fyddwch chi'n barod, cwblhewch y MoDd ar ein gwasanaeth Cael eich ariannu ar gyfer prosiect treftadaeth.

Bydd angen i chi gofrestru cyfrif i chi'ch hun ac i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais amdano.

Nid oes dyddiad cau ar gyfer cyflwyno EOI.

## Clywed yn ôl gennym ni

Anelwn at ymateb i'ch MoDd o fewn **20 diwrnod gwaith**.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy e-bost a ydych wedi llwyddo i gael eich gwahodd i gyflwyno cais cam datblygu.

Os nad ydym yn eich gwahodd i wneud cais nawr, byddwn yn rhoi adborth i chi.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydyn ni'n cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn ni'n cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosib trwy'r dudalen we hon.

# Cwestiynau ymgeisio: £250,000 i £10miliwn

30/01/2024
30/01/2024
See all updates
Cwestiynau ein ffurflen gais Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £250,000 i £10m.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 19 Awst 2024. Gweld pob diweddariad.

Cyn y gallwch wneud cais am grant dros £250,000, rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb i ddweud wrthym am eich syniad. Os ydych yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais. Ar ôl i chi gael eich gwahodd i wneud cais, bydd gennych 12 mis i gyflwyno cais.

Defnyddiwch y dudalen hon:

- i weld pa gwestiynau sy'n ymddangos yn y cais ar gyfer y camau datblygu a chyflwyno
- am arweiniad ar y ffordd orau o ateb cwestiynau'r cais

Mae terfyn geiriau i bob cwestiwn; fodd bynnag, nid oes angen i chi gyrraedd hwn. Dim ond yr wybodaeth y gofynnwn amdani sy'n berthnasol i'ch prosiect y mae angen i chi ei chynnwys.

## Cwestiynau ymgeisio'r cam datblygu

### Ynghylch y prosiect

**Enw eich sefydliad.**

[Ni ellir newid hyn]

**Rhif cyfeirnod y prosiect.**

Mae prosiectau sy'n pasio'r Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus ac yn cael eu gwahodd i wneud cais yn derbyn rhif cyfeirnod prosiect.

[Ni ellir newid hyn]

**Teitl y prosiect.**

Rhowch deitl neu enw i ni allu cyfeirio at eich prosiect.

Bydd hwn yn cael ei weld gan y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw bostiadau cyhoeddus a wneir am eich prosiect a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Gwnewch yn si?r eich bod chi'n dewis teitl rydych chi'n hapus i amrywiaeth eang o bobl ei weld.

[Maes testun - 225 nod]

**Ai dyma gais cyntaf eich sefydliad i'r Gronfa Treftadaeth?**

[Dewiswch ydy neu nac ydy]

Os ydy: Dywedwch wrthym beth yw rhif cyfeirnod eich cais diweddaraf.

[Maes testun - 225 nod]

**Dywedwch wrthym beth yw teitl prosiect eich cais diweddaraf.**

[Maes testun - 225 nod]

**Disgrifiwch yr hyn yr hoffai eich sefydliad ei gyflawni drwy eich prosiect.**

Byddwn yn defnyddio eich ateb i hysbysu pobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect.

Rydym yn cyhoeddi manylion ceisiadau a dyfarniadau grant ar ein gwefan ac mewn cronfeydd data cyhoeddus. Mae hyn yn gweddu i'n hymrwymiad i dryloywder ac egwyddorion data agored. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu wrth ateb y cwestiwn hwn i ddisgrifio'ch prosiect.

Dywedwch wrthym beth rydych yn gobeithio ei gyflawni a'r hyn yr ydych yn gobeithio fydd etifeddiaeth eich prosiect.

[Maes testun – 150 gair]

**Dywedwch wrthym beth fyddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.**

Rhowch drosolwg manwl o'r hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Er enghraifft, disgrifiwch unrhyw:

- weithgareddau y byddwch yn eu gwneud
- digwyddiadau y byddwch yn eu cynnal
- eitemau neu adnoddau y byddwch yn eu creu
- eitemau neu adeiladau treftadaeth y byddwch yn eu hadfer
- tirweddau y byddwch yn eu gwella

Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth yw diben eich prosiect.
[Maes testun - 5,000 nod]

**Ble fydd eich prosiect yn digwydd?**

- Stryd y prosiect [Maes testun - 225 nod]
- Dinas y prosiect [Maes testun - 225 nod]
- Sir y prosiect [Maes testun - 225 nod]
- Cod post y prosiect [Maes testun - 100 nod]

**Ar gyfer prosiectau tirwedd, rhowch gyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans ar gyfer eich tirwedd.**

[Rhowch y cyfeirnod]

**Esboniwch ba anghenion a chyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw.**

Dywedwch wrthym am unrhyw broblemau a chyfleoedd sy'n bodoli o ran:

- sut y rheolir eich treftadaeth ar hyn o bryd a'i chyflwr
- pobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth ar hyn o bryd

Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â'r ddwy broblem a chyfle uchod, a sut mae'ch prosiect yn gweddu i unrhyw strategaethau lleol neu fentrau ehangach. Dywedwch wrthym am unrhyw arfarniadau dichonoldeb ac opsiynau a wnaed a pham mai eich prosiect chi yw'r ffordd orau a mwyaf ymarferol ymlaen. Os bydd eich prosiect yn gwella ardal o dirwedd neu dreflun, dywedwch wrthym am gyflwr presennol yr ardal.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pam mae angen i'ch prosiect ddigwydd nawr?**

Dywedwch wrthym:

- a yw'r risg i'ch treftadaeth yn un enbydus
- am unrhyw ariannu partneriaeth sydd ar gael i chi nawr na fydd ar gael yn y dyfodol
- beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn derbyn grant gennym ni

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pwy arall ydych chi wedi cysylltu â nhw ynghylch ariannu eich prosiect?**

Ar y lefel grant hon mae'n rhaid i chi gyfrannu at gostau eich prosiect, gan ddibynnu ar faint o grant yr ydych yn gwneud cais amdano.

Dywedwch wrthym am unrhyw ariannu:

- rydych wedi'i sicrhau i helpu tuag at gost eich prosiect
- rydych yn bwriadu gwneud cais amdano i gefnogi'r prosiect hwn
- y byddwch yn ei godi drwy godi arian neu gyfraniadau torfol

Os ydych yn darparu'r lleiafswm sydd ei angen, neu os na allwch ddarparu unrhyw arian partneriaeth, esboniwch pam.

Dywedwch wrthym a ydych wedi codi unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i'ch helpu i gyflwyno eich prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dywedwch wrthym ba gyngor rydych wedi'i dderbyn wrth gynllunio eich prosiect a chan bwy.**

Os ydych wedi siarad ag unrhyw un yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am eich prosiect, dywedwch wrthym am y cyngor a gawsoch a sut rydych wedi defnyddio'r cyngor hwnnw i ddatblygu eich prosiect.

Dywedwch wrthym a ydych wedi derbyn unrhyw gyngor arbenigol am eich prosiect gan unrhyw un arall. Gallai hyn fod yn arbenigwyr ar y dreftadaeth y mae eich prosiect yn canolbwyntio arni neu sefydliadau eraill a fydd yn eich cefnogi i gyflwyno eich prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw ymgynghoriad rydych wedi'i wneud gyda'ch cymuned leol a'r rhai a fydd yn ymwneud â'ch prosiect
- unrhyw gyngor ar gynnig y prosiect, megis gan bensaer neu gadwraethwr
- unrhyw gyngor cyn-ymgeisio ar faterion cynllunio a/neu ganiatâd adeilad rhestredig, er enghraifft gan eich awdurdod lleol neu archeolegydd
- cyngor ar sut i ymdrin â lles y cyfranogwyr yn eich prosiect, er enghraifft gan elusen neu gr?p lleol a all ddarparu cymorth sy'n berthnasol i'w profiad o lygad y ffynnon

[Maes testun - 5,000 nod]

**A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?**

Dywedwch wrthym pwy yw eich partneriaid, natur eich partneriaethau a sut y byddwch yn gweithio ar y cyd.

Hoffem weld eich cytundeb partneriaeth os ydych yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni eich prosiect. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid a dylai pob parti ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol.

Does dim angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod unrhyw sefydliadau eraill yn cyflwyno rhan sylweddol o'ch prosiect.

Ticiwch os bydd.

[Blwch ticio]

**Pwy yw eich partneriaid? Rhowch enw cyswllt o bob sefydliad.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**A fydd unrhyw ran o'ch prosiect yn digwydd yng Nghymru?**

- Na fydd, nid yw unrhyw ran o'n prosiect yn digwydd yng Nghymru [Blwch ticio]
- Bydd, mae ein prosiect cyfan neu ran ohono'n digwydd yng Nghymru [Blwch ticio]

Os bydd: Dywedwch wrthym sut y caiff y Gymraeg ei defnyddio yn eich prosiect.

Os bydd eich prosiect yn digwydd yng Nghymru, mae'n rhaid i chi ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn defnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect, a chofiwch sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn yr adran costau prosiect.

[Maes testun - 500 gair]

## Ynghylch y dreftadaeth

**Dywedwch wrthym am y dreftadaeth yn eich prosiect a pham mae'n bwysig i'ch sefydliad a'ch cymuned.**

Rhowch ddisgrifiad o'r dreftadaeth fel y mae heddiw. Os yw'n ymwneud â gwahanol fathau o dreftadaeth, disgrifiwch bob un o'r rhain.

Rhowch wybodaeth ffeithiol am y dreftadaeth. Er enghraifft:

- Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth nad yw'n ffisegol (fel atgofion neu draddodiadau diwylliannol), dywedwch wrthym am y pwnc a'r cyfnod amser, os yn berthnasol.
- Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth ffisegol (fel adeilad, llong, gwrthrych, casgliad hanesyddol neu warchodfa natur), rhowch wybodaeth ffeithiol i ni amdani, megis ei maint, ei oedran, y nodweddion sydd wedi goroesi, ei chyflwr a pham y mae’n bwysig i’ch ardal leol.

Dywedwch wrthym:

- a oes unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol o’r dreftadaeth hon, er enghraifft, efallai ei fod yn adeilad rhestredig (os ydy, dywedwch beth yw ei radd) neu’n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- yr hyn sy'n bwysig am y dreftadaeth, er enghraifft efallai ei fod yn ffynhonnell o ddiddordeb artistig, pensaernïol neu wyddonol
- i bwy mae'r dreftadaeth yn bwysig, fel arbenigwyr a/neu'r gymuned leol
- pam mae'r dreftadaeth yn nodedig neu'n unigryw
- sut mae'r dreftadaeth yn cysylltu â threftadaeth arall, er enghraifft yn yr ardal leol neu'n genedlaethol

[Maes testun - 5,000 nod]

**A ystyrir bod y dreftadaeth mewn perygl?**

Ticiwch os ydy.

[Blwch ticio]

**Esboniwch pam a sut rydych chi'n ystyried bod y dreftadaeth mewn perygl.**

Esboniwch pam fod y dreftadaeth o dan fygythiad, a pha gamau sydd wedi'u cymryd (os o gwbl) i isafu'r risg.

Er enghraifft, efallai ei fod mewn perygl o gael ei cholli trwy ddifrod ffisegol neu esgeulustod, neu ddiffygion ariannol. Yn achos hanesion llafar a chymunedol, gallai fod mewn perygl o gael ei cholli wrth i bobl farw. Gall mynediad y cyhoedd i'r dreftadaeth hefyd fod mewn perygl o gael ei golli.

Os yw eich prosiect yn ymwneud ag adeilad neu heneb, dywedwch wrthym a yw ar Gofrestr Mewn Perygl, er enghraifft Cofrestr Heritage at Risk Historic England.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â nifer o adeiladau mewn ardal gadwraeth, dywedwch wrthym a yw'r ardal gadwraeth ar Gofrestr Mewn Perygl.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth naturiol, dywedwch wrthym a yw'r dirwedd, daeareg, cynefin neu rywogaeth mewn perygl ac ym mha ffordd (er enghraifft, wedi'i nodi fel blaenoriaeth mewn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth).

Dywedwch wrthym:

- beth yw cyflwr presennol y dreftadaeth
- sut mae'n cael ei reoli ar hyn o bryd a chan bwy
- sut mae pobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth ar hyn o bryd

[Maes testun - 5,000 nod]

**A yw arolwg cyflwr wedi'i gynnal ar gyfer yr ased treftadaeth yn ystod y pum mlynedd diwethaf?**

Ticiwch os ydy.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chadwraeth treftadaeth, mae'n rhaid i chi ddarparu arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall megis cynllun cadwraeth drafft neu amlinellol). Dylai'r ddogfen hon ddweud wrthym beth yw cyflwr presennol y dreftadaeth a'r gwaith sydd angen ei wneud i ddychwelyd y dreftadaeth i gyflwr da.

Er enghraifft, os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith cadwraeth ar man addoli lleol, bydd angen i chi wybod beth yw'r cyflwr presennol a pha waith atgyweirio sydd angen ei wneud. Dylai'r arolwg neu'r adroddiad hefyd nodi blaenoriaeth gymharol y gwaith arfaethedig, er mwyn i chi wybod pa waith sydd fwyaf hanfodol, y mae angen ymdrin ag ef fwyaf ar fyrder.

Mae mathau eraill o arolwg a allai gael eu gwneud, gan gynnwys arolwg perfformiad adeiladau ac effeithlonrwydd ynni, neu arolwg safle sy'n asesu gwasanaethau a'r defnydd o'r safle. Ar gyfer archif  mae'n bosibl hefyd y bydd angen arolwg cyflwr neu archwiliad, sydd fel arfer yn cael ei wneud gan archifydd.

Os ydych wedi cael unrhyw fath o arolwg cyflwr, gallwch ei uwchlwytho'n nes ymlaen yn y cais.

[Blwch ticio]

**A fyddwch yn ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf fel rhan o'ch prosiect?**

Ticiwch os byddwch.

[Blwch ticio]

Os byddwch: rhowch fanylion.

Diffinnir gwaith cyfalaf fel gwaith sy'n creu neu'n gwella ased. Gall hwn gynnwys gwaith ffisegol ar dirweddau, byd natur ac adeiladau, atgyweirio, cadwraeth, adeiladu o'r newydd, digideiddio, neu waith i sefydlogi cyflwr gwrthrychau.

Enghreifftiau o waith cyfalaf:

- cadwraeth rhostir
- atgyweiriadau i adeilad hanesyddol
- digideiddio archif o ffotograffau

Dywedwch wrthym a fydd unrhyw waith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, hyd yn oed os yw'n rhan fach o'ch prosiect cyffredinol. Rhowch ddadansoddiad cychwynnol i ni o'r gwaith yr ydych yn bwriadu ei wneud.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf (gan gynnwys atgyweirio neu adnewyddu) ar dir, adeiladau neu eitemau treftadaeth, dywedwch wrthym bwy sy'n berchen arno.**

- eich sefydliad
- partner yn y prosiect
- nid y naill na’r llall
- Dd/B

**Rhowch fanylion perchennog eich gwaith cyfalaf.**

Os bydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym pwy sy'n berchen ar y dreftadaeth. Os oes gennych nhw, mae angen i ni weld unrhyw ddogfennau perchnogaeth. Gallwch uwchlwytho'r rhain yn nes ymlaen yn y cais.

Os mai eich sefydliad chi sy'n berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- a oes gan eich sefydliad rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan eich sefydliad les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan eich sefydliad, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth. Os felly, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni.

Os yw sefydliad partner yn berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

enw'r sefydliad partner

- a oes gan y partner yn y prosiect rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu'n a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan y partner yn y prosiect les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan y partner yn y prosiect, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth
- os felly, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni

Os nad ydych yn bodloni ein gofynion o ran perchnogaeth ar hyn o bryd, rhowch ddyddiad i ni pan fyddwch yn disgwyl y bydd modd gwneud hyn. Os oes gennych unrhyw ddogfennau perchnogaeth, gallwch eu huwchlwytho yn nes ymlaen yn y cais.

[Maes testun - 5,000 nod]

**A oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r ased treftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect?**

[Blwch ticio]

**Rhowch fanylion.**

Dywedwch wrthym os yw’r gofrestr teitl neu ddogfennau perchnogaeth eraill yn cynnwys unrhyw waharddiadau neu gyfyngiad ar ei defnydd neu berchnogaeth, neu a oes angen unrhyw ganiatadau ar gyfer unrhyw drafodion. Os oes, bydd angen i chi roi'r manylion llawn a thystiolaeth bod y rhain wedi'u bodloni.

Gallai hyn gynnwys:

- Cyfamod Cyfyngol sy’n cyfyngu ar y math o ddefnydd ar gyfer y tir neu’r eiddo
- cyfyngiad sy’n rhoi hawl i barti arall gael ei hysbysu am unrhyw drafodion neu nodi amodau y byddai angen eu datrys cyn gwerthu’r eiddo
- [Maes testun - 5,000 nod]
- A yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael adeilad, tir neu eitemau treftadaeth?

Dewiswch un o:

- ydy
- nac ydy
- Dd/B

## Rheoli eich prosiect

**A yw eich sefydliad wedi ymgymryd â phrosiect ar y raddfa hon yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?**

[Ticiwch os ydy]

Os ydy: rhowch fanylion.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dywedwch wrthym pam mai hwn yw'r prosiect mwyaf priodol i'ch sefydliad ymgymryd ag ef ar hyn o bryd.**

Pa strategaethau eraill sydd wedi cael eu hystyried? Beth fyddwch yn ei wneud os na fydd y prosiect yn mynd yn ei flaen?

[Maes testun - 5,000 nod]

**Mae ein hariannu'n ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Dywedwch wrthym a ydych o'r farn bod yr ariannu y gwnaed cais amdano yn Gymhorthdal o dan y Ddeddf ac am unrhyw gyngor yr ydych efallai wedi'i geisio.**

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae’n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus ac y gall fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Darganfyddwch fwy am reolaeth gymhorthdal yn adran gofynion cyfreithiol a pholisi canllawiau'r rhaglen.

[Maes testun - 500 gair]

**A oes angen i'ch sefydliad ymgymryd ag unrhyw weithgarwch adeiladu capasiti er mwyn cyflwyno eich prosiect yn well?**

Er enghraifft, a oes angen i chi adolygu eich system gyllid neu AD, datblygu eich cynllun busnes neu adeiladu capasiti codi arian? Oes angen i chi ddod o hyd i unrhyw sgiliau neu arbenigedd ychwanegol?

Dywedwch wrthym a fyddwch yn gwneud newidiadau i lywodraethiant eich sefydliad er mwyn i chi gyflwyno eich prosiect yn fwy effeithiol. Gallwch gynnwys costau cymorth proffesiynol ar gyfer adolygiad llywodraethu yn eich costau prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dywedwch wrthym am unrhyw swyddi neu brentisiaethau y byddwch yn eu creu i gyflwyno eich prosiect.**

Rhowch amcangyfrif o unrhyw swyddi a/neu brentisiaethau a fydd yn cael eu creu ac yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno eich prosiect. Dywedwch wrthym beth fydd eu prif rolau ac a ydynt yn swyddi amser llawn neu'n rhan-amser.

Os ydych yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn, neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol, dywedwch wrthym beth yw ei gymwysterau ar gyfer y rôl a grëir gan y prosiect.

Disgrifiwch sut y byddwch chi'n dewis y staff.

Bydd angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob rôl a grëir ar gyfer cam datblygu eich prosiect fel dogfen ategol i'ch cais.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pa waith fyddwch chi'n ei wneud yn ystod cam datblygu eich prosiect?**

Dywedwch wrthym am y tasgau allweddol y mae angen i chi eu cwblhau yn ystod eich cam datblygu. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn cynhyrchu'r holl ddogfennau ategol sy'n ofynnol ar gyfer eich cais cam cyflwyno.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pwy yw'r prif bobl sy'n gyfrifol am y gwaith yn ystod cam datblygu eich prosiect?**

Rhowch wybodaeth fanwl am y tîm a fydd yn gweithio ar eich cam datblygu, gan gynnwys y person a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol.

Esboniwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chymeradwyo newidiadau i'ch prosiect. Disgrifiwch y strwythur adrodd a pha mor aml y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Disgrifiwch sut y byddwch yn dewis y gwasanaethau a'r nwyddau sydd eu hangen yn ystod eich cam datblygu.

Bydd angen hefyd i chi anfon briffiau atom ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr yn eich cam datblygu. Gallwch uwchlwytho'r rhain yn nes ymlaen yn y cais.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pwy yw'r prif bobl sy'n gyfrifol am y gwaith yn ystod cam cyflwyno eich prosiect?**

Rhowch wybodaeth fanwl am y tîm a fydd yn gweithio ar eich cam cyflwyno, gan gynnwys y person a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol.

Dywedwch wrthym a fydd angen cymorth ychwanegol arnoch gan ymgynghorwyr neu staff newydd.

Esboniwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chymeradwyo newidiadau i'ch prosiect. Disgrifiwch y strwythur adrodd a pha mor aml y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Disgrifiwch sut y byddwch yn dewis y gwasanaethau a'r nwyddau sydd eu hangen yn ystod eich cam cyflwyno.

Bydd angen hefyd i chi anfon y canlynol atom:

- strwythur rheoli'r prosiect
- briffiau ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr

Os ydych yn anfon cynllun busnes prosiect atom, dywedwch wrthym ble i ddod o hyd i'r wybodaeth uchod yn y cynllun. Gallwch uwchlwytho unrhyw un o'r dogfennau ategol hyn yn nes ymlaen yn y cais.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pa waith fyddwch chi'n ei wneud yn ystod cam cyflwyno eich prosiect?**

Rhowch wybodaeth amlinellol am yr hyn y bydd eich prosiect yn ei wneud yn ystod eich cam cyflwyno.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Sut ydych chi'n bwriadu trefnu'r llif arian parod ar gyfer cam cyflwyno eich prosiect?**

Gwneir taliadau grant mewn ôl-daliadau. Felly, mae angen i chi sicrhau y gallwch ddarparu llif arian parod yn llwyddiannus ar gyfer gwariant eich prosiect er mwyn osgoi trafferthion ariannol. Yr eithriad i hwn yw grant datblygu o lai na £250,000.

Bydd angen i chi ddarparu esboniad o'r llif arian parod gyda'ch cais cam cyflwyno.

Dywedwch wrthym am unrhyw gronfeydd ariannol, incwm gan eich sefydliad neu ffynonellau ariannu eraill y byddwch yn eu cyrchu ar gyfer llif arian parod cam cyflwyno eich prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dyddiad dechrau cyflwyno**

Gall hwn fod yn amcangyfrif.

[Dewiswch ddyddiad]

**Dyddiad dod i ben cyflwyno**

Gall hwn fod yn amcangyfrif.

[Dewiswch ddyddiad]

**A oes unrhyw derfynau amser penodol neu gerrig milltir allweddol a fydd yn cyfyngu ar amserlen eich prosiect?**

Dywedwch wrthym am unrhyw ddyddiadau na ellir eu newid a fydd yn effeithio ar eich prosiect ac sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth.

Er enghraifft:

- dyddiadau pan ddaw cynigion ariannu partneriaeth i ben neu ddyddiadau olaf ar gyfer gwario cronfeydd wedi'u sicrhau
- pen-blwyddi y mae eich prosiect wedi'i ddylunio i'w dathlu
- digwyddiadau allanol sy'n allweddol i lwyddiant eich prosiect

[Maes testun - 5,000 nod]

## Ein hegwyddorion buddsoddi

Bydd ein pedair egwyddor fuddsoddi'n cyfeirio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033

Ein hegwyddorion buddsoddi yw:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Mae'n rhaid i chi gymryd pob un o'r pedair egwyddor i ystyriaeth yn eich prosiect. Gallwch ganolbwyntio'n fwy ar rai egwyddorion buddsoddi nag eraill.

Er enghraifft:

- os yw eich prosiect yn canolbwyntio ar adfer tirweddau naturiol, efallai y byddwch am bwysleisio achub treftadaeth a diogelu'r amgylchedd yn eich cais
- os yw eich prosiect yn canolbwyntio ar gofnodi a rhannu hanesion llafar a datblygu sgiliau, efallai y byddwch yn canolbwyntio mwy ar gynhwysiad, mynediad a chyfranogiad a chynaladwyedd sefydliadol

Eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu ar gryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor, a dangos hynny.

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn achub treftadaeth.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn diogelu'r amgylchedd.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn cynyddu cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn gwella'ch cynaladwyedd sefydliadol.**

[Maes testun - 5,000 nod]

## Ar ôl i'r prosiect ddod i ben

**Sut fyddwch chi'n cynnal buddion eich prosiect ac yn talu unrhyw gostau cysylltiedig?**

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli buddion eich prosiect ar ôl i'r ariannu ddod i ben.

Er enghraifft:

- beth fydd yn digwydd i’r pethau yr ydych yn eu cynhyrchu fel rhan o’r prosiect, er enghraifft a fydd y rhain yn cael eu rhoi i archif leol neu’n cael eu harddangos o hyd gan eich sefydliad
- sut y byddwch yn rheoli’r dreftadaeth yn y dyfodol, er enghraifft a fyddwch yn parhau i gyflogi staff i helpu cynnal a chadw safle yr ydych wedi’i adfer
- sut y byddwch yn ymdrin ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r dreftadaeth pan ddaw'r prosiect i ben, er enghraifft costau cyfleustodau ar gyfer adeilad sydd newydd ei agor

[Maes testun - 5,000 nod]

**Sut fyddwch chi'n gwerthuso llwyddiant eich prosiect ac yn rhannu'r dysgu?**

Rhaid i chi werthuso eich prosiect a darparu adroddiad gwerthuso ysgrifenedig ar ôl i chi orffen eich prosiect.

Bydd angen i chi greu cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Braslun yw hwn o sut y byddwch yn cywain data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn y pen draw i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniadau y mae eich prosiect wedi'u cyflawni.

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gwneud eich gwerthusiad. Gallai hyn fod yn staff yn eich sefydliad neu'n berson neu sefydliad y bydd angen i chi ei gyflogi. Dylech ddarparu brîff ar gyfer y gwaith hwn fel dogfen ategol.

Byddem yn disgwyl gweld costau ar gyfer eich gwerthusiad wedi'u cynnwys yn eich costau prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

## Costau ac incwm y prosiect

### Dywedwch wrthym am gostau ac incwm eich prosiect.

Mae hyn yn cynnwys eich cam datblygu a'ch cam cyflwyno posibl.

Dylech gynnwys yr holl gostau ac incwm sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.

Mae yna wahanol benawdau ar gyfer pob math o gost y gallwch ddewis ohonynt, ac ar gyfer pob math o incwm y gallech ei dderbyn i gefnogi eich prosiect.

Dewiswch y math o incwm sy'n gweddu orau i bob ffynhonnell incwm y byddwch yn ei derbyn.

Mae rhagor o wybodaeth am gostau ac incwm prosiect y cam cyflwyno ar gael yng nghwestiynau ymgeisio'r cam cyflwyno isod.

Dangosir crynodeb i chi o gyfanswm costau ac incwm eich prosiect.

### Costau cam datblygu'r prosiect:

#### Gweithgarwch adeiladu capasiti

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth y gall fod angen i chi ei wneud i gynyddu capasiti eich sefydliad i gyflwyno'r prosiect. Gallai hyn gynnwys adolygiad o'ch adnoddau dynol neu gyllid, recriwtio sgiliau neu arbenigedd ychwanegol, neu wneud newidiadau i lywodraethiant eich sefydliad.

#### Gwaith/arolygon agor i fyny

- Gall hyn gynnwys unrhyw arolygon neu adroddiadau cychwynnol y gallai fod angen iddynt gael eu gwneud ar safle, adeilad, tirwedd neu adnodd.

**Ffioedd proffesiynol**

- Dylech gynnwys costau ar gyfer unrhyw wasanaethau y bydd angen i chi dalu amdanynt yn ystod eich prosiect. Er enghraifft, syrfëwr adeiladu, pensaer tirweddau neu gadwraethwr.
- Dylai ffioedd gydweddu â chanllawiau proffesiynol a bod yn seiliedig ar ddyfynbrisiau gan y gweithiwr proffesiynol neu gorff proffesiynol yr ydych yn ei dalu.

**Recriwtio**

- Gall hyn gynnwys cost hysbysebu ac unrhyw dreuliau teithio ar gyfer cyfweliadau. Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol.

**Adennill costau llawn**

- Mae adennill costau llawn yn fath o gost a ddefnyddir i dalu costau anuniongyrchol prosiect. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys gorbenion, neu gostau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â’r prosiect y mae eich sefydliad yn ei gyflwyno, ond sy’n hanfodol i redeg eich sefydliad.
- Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad, y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol i'r amser neu adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Wrth sector gwirfoddol rydym yn golygu sefydliadau sy'n annibynnol ar lywodraeth y mae gan eu llywodraethu, eu hariannu a'u hadnoddau ffocws gwirfoddol. Er enghraifft, gallai sefydliad yn y sector gwirfoddol:
    - fod â Bwrdd Ymddiriedolwyr
    - cael ei ariannu gan grantiau a rhoddion
    - dibynnu ar wirfoddolwyr i gyflawni ei nodau

**Costau eraill (cam datblygu)**

- Dylech gynnwys costau cam datblygu nad ydynt yn ffitio i unrhyw un o'r penawdau cost eraill. Cofiwch roi disgrifiad clir o beth yw'r costau hyn.
- Efallai y byddwch yn cynnwys costau yma ar gyfer unrhyw waith cwmpasu neu gynllunio y byddwch yn ei wneud i ymdrin â'r egwyddorion buddsoddi yn ystod eich prosiect.
- Os yw eich prosiect yn digwydd yng Nghymru, cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys costau digonol ar gyfer cyfieithu i’r Gymraeg.
- Efallai y byddwch am gynnwys costau ar gyfer addasiadau rhesymol yma hefyd.

**Amser gwirfoddolwyr**

- Dyma'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei roi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno eich prosiect. Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad.
- Ni ddylech gynnwys costau am amser pobl a fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywysedig).
- Rydym yn defnyddio cyfradd safonol o £20 yr awr i gyfrifo amser gwirfoddolwyr.
- Mae'n rhaid cynnwys amser gwirfoddolwyr yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y cyfraniad hwn.

#### Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod

- Dyma unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes rhaid i chi dalu amdano (er enghraifft, hurio ystafelloedd neu offer). Gallwn ond derbyn cyfraniadau nad ydynt yn arian parod os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol y byddent fel arall yn rhan o gyllideb eich prosiect.
- Mae'n rhaid cynnwys cyfraniadau nad ydynt yn arian parod yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y cyfraniad hwn.

#### Staff newydd

- Dylech gynnwys costau ar gyfer staff a fydd yn gweithio ar eich prosiect. Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys unrhyw argostau perthnasol hefyd.
- Gallai hyn gynnwys costau contractau cyfnod penodol newydd, secondiadau, prentisiaethau a chost staff llawrydd i helpu cyflwyno eich prosiect. Peidiwch â chynnwys costau talu hyfforddeion yma.
- Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol cynnwys costau ar gyfer absenoldeb mamolaeth a/neu daliadau diswyddo. Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol, gan gynnwys talu o leiaf y Cyflog Byw Cenedlaethol i holl aelodau staff y prosiect.

#### Swm wrth gefn

- Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol. Mae swm wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau annisgwyl sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno eich prosiect.
- Byddem yn disgwyl i swm yr arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys helpu wrth reoli'r heriau neu'r risgiau a nodwyd gennych. Dylai hefyd adlewyrchu graddfa eich prosiect.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys eich swm wrth gefn gofynnol yma yn unig ac nid o fewn penawdau cost eraill y cais.

### Incwm cam datblygu'r prosiect:

awdurdod lleol

- sector cyhoeddus arall
- llywodraeth ganolog
- rhodd breifat – unigolyn
- rhodd breifat – ymddiriedolaethau/elusennau/gwaddolion
- rhoddion preifat – corfforaethol
- masnachol/busnes
- eich cronfeydd wrth gefn eich hun
- arian arall a godir
- benthyciad/cyllid
- cyfraniadau nad ydynt yn arian parod
- amser gwirfoddolwyr

## Dogfennau ategol sydd eu hangen yn ystod y cam datblygu

Cyn i ni asesu eich cais, mae angen i ni weld eich dogfennau ategol.

Mae rhai dogfennau ategol yn orfodol - mae'r rhain yn ddogfennau y mae'n rhaid i bob prosiect eu darparu ar gyfer eu cais cam datblygu. Dim ond os ydynt yn berthnasol i'ch prosiect y mae dogfennau ategol eraill yn orfodol: er enghraifft, os ydych yn comisiynu unrhyw waith, bydd angen i ni weld briffiau ar gyfer y gwaith hwnnw.

Dewiswch enw ffeil clir a disgrifiadol ar gyfer pob dogfen ategol fel y gallwn nodi pob un yn hawdd.

Y mathau o ffeiliau a gefnogir: .jpg, .doc, .docx, .pdf, .xls, .xlsx, .ppt, .pptx, .zip, .kml

[Uwchlwytho ffeiliau]

### Rhestr o ddogfennau ategol ar gyfer y cam datblygu:

#### Amserlen ar gyfer y cam datblygu

Dylai hon fod yn amserlen fanwl ar gyfer cam datblygu eich prosiect. Dogfen **orfodol** yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect.

#### Risgiau ar gyfer y cam datblygu

Dogfen a elwir yn gofrestr risgiau yw hon sy'n dweud wrthym beth yw'r risgiau i gam datblygu eich prosiect a sut y byddant yn cael eu rheoli. Dogfen **orfodol** yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect.

#### Amserlen ar gyfer y cam cyflwyno

Dylai hon fod yn amserlen gryno ar gyfer cam cyflwyno eich prosiect. Dogfen **orfodol** yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect.

#### Risgiau ar gyfer y cam cyflwyno

Dogfen a elwir yn gofrestr risgiau yw hon sy'n dweud wrthym beth yw'r risgiau i gam cyflwyno eich prosiect a sut y byddant yn cael eu rheoli. Dogfen **orfodol** yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect.

#### Dogfen prif risgiau ar gyfer y cyfnod ar ôl cwblhau'r prosiect

Dogfen yw hon sy'n dweud wrthym beth yw'r prif risgiau sy'n wynebu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau a sut y byddant yn cael eu rheoli. Dogfen **orfodol** yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect.

#### Cyfrifon

Rhaid i chi ddarparu eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u harchwilio neu eu dilysu gan gyfrifydd ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Hoffem weld eich cyfrifon rheoli ar gyfer y tair blynedd diwethaf hefyd. Mae angen i gyfrifon:

- fod yn **enw cyfreithiol** eich sefydliad
- cynnwys y **dyddiad**
- cael eu llofnodi mewn **llawysgrifen**; nid yw hyn yn cynnwys llofnodion digidol
- cynnwys **teitl** y sawl sy'n eu llofnodi. Rhaid i'r person hwn fod yn gyfarwyddwr, ymddiriedolwr, cyfrifydd, neu berson uwch arall yn eich sefydliad.

Os yw cyfrifon eich sefydliad yn h?n na 18 mis, rhaid hefyd i chi ddarparu tri mis o'ch cyfriflenni banc diweddaraf. Dylai hyn fod y tri mis cyn y dyddiad yr ydych yn cyflwyno eich cais.

Os sefydlwyd eich sefydliad lai na 14 mis yn ôl ac nid oes gennych set o gyfrifon wedi'u harchwilio, rhaid i chi ddarparu eich tair cyfriflen banc ddiwethaf, neu lythyr wedi'i arwyddo gan eich banc yn cadarnhau bod eich sefydliad wedi agor cyfrif.

Nid oes angen i ni weld eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus, er enghraifft awdurdod lleol neu brifysgol.

Dogfen **orfodol** yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect oni bai bod eich sefydliad wedi'i eithrio rhag darparu nhw.

#### Dadansoddiad manwl o gostau

Rhaid i chi ddarparu taenlen yn manylu ar y costau y gwnaethoch eu hamlinellu wrth gwblhau adran costau prosiect eich cais.

Mae arnom angen taenlen fanwl o wariant ac incwm y prosiect, gan gyfeirio at y penawdau cyllideb a ddefnyddiwyd yn eich cais, gan eitemeiddio pob agwedd.

Dogfen **orfodol** yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect.

#### Cytundebau partneriaeth

Os ydych yn bwriadu gweithio gyda phartner i gyflawni eich prosiect, bydd angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ddau bartner a dylai pob parti ei lofnodi. Dylai'r ddogfen hon adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn am gyngor annibynnol ar y ffordd orau o lunio cytundeb.

Mae partner yn sefydliad arall neu gorff trydydd parti sy’n rhan annatod o gyflwyno eich prosiect, er enghraifft perchennog eitem, adeilad, tir neu gasgliad sy’n rhan o’ch prosiect. Nid yw partneriaid yn isgontractwyr. Bydd ganddynt rôl weithredol yn y prosiect a byddant yn cymryd rhan yn y prosiect. Byddant yn helpu i adrodd ar gynnydd, yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd ac yn cefnogi gwerthusiad y prosiect.

#### Disgrifiadau swydd

Os ydych yn bwriadu recriwtio staff neu brentisiaid newydd i helpu cyflwyno eich prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd newydd. Dylai pob disgrifiad swydd gynnwys y cyflog a'r oriau gwaith arfaethedig.

**Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir**

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith rydych chi'n bwriadu ei gomisiynu yn ystod cam datblygu eich prosiect. Os ydych chi'n comisiynu gwaith, er enghraifft, gan artist neu bensaer, dylech uwchlwytho brîff.

Dylai'r brîff ddisgrifio'r gwaith, faint o amser y bydd yn ei gymryd, a faint y bydd yn ei gostio.

Ar gyfer ffioedd dros £10,000 dylech ddod o hyd i dri thendr neu ddyfynbris cystadleuol. Ar gyfer ffioedd dros £50,000 byddwn yn disgwyl i chi ddarparu prawf o'r broses dendro gystadleuol.

**Delweddau**

Dylech ddarparu hyd at chwe delwedd sy'n helpu i roi darlun o'ch prosiect. Er enghraifft, delwedd o fap o'r ardal yn dangos y lleoliadau sy'n berthnasol i'ch prosiect, os yw'n digwydd ar draws mwy nag un lle neu ar draws ardal eang.

Gwnewch yn si?r bod gennych bob caniatâd sydd ei angen i rannu'r delweddau hyn gyda ni, gan y byddwn o bosibl yn defnyddio'r rhain i hysbysu pobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect. Os bydd eich prosiect yn llwyddiannus, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio unrhyw ddelweddau i hyrwyddo eich prosiect.

**Tystiolaeth o gefnogaeth**

Dylech ddarparu hyd at chwe darn o dystiolaeth o gefnogaeth gan sefydliadau neu unigolion eraill sydd wedi ymrwymo i helpu cyflwyno eich prosiect neu sy'n allweddol i lwyddiant eich prosiect. Gallai hyn gynnwys:

caniatâd gan dirfeddianwyr i gael mynediad i safleoedd

cadarnhad gan amgueddfa leol y bydd yn lletya eich arddangosfa

cadarnhad gan gr?p cymunedol lleol y bydd eu haelodau yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau arfaethedig

cynigion o gymorth gan sefydliadau ariannu eraill

prisiadau annibynnol ar gyfer tir, adeiladau neu eitemau treftadaeth rydych yn bwriadu eu prynu

Nid oes angen i ni weld datganiadau cyffredinol o gefnogaeth i'ch prosiect.

**Cyfrifiadau adennill costau llawn sydd wedi'u cynnwys yn eich costau cam datblygu**

Os ydych wedi cynnwys adennill costau llawn fel pennawd cost yn eich costau prosiect, rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn. Dylai costau fod yn gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod staff presennol, ar yr amod nad yw'n gweithio'n gyfan gwbl ar y prosiect a ariennir mewn swydd newydd.

Ni allwn dderbyn ceisiadau sy'n cynnwys adennill costau llawn gan sefydliadau sector cyhoeddus (er enghraifft, amgueddfeydd a ariennir gan lywodraeth, awdurdodau lleol neu brifysgolion).

#### Cynllun busnes

Rhaid i chi gyflwyno cynllun busnes cyfredol eich sefydliad. Nid yw cynllun busnes yr un peth â chynllun prosiect. Mae'n canolbwyntio ar y sefydliad cyffredinol ac nid ar weithgareddau prosiect penodol.

Os nad oes gennych gynllun busnes, uwchlwythwch y ddogfen rydych yn ei defnyddio i reoli eich treftadaeth. Os ydych yn sefydliad sy'n rheoli nifer o safleoedd neu, er enghraifft, yn awdurdod lleol, uwchlwythwch y dogfennau cynllunio sydd fwyaf perthnasol i'r dreftadaeth. Dogfen orfodol yw hon ar gyfer cam datblygu pob prosiect.

#### Arolwg cyflwr

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chadwraeth treftadaeth, rhaid i chi ddarparu arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall i ddweud wrthym beth yw cyflwr presennol y dreftadaeth a'r gwaith sydd ei angen i ddychwelyd y dreftadaeth i gyflwr da.

Dylai'r arolwg neu'r adroddiad hefyd nodi blaenoriaeth gymharol y gwaith arfaethedig, er mwyn i chi wybod pa waith sydd fwyaf hanfodol, y mae angen ymdrin ag ef fwyaf ar fyrder. Mae mathau eraill o arolwg a allai ddigwydd, megis arolwg perfformiad ac effeithlonrwydd ynni adeilad.

#### Dogfennau perchnogaeth

Os ydych yn cynllunio unrhyw waith cyfalaf, neu'n bwriadu prynu tir, adeiladau, neu gasgliadau, darparwch gopïau o unrhyw ddogfennau perchnogaeth perthnasol. Er enghraifft, dogfennau perchnogaeth y Gofrestrfa Tir, neu brydles neu benawdau telerau.

#### Dogfennau ategol Menter Treftadaeth

Os ydych yn gwneud cais Menter Treftadaeth, dylech uwchlwytho'r canlynol hefyd:

- arfarniad dichonoldeb sy'n darparu asesiad rhesymol o'r diffyg cadwraeth
- manyleb ddylunio ar gyfer unrhyw waith cyfalaf sydd i'w wneud yn ystod y cam datblygu
- Dwy neu dair o'r dogfennau mwyaf diweddar a pherthnasol sy'n disgrifio'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer yr ardal, os yn berthnasol. Er enghraifft, dogfennau o'r fframwaith datblygu lleol, cynllun gweithredu ardal, cynllun meistr, strategaeth adfywio neu strategaeth twristiaeth.

## Datganiad

**Cadarnhau'r datganiad**

Rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr ansoddol i'n helpu datblygu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Gallai hyn amrywio o arolwg 20 munud i gyfweliad 2 awr.

Ticiwch y blwch hwn os hoffech gymryd rhan yn ein hymchwil, neu i gael mwy o wybodaeth. [Blwch ticio]

Rwyf wedi darllen y datganiad ac yn cytuno iddo. [Blwch ticio]

**a) Diogelu Data**

Rydym yn ymrwymedig i fod mor agored a thryloyw â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir yngl?n â sut rydym yn asesu ac yn gwneud penderfyniadau ar ein grantiau a sut y byddwn yn defnyddio eich ffurflen gais a'r dogfennau eraill rydych yn eu rhoi i ni. Rydym yn dilyn yr holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data sy'n berthnasol ac mewn grym o bryd i'w gilydd (y 'ddeddfwriaeth Diogelu Data'). Fel y diffinnir gan y ddeddfwriaeth Diogelu Data mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn rheolydd data. Mae ein Polisi Preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ein Swyddog Diogelu Data. Gellir dod o hyd iddo ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Yn rhan o’r broses ymgeisio, byddwn yn casglu’ch enw, eich gwybodaeth gyswllt a’ch swydd yn y sefydliad rydych yn ei gynrychioli. Efallai y byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth hon gydag un o'r ymgynghorwyr ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi os byddant yn cael eu penodi i roi cefnogaeth i chi ar eich prosiect. Nid ydym yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd partïon sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE.

Efallai byddwn yn defnyddio’ch ffurflen gais a dogfennau eraill a roddwch i ni, a’r data a gynhwysir yn:

- Benderfynu a fyddwn ni'n rhoi grant i chi.
- Darparu copïau i unigolion neu sefydliadau eraill sy'n helpu ni i asesu, monitro a gwerthuso grantiau.
- Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda ni sydd â diddordeb dilys mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri Genedlaethol neu raglenni ariannu penodol.
- Cadw mewn cronfa ddata a defnyddio at ddibenion ystadegol.
- Os byddwn ni'n cynnig grant i chi, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth amdanoch chi sy'n ymwneud â'r gweithgaredd rydym wedi'i ariannu, gan gynnwys swm y grant a'r gweithgaredd yr oedd i dalu amdano. Efallai y bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos yn ein datganiadau i'r wasg, yn ein cyhoeddiadau printiedig ac ar-lein, ac yng nghyhoeddiadau neu ar wefannau adrannau llywodraeth perthnasol ac unrhyw sefydliadau partner sydd wedi ariannu'r gweithgaredd gyda ni.
- Os byddwn yn cynnig grant i chi, byddwch yn cefnogi ein gwaith o ddangos gwerth treftadaeth drwy gyfrannu (pan ofynnir i chi) at weithgareddau cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod y byddwn yn darparu ariannu ar ei gyfer a chymryd rhan mewn gweithgareddau i rannu dysgu, y byddwn o bosibl yn cysylltu grantïon eraill â chi i wneud hynny. Fe allai hyn gynnwys rhannu eich gwybodaeth ac unrhyw gyhoeddusrwydd dilynol â dosbarthwyr partner

trydydd parti.

**b) Rhyddid Gwybodaeth**

Fel sefydliad cyhoeddus rydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 sy’n rhoi hawl mynediad i’r cyhoedd i’r wybodaeth a ddaliwn, oni bai bod unrhyw eithriadau'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gofnodedig a ddarparwyd i ni gan ein hymgeiswyr a grantïon.

Pan fyddwch yn cwblhau'r Datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais, rydych yn cadarnhau nad oes gennych chi unrhyw wrthwynebiad i ni ryddhau'r ffurflen gais ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwch i ni i unrhyw un sy'n gofyn am weld nhw ar ôl i'ch cais gwblhau'r broses asesu. Os oes unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau iddi fod ar gael yn gyhoeddus, gofynnir i chi esbonio eich rhesymau isod:

[Blwch testun]

Os byddwn yn derbyn cais am wybodaeth byddwn bob amser yn ymgynghori â chi'n gyntaf ac yn cymryd eich sylwadau i ystyriaeth, a byddwn yn cymhwyso’r eithriadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Fodd bynnag, ni sy'n penderfynu a fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth neu'n ei dal yn ôl ac ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod yr ydych yn ei ddioddef o ganlyniad i ni gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am waith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

[Ticiwch y blwch os hoffech chi gael eich hysbysu am ein gwaith]

- Cadarnhaf fod y sefydliad sydd wedi'i enwi ar y cais hwn wedi rhoi'r awdurdod i mi gwblhau'r cais hwn ar ei ran.
- Cadarnhaf fod y gweithgaredd yn y cais yn dod o dan ddibenion a phwerau cyfreithiol y sefydliad.
- Cadarnhaf fod gan y sefydliad y p?er, os dyfernir grant iddo, i dderbyn y grant ac i'w dalu'n ôl.

- Cadarnhaf fod yr wybodaeth yn y cais hwn yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.
- Rwyf yn caniatáu i’m data personol gael ei ddefnyddio fel y disgrifiwyd ac yn deall, os bydd y gofyniad yn newid o hwnnw a ddisgrifiwyd, y rhoddir gwybod i mi cyn gynted â phosibl.

# Cwestiynau ymgeisio'r cam cyflwyno

## Ynghylch y prosiect

**Teitl y prosiect.**

Dywedwch wrthym deitl y prosiect.

**Ai hwn yw'r cais cyntaf i ni gan eich sefydliad?**

[Dewiswch ydy neu nac ydy]

Os nac ydy:

- Dywedwch wrthym beth yw rhif cyfeirnod eich cais diweddaraf. [Maes testun - 225 nod]
- Dywedwch wrthym beth yw teitl prosiect eich cais diweddaraf. [Maes testun - 225 nod]

**Disgrifiwch yr hyn yr hoffai eich sefydliad ei gyflawni drwy eich prosiect.**

Byddwn yn defnyddio eich ateb i hysbysu pobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect.

Rydym yn cyhoeddi manylion ceisiadau a dyfarniadau grant ar ein gwefan ac mewn cronfeydd data cyhoeddus. Mae hyn yn gweddu i'n hymrwymiad i dryloywder ac egwyddorion data agored. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu wrth ateb y cwestiwn hwn i ddisgrifio'ch prosiect.

Dywedwch wrthym beth rydych yn gobeithio ei gyflawni a'r hyn yr ydych yn gobeithio fydd etifeddiaeth eich prosiect.

[Maes testun – 150 gair]

**Dywedwch wrthym beth fyddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.**

Rhowch drosolwg manwl o'r hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Er enghraifft, disgrifiwch unrhyw:

- weithgareddau y byddwch yn eu gwneud
- digwyddiadau y byddwch yn eu cynnal
- eitemau neu adnoddau y byddwch yn eu creu
- eitemau neu adeiladau treftadaeth y byddwch yn eu hadfer
- tirweddau y byddwch yn eu gwella

Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth yw diben eich prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Ble fydd eich prosiect yn digwydd?**

- Stryd y prosiect [Maes testun - 225 nod]
- Dinas y prosiect [Maes testun - 225 nod]
- Sir y prosiect [Maes testun - 225 nod]
- Cod post y prosiect [Maes testun – 100 nod]

Ar gyfer prosiectau tirwedd, rhowch gyfeirnod grid yr Arolwg Ordnans ar gyfer eich tirwedd.

[Maes testun - 5,000 nod]

Os bydd eich prosiect yn digwydd ar draws lleoliadau gwahanol, defnyddiwch y cod post lle bydd y rhan fwyaf o'r prosiect yn digwydd.

**Esboniwch ba anghenion a chyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pam mae angen i'ch prosiect ddigwydd nawr?**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pwy arall ydych chi wedi cysylltu â nhw ynghylch ariannu eich prosiect?**

Ar y lefel grant hon mae'n rhaid i chi gyfrannu at gostau eich prosiect, gan ddibynnu ar faint o grant yr ydych yn gwneud cais amdano.

Dywedwch wrthym am unrhyw ariannu:

- rydych wedi'i sicrhau i helpu tuag at gost eich prosiect
- rydych yn bwriadu gwneud cais amdano i gefnogi'r prosiect hwn
- y byddwch yn ei godi drwy godi arian neu gyfraniadau torfol

Os ydych yn darparu'r lleiafswm sydd ei angen, neu os na allwch ddarparu unrhyw arian partneriaeth, esboniwch pam.

Dywedwch wrthym a ydych wedi codi unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i'ch helpu i gyflwyno eich prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dywedwch wrthym ba gyngor rydych wedi'i derbyn wrth gynllunio eich prosiect a chan bwy.**

Os ydych wedi siarad ag unrhyw un yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am eich prosiect, dywedwch wrthym am y cyngor a gawsoch a sut rydych wedi defnyddio'r cyngor hwnnw i ddatblygu eich prosiect.

Dywedwch wrthym a ydych wedi derbyn unrhyw gyngor arbenigol am eich prosiect gan unrhyw un arall. Gallai hyn fod yn arbenigwyr ar y dreftadaeth y mae eich prosiect yn canolbwyntio arni neu sefydliadau eraill a fydd yn eich cefnogi i gyflwyno eich prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw ymgynghoriad rydych wedi'i wneud gyda'ch cymuned leol a'r rhai a fydd yn ymwneud â'ch prosiect
- unrhyw gyngor ar gynnig y prosiect, megis gan bensaer neu gadwraethwr
- unrhyw gyngor cyn-ymgeisio ar faterion cynllunio a/neu ganiatâd adeilad rhestredig, er enghraifft gan eich awdurdod lleol neu archeolegydd

- cyngor ar sut i ymdrin â lles y cyfranogwyr yn eich prosiect, er enghraifft gan elusen neu gr?p lleol a all ddarparu cymorth sy'n berthnasol i'w profiad o lygad y ffynnon

[Maes testun - 5,000 nod]

**A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?**

[Dewiswch bydd neu na fydd]

Os bydd: Pwy yw eich partneriaid?

Rhowch enw cyswllt o bob sefydliad.

Dywedwch wrthym pwy yw eich partneriaid, natur eich partneriaethau a sut y byddwch yn gweithio ar y cyd.

Hoffem weld eich cytundeb partneriaeth os ydych yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni eich prosiect. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid a dylai pob parti ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol.

Does dim angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod unrhyw sefydliadau eraill yn cyflwyno rhan sylweddol o'ch prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

**A fydd unrhyw ran o'ch prosiect yn digwydd yng Nghymru?**

- Na fydd, nid yw unrhyw ran o'n prosiect yn digwydd yng Nghymru [Blwch ticio]
- Bydd, mae ein prosiect cyfan neu ran ohono'n digwydd yng Nghymru [Blwch ticio]

Os bydd: Dywedwch wrthym sut y caiff y Gymraeg ei defnyddio yn eich prosiect.

Os bydd eich prosiect yn digwydd yng Nghymru, mae'n rhaid i chi ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn defnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect, a chofiwch sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn yr adran costau prosiect.

[Maes testun - 500 gair]

## Ynghylch y dreftadaeth

**Dywedwch wrthym am y dreftadaeth yn eich prosiect a pham mae'n bwysig i'ch sefydliad a'ch cymuned.**

Rhowch ddisgrifiad o'r dreftadaeth fel y mae heddiw. Os yw'n ymwneud â gwahanol fathau o dreftadaeth, disgrifiwch bob un o'r rhain.

Rhowch wybodaeth ffeithiol am y dreftadaeth. Er enghraifft:

- Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth nad yw'n ffisegol (fel atgofion neu draddodiadau diwylliannol), dywedwch wrthym am y pwnc a'r cyfnod amser, os yn berthnasol.
- Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth ffisegol (fel adeilad, llong, gwrthrych, casgliad hanesyddol neu warchodfa natur), rhowch wybodaeth ffeithiol i ni amdani, megis ei maint, ei oedran, y nodweddion sydd wedi goroesi, ei chyflwr a pham y mae'n bwysig i'ch ardal leol.

Dywedwch wrthym:

- a oes unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol o'r dreftadaeth hon, er enghraifft, efallai ei fod yn adeilad rhestredig (os ydy, dywedwch beth yw ei radd) neu'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- yr hyn sy'n bwysig am y dreftadaeth, er enghraifft efallai ei fod yn ffynhonnell o ddiddordeb artistig, pensaernïol neu wyddonol
- i bwy mae'r dreftadaeth yn bwysig, fel arbenigwyr a/neu'r gymuned leol
- pam mae'r dreftadaeth yn nodedig neu'n unigryw
- sut mae'r dreftadaeth yn cysylltu â threftadaeth arall, er enghraifft yn yr ardal leol neu'n genedlaethol

[Maes testun - 5,000 nod]

**A ystyrir bod y dreftadaeth mewn perygl?**

[Dewiswch ydy neu nac ydy]

Os ydy: Esboniwch pam a sut rydych chi'n ystyried bod y dreftadaeth mewn perygl.

Esboniwch pam fod y dreftadaeth o dan fygythiad, a pha gamau sydd wedi'u cymryd (os o gwbl) i isafu'r risg.

Er enghraifft, efallai ei fod mewn perygl o gael ei cholli trwy ddifrod ffisegol neu esgeulustod, neu ddiffygion ariannol. Yn achos hanesion llafar a chymunedol, gallai fod mewn perygl o gael ei cholli wrth i bobl farw. Gall mynediad y cyhoedd i'r dreftadaeth hefyd fod mewn perygl o gael ei golli.

Os yw eich prosiect yn ymwneud ag adeilad neu heneb, dywedwch wrthym a yw ar Gofrestr Adeiladau neu Henebion Mewn Perygl: er enghraifft, Cofrestr Heritage at Risk Historic England.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â nifer o adeiladau mewn ardal gadwraeth, dywedwch wrthym a yw'r ardal gadwraeth ar Gofrestr Mewn Perygl.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â threftadaeth naturiol, dywedwch wrthym a yw'r dirwedd, daeareg, cynefin neu rywogaeth mewn perygl ac ym mha ffordd (er enghraifft, wedi'i nodi fel blaenoriaeth mewn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth).

Dywedwch wrthym:

- beth yw cyflwr presennol y dreftadaeth
- sut mae'n cael ei reoli ar hyn o bryd a chan bwy
- sut mae pobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth ar hyn o bryd

[Maes testun - 5,000 nod]

**A fyddwch yn ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf fel rhan o'ch prosiect?**

[Dewiswch byddwn neu na fyddwn]

**Os byddwn: Rhowch fanylion.**

Diffinnir gwaith cyfalaf fel gwaith sy'n creu neu'n gwella ased. Gall hwn gynnwys gwaith ffisegol ar dirweddau, byd natur ac adeiladau, atgyweirio, cadwraeth, adeiladu o'r newydd, digideiddio, neu waith i sefydlogi cyflwr gwrthrychau.

Enghreifftiau o waith cyfalaf:

- cadwraeth rhostir
- atgyweiriadau i adeilad hanesyddol
- digideiddio archif o ffotograffau

Dywedwch wrthym a fydd unrhyw waith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, hyd yn oed os yw'n rhan fach o'ch prosiect cyffredinol. Rhowch ddadansoddiad cychwynnol i ni o'r gwaith yr ydych yn bwriadu ei wneud.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf (gan gynnwys atgyweirio neu adnewyddu) ar dir, adeiladau neu eitemau treftadaeth, dywedwch wrthym bwy sy'n berchen arno.**

- eich sefydliad
- partner yn y prosiect
- nid y naill na’r llall
- Dd/B

**Rhowch fanylion perchennog eich gwaith cyfalaf.**

Os bydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym pwy sy'n berchen ar y dreftadaeth. Os oes gennych nhw, mae angen i ni weld unrhyw ddogfennau perchnogaeth. Gallwch uwchlwytho'r rhain yn nes ymlaen yn y cais.

Os mai eich sefydliad chi sy'n berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- a oes gan eich sefydliad rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan eich sefydliad les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les

- A oes gan eich sefydliad, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth. Os felly, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni. Os oes gennych un, uwchlwythwch ddogfen o berchnogaeth.

Os yw sefydliad partner yn berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- enw'r sefydliad partner
- a oes gan y partner yn y prosiect rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan y partner yn y prosiect les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan y partner yn y prosiect, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth
- os felly, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni

Os nad ydych yn bodloni ein gofynion o ran perchnogaeth ar hyn o bryd, rhowch ddyddiad i ni pan fyddwch yn disgwyl y bydd modd gwneud hyn.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r ased treftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect?**

[Blwch ticio]

Rhowch fanylion.

Dywedwch wrthym os yw'r gofrestr teitl neu ddogfennau perchnogaeth eraill yn cynnwys unrhyw waharddiadau neu gyfyngiad ar ei defnydd neu berchnogaeth, neu a oes angen unrhyw ganiatadau ar gyfer unrhyw drafodion. Os oes, bydd angen i chi roi'r manylion llawn a thystiolaeth bod y rhain wedi'u bodloni.

Gallai hyn gynnwys:

Cyfamod Cyfyngol sy'n cyfyngu ar y math o ddefnydd ar gyfer y tir neu'r eiddo

cyfyngiad sy'n rhoi hawl i barti arall gael ei hysbysu am unrhyw drafodion neu nodi amodau y byddai angen eu datrys cyn gwerthu'r eiddo

[Maes testun - 5,000 nod]

**A yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael adeilad, tir neu eitemau o dreftadaeth?**

Dewiswch un o:

- ydy
- nac ydy

## Rheoli eich prosiect

**A yw eich sefydliad wedi ymgymryd â phrosiect ar y raddfa hon yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?**

Rhowch fanylion.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dywedwch wrthym pam mai hwn yw'r prosiect mwyaf priodol i'ch sefydliad ymgymryd ag ef ar hyn o bryd.**

Pa strategaethau eraill sydd wedi cael eu hystyried? Beth fyddwch yn ei wneud os na fydd y prosiect yn mynd yn ei flaen?

[Maes testun - 5,000 nod]

**Mae ein hariannu'n ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Dywedwch wrthym a ydych o'r farn bod yr ariannu y gwnaed cais amdano yn Gymhorthdal o dan y Ddeddf ac am unrhyw gyngor yr ydych efallai wedi'i geisio.**

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus ac y gall fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Darganfyddwch fwy am reolaeth gymhorthdal yn adran gofynion cyfreithiol a pholisi canllawiau'r rhaglen.

[Maes testun - 500 gair]

**A oes angen i'ch sefydliad ymgymryd ag unrhyw weithgarwch adeiladu capasiti er mwyn cyflwyno eich prosiect yn well?**

Er enghraifft, oes angen i chi adolygu eich system gyllid neu adnoddau dynol, datblygu eich cynllun busnes neu adeiladu capasiti codi arian? Oes angen i chi ddod o hyd i unrhyw sgiliau neu arbenigedd ychwanegol?

Dywedwch wrthym a fyddwch yn gwneud newidiadau i lywodraethiant eich sefydliad er mwyn i chi gyflwyno eich prosiect yn fwy effeithiol. Gallwch gynnwys costau cymorth proffesiynol ar gyfer adolygiad llywodraethu.

Pa waith ydych chi wedi ymgymryd ag ef i gryfhau capasiti eich sefydliad i gyflwyno'r prosiect hwn yn ystod y cam datblygu?

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dywedwch wrthym am unrhyw swyddi neu brentisiaethau y byddwch yn eu creu i gyflwyno eich prosiect.**

Dywedwch wrthym am unrhyw swyddi a/neu brentisiaethau a fydd yn cael eu creu ac yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno eich prosiect. Dywedwch wrthym beth fydd eu prif rolau ac a ydynt yn swyddi amser llawn neu'n rhan-amser.

Os ydych yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn, neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol, dywedwch wrthym beth yw ei gymwysterau ar gyfer y rôl a grëir gan y prosiect. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli'r gwaith maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd, neu a yw hyn yn dod i ben.

Bydd angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob rôl a grëir ar gyfer cam cyflwyno eich prosiect fel dogfen ategol i'ch cais.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pwy yw'r prif bobl sy'n gyfrifol am y gwaith yn ystod cam cyflwyno eich prosiect?**

Rhowch wybodaeth fanwl am y tîm a fydd yn gweithio ar eich cam cyflwyno, gan gynnwys y person a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol.

Dywedwch wrthym a fydd angen cymorth ychwanegol arnoch gan ymgynghorwyr neu staff newydd.

Esboniwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chymeradwyo newidiadau i'ch prosiect. Disgrifiwch y strwythur adrodd a pha mor aml y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Disgrifiwch sut y byddwch yn dewis y gwasanaethau a'r nwyddau sydd eu hangen yn ystod eich cam cyflwyno.

Bydd angen hefyd i chi anfon y canlynol atom:

- strwythur rheoli'r prosiect
- briffiau ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr

Os ydych yn anfon cynllun busnes prosiect atom, dywedwch wrthym ble i ddod o hyd i'r wybodaeth uchod yn y cynllun.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Pa waith fyddwch chi'n ei wneud yn ystod cam cyflwyno eich prosiect?**

Rhowch wybodaeth amlinellol am yr hyn y bydd eich prosiect yn ei wneud yn ystod eich cam cyflwyno.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Sut ydych chi'n bwriadu trefnu'r llif arian parod ar gyfer cam cyflwyno eich prosiect?**

Gwneir taliadau grant mewn ôl-daliadau. Felly, mae angen i chi sicrhau y gallwch ddarparu llif arian parod yn llwyddiannus ar gyfer gwariant eich prosiect er mwyn osgoi trafferthion ariannol. Yr

eithriad i hwn yw grant datblygu o lai na £250,000.

Bydd angen i chi ddarparu esboniad o'r llif arian parod gyda'ch cais cam cyflwyno.

Dywedwch wrthym am unrhyw gronfeydd ariannol, incwm gan eich sefydliad neu ffynonellau ariannu eraill y byddwch yn eu cyrchu ar gyfer llif arian parod cam cyflwyno eich prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

**Dyddiad dechrau cyflwyno**

[Dewiswch ddyddiad]

Ni fydd modd i chi ddechrau ar gam cyflwyno eich prosiect hyd nes y bydd eich cais yn llwyddiannus.

**Dyddiad dod i ben cyflwyno**

[Dewiswch ddyddiad]

**A oes unrhyw derfynau amser penodol neu gerrig milltir allweddol a fydd yn cyfyngu ar amserlen eich prosiect?**

Dywedwch wrthym am unrhyw ddyddiadau na ellir eu newid a fydd yn effeithio ar eich prosiect ac sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth.

Er enghraifft:

- Dyddiadau pan ddaw cynigion cyllid partneriaeth i ben neu ddyddiadau olaf ar gyfer gwario cronfeydd wedi'u sicrhau
- pen-blwyddi y mae eich prosiect wedi'i ddylunio i'w dathlu
- digwyddiadau allanol sy'n allweddol i lwyddiant eich prosiect

[Maes testun - 5,000 nod]

**Ein hegwyddorion buddsoddi**

Bydd ein pedair egwyddor fuddsoddi'n cyfeirio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033

Ein hegwyddorion buddsoddi yw:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Mae'n rhaid i chi gymryd pob un o'r pedair egwyddor i ystyriaeth yn eich prosiect. Gallwch ganolbwyntio'n fwy ar rai egwyddorion buddsoddi nag eraill.

Er enghraifft:

- os yw eich prosiect yn canolbwyntio ar adfer tirweddau naturiol, efallai y byddwch am bwysleisio achub treftadaeth a diogelu'r amgylchedd yn eich cais
- os yw eich prosiect yn canolbwyntio ar gofnodi a rhannu hanesion llafar a datblygu sgiliau, efallai y byddwch yn canolbwyntio mwy ar gynhwysiad, mynediad a chyfranogiad a chynaladwyedd sefydliadol

Eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu ar gryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor, a dangos hynny.

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn achub treftadaeth.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn diogelu'r amgylchedd.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn cynyddu cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad.**

[Maes testun - 5,000 nod]

**Esboniwch sut fydd eich prosiect yn gwella'ch cynaladwyedd sefydliadol.**

[Maes testun - 5,000 nod]

## Ar ôl i'r prosiect ddod i ben

**Sut fyddwch chi'n cynnal buddion eich prosiect ac yn talu unrhyw gostau cysylltiedig?**

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli buddion eich prosiect ar ôl i'r ariannu ddod i ben.

Er enghraifft:

- beth fydd yn digwydd i’r pethau yr ydych yn eu cynhyrchu fel rhan o’r prosiect, er enghraifft a fydd y rhain yn cael eu rhoi i archif leol neu’n cael eu harddangos o hyd gan eich sefydliad
- sut y byddwch yn rheoli’r dreftadaeth yn y dyfodol, er enghraifft a fyddwch yn parhau i gyflogi staff i helpu cynnal a chadw safle yr ydych wedi’i adfer
- sut y byddwch yn ymdrin ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r dreftadaeth pan ddaw'r prosiect i ben, er enghraifft costau cyfleustodau ar gyfer adeilad sydd newydd ei agor

[Maes testun - 5,000 nod]

### Sut fyddwch yn gwerthuso llwyddiant eich prosiect ac yn rhannu'r dysgu?

Rhaid i chi werthuso eich prosiect a darparu adroddiad gwerthuso ysgrifenedig ar ôl i chi orffen eich prosiect.

Bydd angen i chi greu cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Braslun yw hwn o sut y byddwch yn cywain data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn y pen draw i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniadau y mae eich prosiect wedi'u cyflawni.

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gwneud eich gwerthusiad. Gallai hyn fod yn staff yn eich sefydliad neu'n unigolyn neu sefydliad y bydd angen i chi ei gyflogi. Dylech ddarparu brîff ar gyfer y gwaith hwn fel dogfen ategol.

Byddem yn disgwyl gweld costau ar gyfer eich gwerthusiad wedi'u cynnwys yn eich costau prosiect.

[Maes testun - 5,000 nod]

## Costau ac incwm y prosiect

### Dywedwch wrthym am gostau ac incwm eich prosiect.

Dylech gynnwys yr holl gostau ac incwm sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.

Mae yna wahanol benawdau ar gyfer pob math o gost y gallwch ddewis ohonynt, ac ar gyfer pob math o incwm y gallech ei dderbyn i gefnogi eich prosiect.

Mae costau'r cam cyflwyno wedi'u rhannu'n dri chategori: cyfalaf, gweithgareddau ac arall.

Dewiswch y math o incwm sy'n gweddu orau i bob ffynhonnell incwm y byddwch yn ei derbyn.

### Costau'r cam cyflwyno:

### Costau cyfalaf:

#### Cost prynu eitemau treftadaeth

- Mae costau cymwys yn cynnwys y pris prynu ei hun, prisiadau, ffioedd asiant a phremiwm prynwr ar gyfer pryniannau mewn arwerthiant.
- Ni allwch gynnwys ffioedd y gwerthwr.
- Os ydych yn berchennog preifat ased treftadaeth ffisegol neu'n sefydliad masnachol allwch chi ddim gynnwys costau yma.

#### Gwaith cychwynnol

- Mae hwn yn cynnwys sgaffaldiau, unrhyw waith paratoi neu archeoleg cyn-adeiladu.

#### Gwaith atgyweirio a chadwraeth

- Mae hyn yn cynnwys costau gwaith atgyweirio, adfer neu warchod eitem, adeilad neu safle treftadaeth.

#### Gwaith adeiladu o'r newydd

- Mae hyn ond yn gysylltiedig â gwaith adeiladu o'r newydd (er enghraifft, estyniad i adeilad neu waith i osod arddangosfa). Os ydych yn sefydliad masnachol allwch chi ddim gynnwys costau yma.

#### Gwaith cyfalaf arall

- Dylech gynnwys unrhyw gostau eraill ar gyfer gwaith cyfalaf yma.

#### Allbynnau digidol

- Costau ar gyfer creu unrhyw waith digidol a bodloni ein gofynion digidol.

#### Offer a deunyddiau (cyfalaf)

- Gallai hyn gynnwys gwisgoedd hanesyddol, hetiau caled i roi mynediad i safle, deunyddiau celf neu daflenni a chyhoeddiadau.

#### Costau eraill (cyfalaf)

- Defnyddiwch 'arall' am unrhyw gostau nad ydynt yn ffitio o fewn y penawdau cost penodol. Rhowch ddisgrifiad clir o'r costau hyn.

#### Ffioedd proffesiynol (cyfalaf)

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson a benodir am gyfnod penodol i helpu gyda chynllunio a chyflwyno gwaith cyfalaf yn eich prosiect. Gallai hyn gynnwys rheolwr prosiect, penseiri neu syrfëwr meintiau.

### Costau gweithgareddau:

#### Staff newydd

- Dylech gynnwys costau ar gyfer staff a fydd yn gweithio ar eich prosiect. Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys unrhyw argostau perthnasol hefyd.
- Gallai hyn gynnwys costau contractau cyfnod penodol newydd, secondiadau, prentisiaethau a chost staff llawrydd i helpu cyflwyno eich prosiect. Peidiwch â chynnwys costau talu

hyfforddeion yma.
- Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol cynnwys costau ar gyfer absenoldeb mamolaeth a/neu daliadau diswyddo. Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol, gan gynnwys talu o leiaf y Cyflog Byw Cenedlaethol i holl aelodau staff y prosiect.

**Hyfforddiant ar gyfer staff**

- Mae hyn yn cynnwys cost yr holl hyfforddwyr ac adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno gweithgareddau i helpu staff i feithrin sgiliau newydd neu wella'u sgiliau.

**Lleoliadau hyfforddiant â thâl**

- Mae hyn yn cynnwys cost yr holl leoliadau gwaith ac adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno gweithgareddau i helpu staff i feithrin sgiliau newydd neu wella'u sgiliau.

**Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr**

- Mae hyn yn cynnwys cost yr holl hyfforddwyr ac adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno gweithgareddau i helpu gwirfoddolwyr i feithrin sgiliau newydd neu wella'u sgiliau.

**Teithio a threuliau ar gyfer staff**

- Gallai hyn gynnwys costau teithio i safle neu leoliad. Dylai costau teithio mewn car fod yn seiliedig ar 45c y filltir.

**Teithio a threuliau ar gyfer gwirfoddolwyr**

- Gall hyn gynnwys bwyd, teithio ac unrhyw dreuliau eraill. Dylai costau teithio mewn car fod yn seiliedig ar 45c y filltir.
- Mae hyn hefyd yn cynnwys prynu a hurio'r holl gerbydau, offer a deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau y mae eich gwirfoddolwyr yn eu cyflwyno yn ystod eich prosiect.

**Costau digwyddiadau**

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau, gan gynnwys llogi ystafell, lluniaeth ac offer.

**Offer a deunyddiau (gweithgareddau)**

- Gallai enghreifftiau gynnwys gwisgoedd hanesyddol, hetiau caled i roi mynediad i safle, deunyddiau celf neu daflenni a chyhoeddiadau. Peidiwch â chynnwys deunyddiau sy'n ymwneud â hyfforddiant neu wirfoddolwyr yma.

**Costau eraill (gweithgareddau)**

- Dylid cynnwys unrhyw gostau eraill fel bwyd ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau dysgu neu hurio safleoedd. Rhowch ddisgrifiad clir.

#### Ffioedd proffesiynol (gweithgareddau)

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson a benodir am ffi sefydlog i helpu gyda chynllunio a chyflwyno gweithgareddau eich prosiect. Gallai hyn gynnwys ymgynghorwyr neu artistiaid a storïwyr.

### Costau eraill:

#### Recriwtio

- Gall hyn gynnwys cost hysbysebu ac unrhyw dreuliau teithio ar gyfer cyfweliadau.
- Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol.

#### Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo

- Gallwn ariannu deunyddiau hyrwyddo sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect.
- Os byddwn yn rhoi grant i chi, mae'n rhaid i chi roi cyhoeddusrwydd i hwn a'i gydnabod er mwyn i gynifer o bobl â phosibl wybod am fuddion arian y Loteri Genedlaethol ym maes treftadaeth.

#### Gwerthuso

- Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol gan fod yn rhaid gwerthuso pob prosiect.
- Dylid cynnwys costau gwerthuso eich prosiect o'r cychwyn cyntaf. Efallai y byddwch am gyflogi unigolyn neu sefydliad i'ch cefnogi gyda hyn.
- Rydym yn argymell bod y costau'n gymesur â graddfa eich prosiect.

#### Arall

- Dylech gynnwys unrhyw gostau eraill yma. Rhowch ddisgrifiad clir o bob cost.

#### Adennill costau llawn

- Mae adennill costau llawn yn fath o gost a ddefnyddir i dalu costau anuniongyrchol prosiect. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys gorbenion, neu gostau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â’r prosiect y mae eich sefydliad yn ei gyflwyno, ond sy’n hanfodol i redeg eich sefydliad.
- Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad, y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol i'r amser neu adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Wrth sector gwirfoddol rydym yn golygu sefydliadau sy'n annibynnol ar lywodraeth y mae gan eu llywodraethu, eu hariannu a'u hadnoddau ffocws gwirfoddol. Er enghraifft, gallai sefydliad yn y sector gwirfoddol:

  - fod â Bwrdd Ymddiriedolwyr
  - cael ei ariannu gan grantiau a rhoddion
  - dibynnu ar wirfoddolwyr i gyflawni ei nodau
- Dylech gynnwys unrhyw gostau ar gyfer adennill costau llawn yma.

**Grantiau cymunedol**

- Gallwch gynnwys costau ar gyfer unrhyw daliadau i berchnogion trydydd parti, gan gynnwys perchnogion preifat, ar gyfer gweithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at gyflawni nodau cyffredinol eich prosiect.

**Swm wrth gefn**

- Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol. Mae swm wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau annisgwyl sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno eich prosiect.
- Byddem yn disgwyl i swm yr arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys helpu wrth reoli'r heriau neu'r risgiau a nodwyd gennych. Dylai hefyd adlewyrchu graddfa eich prosiect.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys eich swm wrth gefn gofynnol yma yn unig ac nid o fewn penawdau cost eraill y cais.

**Chwyddiant**

- Dylech gynnwys unrhyw gostau priodol a fydd yn darparu'n ddigonol am chwyddiant a ragfynegir. Dylech gyllidebu'n briodol ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar amserlen y prosiect, ynghyd â ffactorau eraill megis deunyddiau a ddefnyddir, gofynion o ran llafur a lleoliad.

**Cynnydd mewn costau rheoli a chynnal a chadw (uchafswm o bum mlynedd)**

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau uwch a all godi o ganlyniad i waith cyfalaf sydd wedi digwydd yn ystod eich prosiect.
- Mae'n rhaid cynnwys cynnydd mewn costau rheoli a chynnal a chadw yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y cyfraniad hwn.

**Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod**

- Dyma unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes rhaid i chi dalu amdano (er enghraifft, hurio ystafelloedd neu offer). Gallwn ond derbyn cyfraniadau nad ydynt yn arian parod os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol y byddent fel arall yn rhan o gyllideb eich prosiect.
- Mae'n rhaid cynnwys cyfraniadau nad ydynt yn arian parod yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y cyfraniad hwn.

**Amser gwirfoddolwyr**

- Dyma'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei roi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno eich prosiect. Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad.

- Ni ddylech gynnwys costau am amser pobl a fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywysedig).
- Rydym yn defnyddio cyfradd safonol o £20 yr awr i gyfrifo amser gwirfoddolwyr.
- Mae'n rhaid cynnwys amser gwirfoddolwyr yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y cyfraniad hwn.

**Incwm y cam cyflwyno:**

- awdurdod lleol
- sector cyhoeddus arall
- llywodraeth ganolog
- rhodd breifat – unigolyn
- rhodd breifat – ymddiriedolaethau/elusennau/gwaddolion
- rhoddion preifat – corfforaethol
- masnachol/busnes
- eich cronfeydd wrth gefn eich hun
- arian arall a godir
- benthyciad/cyllid
- cynnydd mewn costau rheoli a chynnal a chadw (uchafswm o bum mlynedd)
- cyfraniadau nad ydynt yn arian parod
- amser gwirfoddolwyr

## Dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y cam cyflwyno

Cyn i ni asesu eich cais, mae angen i ni weld eich dogfennau ategol.

Mae rhai dogfennau ategol yn orfodol - mae'r rhain yn ddogfennau y mae'n rhaid i bob prosiect eu darparu ar gyfer eu cais cam cyflwyno. Dim ond os ydynt yn berthnasol i'ch prosiect y mae dogfennau ategol eraill yn orfodol: er enghraifft, os ydych yn comisiynu unrhyw waith, bydd angen i ni weld briffiau ar gyfer y gwaith hwnnw.

Dewiswch enw ffeil clir a disgrifiadol ar gyfer pob dogfen ategol fel y gallwn nodi pob un yn hawdd.

Y mathau o ffeiliau a gefnogir: .jpg, .doc, .docx, .pdf, .xls, .xlsx, .ppt, .pptx, .zip, .kml

[Uwchlwytho ffeiliau]

### Rhestr o ddogfennau ategol ar gyfer y cam cyflwyno

#### Cynllun gweithgareddau neu gynllun gweithredu ardal

Rhaid i chi ddarparu cynllun gweithgareddau neu gynllun gweithredu ardal fel y bo'n berthnasol. Os ydych yn gweithio ar brosiect ardal, rhaid i chi gynhyrchu cynllun gweithredu ardal. Os yw eich prosiect yn ymwneud â gweithgareddau a phobl, rhaid i chi gynhyrchu cynllun gweithgareddau.

#### Cynllun amserlen neu gynllun gweithredu ardal

Dyma amserlen gryno ar gyfer cam cyflwyno eich prosiect.

### Llif arian parod

Dylai hwn fod yn fanwl ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac yn fraslun ar gyfer y blynyddoedd wedyn.

### Rhagolygon incwm a gwariant

Dylai hyn gynnwys rhagolwg o gyfrif incwm a gwariant, rhagolwg llif arian parod yn dangos y llif arian parod misol disgwyliedig a datganiadau o'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhagolygon.

Dylai'r rhain gynnwys y pum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

### Strwythur rheoli'r prosiect

Amlinellwch strwythur rheoli eich prosiect er mwyn i ni wybod pwy fydd yn gwneud penderfyniadau a sut y byddwch yn rheoli newid yn ystod eich prosiect.

### Dadansoddiad manwl o gostau

Taenlen orfodol sy'n rhoi manylder y dadansoddiad o gostau yn adran Costau Prosiect y cais, gan gynnwys colofnau ychwanegol sy'n cymharu costau adeg dyfarnu eich grant datblygu, yr adolygiad o'ch cam datblygu a chyflwyno eich cais cam cyflwyno.

### Risgiau ar gyfer y cam cyflwyno

Amlinellwch y risgiau i gam cyflwyno eich prosiect a sut y byddant yn cael eu rheoli.

### Dogfen prif risgiau ar gyfer y cyfnod ar ôl cwblhau'r prosiect

Amlinellwch y prif risgiau sy'n wynebu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau a sut y byddant yn cael eu rheoli.

### Cyfrifiadau adennill costau llawn

Os ydych wedi cynnwys adennill costau llawn fel pennawd cost yn eich costau prosiect, rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn. Dylai costau fod yn gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod staff presennol, ar yr amod nad yw'n gweithio'n gyfan gwbl ar y prosiect a ariennir mewn swydd newydd.

### Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith rydych chi'n bwriadu ei gomisiynu yn ystod cam cyflwyno eich prosiect. Os ydych chi'n comisiynu gwaith, er enghraifft, gan artist neu bensaer, dylech uwchlwytho brîff. Dylai'r brîff ddisgrifio'r gwaith, faint o amser y bydd yn ei gymryd, a faint y bydd yn ei gostio. Templed o frîff ar gyfer gwaith a gomisiynir. Ar gyfer ffioedd dros £10,000 dylech ddod o hyd i dri

thendr neu ddyfynbris cystadleuol. Ar gyfer ffioedd dros £50,000 byddwn yn disgwyl i chi ddarparu prawf o'r broses dendro gystadleuol.

#### Disgrifiadau swydd

Os ydych yn bwriadu recriwtio staff neu brentisiaid newydd i helpu cyflwyno eich prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd newydd. Dylai pob disgrifiad swydd gynnwys y cyflog a'r oriau gwaith arfaethedig.

#### Cynllun busnes

Hoffem weld cynllun busnes wedi'i adnewyddu ar gyfer eich sefydliad sy'n ymgorffori'r prosiect yr ydych chi'n gwneud cais i ymgymryd ag ef. Os ydych yn sefydliad sy'n rheoli nifer o safleoedd neu rydych, er enghraifft, yn awdurdod lleol, gofynnir i chi ddiwygio'r dogfennau cynllunio sydd fwyaf perthnasol i'r dreftadaeth rydych yn gwneud cais i'w ariannu i gynnwys gweithgareddau'r prosiect.

#### Delweddau

Darparwch hyd at chwe delwedd sy'n helpu rhoi darlun o'ch prosiect. Er enghraifft, delwedd o fap o'r ardal yn dangos y lleoliadau sy'n berthnasol i'ch prosiect, os yw'n digwydd ar draws mwy nag un lle neu ar draws ardal eang. Gwnewch yn si?r bod gennych bob caniatâd sydd ei angen i rannu'r delweddau hyn gyda ni, gan y byddwn o bosibl yn defnyddio'r rhain i hysbysu pobl, gan gynnwys y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, am eich prosiect.

#### Cynllun rheoli a chynnal a chadw (os yn berthnasol)

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, creu deunydd newydd, neu brynu adeilad hanesyddol, adeiledd, treftadaeth trafnidiaeth, neu dir, byddwn yn gofyn i chi baratoi cynllun rheoli a chynnal a chadw fel rhan o'ch cais cam cyflwyno.

Mae'r cynllun rheoli a chynnal a chadw yn dweud wrthym sut y byddwch yn gofalu am eich treftadaeth unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau, gan gynnwys sut rydych yn disgwyl cynnal buddion eich prosiect yn y dyfodol. Byddwn yn disgwyl i chi sicrhau bod y gwaith rydym wedi'i ariannu'n cael ei gadw mewn cyflwr da.

#### Manyleb ddylunio (os yn berthnasol)

Gall fod yn berthnasol cynnwys manyleb ddylunio sy'n esbonio'r ffordd y mae eich prosiect yn bwriadu arddangos neu rannu treftadaeth.

#### Cynllun dehongli (os yn berthnasol)

Dehongli yw'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu storïau a syniadau am dreftadaeth i wahanol gynulleidfaoedd. Mae'n golygu troi gwybodaeth yn rhywbeth hygyrch, perthnasol a deniadol.

Dylech gynnwys cyfeiriad penodol at y ffyrdd y bydd eich prosiect yn dyfnhau dealltwriaeth pobl o dreftadaeth, archwilio a gwneud synnwyr o safleoedd a thirweddau hanesyddol, gwrthrychau, traddodiadau neu ddigwyddiadau.

#### Cynllun cadwraeth wedi'i ddatblygu'n llawn (os yn berthnasol)

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, creu deunydd newydd, neu brynu adeilad hanesyddol, adeiledd, treftadaeth trafnidiaeth neu dir, dylech gyflwyno cynllun cadwraeth sy'n manylu ar y ddealltwriaeth o'ch treftadaeth a'r cyfleoedd i rannu eich treftadaeth ag eraill, fel y gwnaethoch ei nodi yn eich cam datblygu. Gallwch ymdrin ag unrhyw risgiau a bygythiadau yr ydych wedi'u nodi.

#### Cytundebau partneriaeth

Os ydych yn bwriadu gweithio gyda phartner i gyflawni eich prosiect, bydd angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ddau bartner a dylai pob parti ei lofnodi. Dylai'r ddogfen hon adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn am gyngor annibynnol ar y ffordd orau o lunio cytundeb. Mae partner yn sefydliad arall neu gorff trydydd parti sy’n rhan annatod o gyflwyno eich prosiect, er enghraifft perchennog eitem, adeilad, tir neu gasgliad sy’n rhan o’ch prosiect. Nid yw partneriaid yn isgontractwyr. Bydd ganddynt rôl weithredol yn y prosiect a byddant yn cymryd rhan yn y prosiect. Byddant yn helpu i adrodd ar gynnydd, yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd ac yn cefnogi gwerthusiad y prosiect.

#### Dogfennau perchnogaeth

Os ydych yn cynllunio unrhyw waith cyfalaf, neu'n bwriadu prynu tir, adeiladau, neu gasgliadau, darparwch gopïau o unrhyw ddogfennau perchnogaeth perthnasol. Er enghraifft, dogfennau perchnogaeth y Gofrestrfa Tir, neu brydles neu benawdau telerau.

#### Dogfennau ategol Menter Treftadaeth

- arfarniad datblygu
- datganiad gweithgareddau

## Datganiad

### Cadarnhau'r datganiad

Rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr ansoddol i'n helpu datblygu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Gallai hyn amrywio o arolwg 20 munud i gyfweliad 2 awr.

Ticiwch y blwch hwn os hoffech gymryd rhan yn ein hymchwil, neu i gael mwy o wybodaeth. [Blwch ticio]

Rwyf wedi darllen y datganiad ac yn cytuno iddo. [Blwch ticio]

**a) Diogelu Data**

Rydym yn ymrwymedig i fod mor agored a thryloyw â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir yngl?n â sut rydym yn asesu ac yn gwneud penderfyniadau ar ein grantiau a sut y byddwn yn defnyddio eich ffurflen gais a'r dogfennau eraill rydych yn eu rhoi i ni. Rydym yn dilyn yr holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data sy'n berthnasol ac mewn grym o bryd i'w gilydd (y 'ddeddfwriaeth Diogelu Data'). Fel y diffinnir gan y ddeddfwriaeth Diogelu Data mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn rheolydd data. Mae ein Polisi Preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ein Swyddog Diogelu Data. Gellir dod o hyd iddo ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Yn rhan o'r broses ymgeisio, byddwn yn casglu'ch enw, eich gwybodaeth gyswllt a'ch swydd yn y sefydliad rydych yn ei gynrychioli. Efallai y byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth hon gydag un o'r ymgynghorwyr ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi os byddant yn cael eu penodi i roi cefnogaeth i chi ar eich prosiect. Nid ydym yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd partïon sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE.

Efallai byddwn yn defnyddio'ch ffurflen gais a dogfennau eraill a roddwch i ni, a'r data a gynhwysir yn:

- Benderfynu a fyddwn ni'n rhoi grant i chi.
- Darparu copïau i unigolion neu sefydliadau eraill sy'n helpu ni i asesu, monitro a gwerthuso grantiau.
- Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda ni sydd â diddordeb dilys mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri Genedlaethol neu raglenni ariannu penodol.
- Cadw mewn cronfa ddata a defnyddio at ddibenion ystadegol.
- Os byddwn ni'n cynnig grant i chi, byddwn ni'n cyhoeddi gwybodaeth amdanoch chi sy'n ymwneud â'r gweithgaredd rydym wedi'i ariannu, gan gynnwys swm y grant a'r gweithgaredd yr oedd i dalu amdano. Efallai y bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos yn ein datganiadau i'r wasg, yn ein cyhoeddiadau printiedig ac ar-lein, ac yng nghyhoeddiadau neu ar wefannau adrannau llywodraeth perthnasol ac unrhyw sefydliadau partner sydd wedi ariannu'r gweithgaredd gyda ni.
- Os byddwn yn cynnig grant i chi, byddwch yn cefnogi ein gwaith o ddangos gwerth treftadaeth drwy gyfrannu (pan ofynnir i chi) at weithgareddau cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod y byddwn yn darparu ariannu ar ei gyfer a chymryd rhan mewn gweithgareddau i rannu dysgu, y byddwn o bosibl yn cysylltu grantïon eraill â chi i wneud hynny. Fe allai hyn gynnwys rhannu eich gwybodaeth ac unrhyw gyhoeddusrwydd dilynol â dosbarthwyr partner trydydd parti.

**b) Rhyddid Gwybodaeth**

Fel sefydliad cyhoeddus rydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 sy'n rhoi hawl mynediad i'r cyhoedd i'r wybodaeth a ddaliwn, oni bai bod unrhyw eithriadau'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gofnodedig a ddarparwyd i ni gan ein hymgeiswyr a grantïon.

Pan fyddwch yn cwblhau'r Datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais, rydych yn cadarnhau nad oes gennych chi unrhyw wrthwynebiad i ni ryddhau'r ffurflen gais ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwch i ni i unrhyw un sy'n gofyn am weld nhw ar ôl i'ch cais gwblhau'r broses asesu. Os oes unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau iddi fod ar gael yn gyhoeddus, gofynnir i chi esbonio eich rhesymau isod:

[Blwch testun]

Os byddwn yn derbyn cais am wybodaeth byddwn bob amser yn ymgynghori â chi'n gyntaf ac yn cymryd eich sylwadau i ystyriaeth, a byddwn yn cymhwyso’r eithriadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Fodd bynnag, ni sy'n penderfynu a fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth neu'n ei dal yn ôl ac ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod yr ydych yn ei ddioddef o ganlyniad i ni gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am waith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

[Ticiwch y blwch os hoffech chi gael eich hysbysu am ein gwaith]

- Cadarnhaf fod y sefydliad sydd wedi'i enwi ar y cais hwn wedi rhoi'r awdurdod i mi gwblhau'r cais hwn ar ei ran.
- Cadarnhaf fod y gweithgaredd yn y cais yn dod o dan ddibenion a phwerau cyfreithiol y sefydliad.
- Cadarnhaf fod gan y sefydliad y p?er, os dyfernir grant iddo, i dderbyn y grant ac i'w dalu'n ôl.

- Cadarnhaf fod yr wybodaeth yn y cais hwn yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.
- Rwyf yn caniatáu i’m data personol gael ei ddefnyddio fel y disgrifiwyd ac yn deall, os bydd y gofyniad yn newid o hwnnw a ddisgrifiwyd, y rhoddir gwybod i mi cyn gynted â phosibl.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Dyddiadau cau ymgeisio: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol dros £250,000

**Tudalen wedi ei diweddaru: 30 Ionawr 2024**

## Dyddiadau cau ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol dros £250,000 a phryd y gallwch ddisgwyl penderfyniad

- hanner dydd (12pm), 16 Tachwedd 2023, i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mawrth 2024
- hanner dydd (12pm), 29 Chwefror 2024, i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mehefin 2024
- hanner dydd (12pm), 30 Mai 2024, i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Medi 2024
- hanner dydd (12pm), 15 Awst 2024, i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Rhagfyr 2024
- hanner dydd (12pm), 21 Tachwedd 2024, i dderbyn penderfyniad erbyn diwedd Mawrth 2025

Sylwer: ar gyfer ceisiadau grant o dan £250,000 nid oes dyddiadau cau. Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais a'r holl ddogfennau ategol cywir, byddwn yn asesu eich cais ac yn rhoi penderfyniad i chi ymhen wyth wythnos.

# Derbyn Grant: £250,000 i £10miliwn

30/01/2024
30/01/2024
See all updates
Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio sut y byddwch yn derbyn eich Grant. Mae hefyd yn esbonio beth rydym yn ei ddisgwyl gennych cyn, yn ystod ac ar ôl ei dderbyn.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 21 Awst 2024. Gweld pob diweddariad.

## Cyflwyniad

Ar ôl i'ch Grant gael ei ddyfarnu i chi, mae'n bwysig deall y camau nesaf y mae'n rhaid i chi eu cymryd. Mae’r arian y byddwch yn ei dderbyn yn arian cyhoeddus gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, ac mae'n rhaid iddo gael ei reoli mewn ffordd atebol.

Bydd angen i chi ddarllen a deall y gofynion a amlinellir yn:

- yr arweiniad Derbyn Grant hwn
- eich Cais wedi'i gwblhau
- yr Arweiniad Ymgeisio
- yr arweiniad Menter Treftadaeth (os yn berthnasol)
- Arweiniad Arall perthnasol yn adrannau Ariannu ac Arfer da y wefan hon
- y Contract Grant (gan gynnwys ein diffiniadau)

Mae eich Cytundeb Grant yn cynnwys:

- eich Llythyr Hysbysiad o Grant
- ein Telerau Grant Safonol
- unrhyw Amodau Grant Ychwanegol

- eich dogfen Caniatâd i Ddechrau wedi'i llofnodi

Bydd hyn yn eich helpu sicrhau bod eich Prosiect yn cydymffurfio â'n gofynion.

Ar ôl darllen y dogfennau hyn, os oes gennych gwestiynau neu bryderon sydd heb eu hateb, cysylltwch â ni am gefnogaeth bellach. Eich pwynt cyswllt cyntaf â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw eich Rheolwr Buddsoddi.

Noder, mae'r geiriau mewn priflythrennau yn yr arweiniad hwn yn adlewyrchu'r diffiniadau yn y Telerau Grant Safonol.

# Llinell amser y prosiect

Bydd eich Prosiect fel arfer yn mynd trwy ddau gam: Cam Datblygu o hyd at ddwy flynedd, sy'n eich galluogi i weithio ar eich cynnig prosiect, a Cham Cyflwyno o hyd at bum mlynedd.

### Cam Datblygu

1. dod i gyfarfod dechrau arni y Cam Datblygu
2. cyflwyno'ch dogfennau Caniatâd i Ddechrau o fewn **chwe mis** i dderbyn y dyfarniad
3. cwblhau Adolygiad o'r Cam Datblygu
4. cyflwyno Cais Cam Cyflwyno
5. cyflwyno'r Adroddiad Cwblhau a'r Gwerthusiad o fewn **tri mis** i gwblhau Cam Datblygu eich prosiect

### Cam Cyflwyno

1. dod i gyfarfod dechrau arni y Cam Cyflwyno
2. cyflwyno'ch dogfennau Caniatâd i Ddechrau o fewn **chwe mis** i dderbyn y dyfarniad
3. cyflwyno eich Prosiect fel y cytunwyd
4. cyflwyno'r Adroddiad Cwblhau a'r Gwerthusiad o fewn **tri mis** i gwblhau Cam Cyflwyno eich prosiect
5. cydymffurfio â'ch Contract Grant am y cyfnod a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant

Os cafodd eich Cais ei roi ar y llwybr cyflym, byddwn yn cytuno ar amserlen briodol gyda chi.

# Ar ôl i'ch Grant gael ei ddyfarnu

Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu cyfarfod dechrau arni. Yn y cyfarfod hwn mae'n bosibl y cewch eich cyflwyno i ymgynghorydd o'n Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi (RoSS), a fydd yn eich cefnogi i ddatblygu neu gyflwyno agweddau ar eich prosiect neu'n helpu i adolygu risgiau.

Gall ymgynghorydd RoSS roi cyngor cyffredinol ar reoli prosiect, neu ar feysydd penodol megis rheoli adeiladwaith, cynllunio busnes, yr amgylchedd naturiol, ennyn diddordeb y cyhoedd ac asedau digidol.

Os teimlwn y gallai'r cymorth hwn fod o fudd i'ch Prosiect, byddwn yn llunio briff ar gyfer yr ymgynghorydd, yn penderfynu ar hyd y comisiwn ac yn comisiynu'r ymgynghorydd yn ffurfiol. Mae'r ymgynghorydd yn cael ei benodi a'i dalu gennym a bydd yn adrodd i ni drwy gydol eich Prosiect. Noder na all ymgynghorwyr RoSS gymeradwyo unrhyw newidiadau i'ch Prosiect.

Diben y cyfarfod dechrau arni yw:

- egluro Gwaith y Cam Datblygu
- cytuno ar drefniadau rheoli prosiect, caffael a rhaglennu'r Cam Datblygu
- nodi gofynion adrodd, monitro a gwerthuso eich Prosiect
- trafod unrhyw bwyntiau cyfreithiol, megis perchnogaeth, trwyddedau ar gyfer gwaith neu reoli cymhorthdal
- sicrhau bod ariannu yn ei le ar gyfer y cam hwn
- trafod cydnerthedd sefydliadol

Byddwn yn cytuno ar strwythur adrodd ar gyfer pryd y dylech gyflwyno diweddariadau Prosiect a phenderfynu pryd y bydd eich Adolygiad o'r Cam Datblygu'n debygol o ddigwydd.

# Caniatâd i ddechrau

Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar eich Prosiect hyd nes y byddwch wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gennym i wneud hynny.

Byddwch yn derbyn e-bost yn gofyn i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i'ch galluogi i ddechrau ar eich Prosiect.

Fel arfer byddwn yn disgwyl i chi gyflwyno'r dogfennau y gofynnir amdanynt yn y cam hwn o fewn tri mis i ddyddiad eich Llythyr Hysbysiad o Grant. Os bydd oedi sylweddol ac nad yw'r dogfennau wedi'u derbyn o fewn chwe mis mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu dileu eich cynnig Grant.

Cyn y gallwn roi Caniatâd i Ddechrau Cam Datblygu neu Gyflwyno eich Prosiect i chi a rhyddhau eich arian Grant, bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel y bo angen:

- prawf o berchnogaeth rhydd-ddaliad neu brydles (ar gyfer pob prosiect cyfalaf, os bu unrhyw newidiadau ers cyflwyno'ch Cais)
- manylion caniatadau a/neu drwyddedau statudol sydd eu hangen ac a gafwyd, os yn berthnasol
- tystiolaeth o gyfraniadau arian parod a sicrhawyd fel yr amlinellwyd yn eich cais
- dadansoddiad o gostau ac adroddiad llif arian parod sy'n amlinellu Cam Datblygu neu Gyflwyno eich Prosiect, fel y bo'n berthnasol
- braslun o strwythur rheoli prosiect eich sefydliad a'ch dulliau o ddewis ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr
- amserlen neu raglen waith ar gyfer y prosiect sy'n amlinellu Cam Datblygu neu Gyflwyno eich Prosiect, fel y bo'n berthnasol
- cynnig ar gyfer sut y byddwch yn rheoli gwaith caffael sy'n digwydd yng Ngham Datblygu neu Gyflwyno eich Prosiect, fel y bo'n berthnasol
- unrhyw fanylion eraill y teimlwn y gallent fod yn berthnasol i'ch Prosiect

- unrhyw gyngor rheoli cymhorthdal rydych wedi'i dderbyn

Rhaid i chi ddweud wrthym a fu unrhyw newidiadau sylweddol i'ch Prosiect ers i chi gyflwyno eich Cais, er enghraifft newidiadau i bartneriaid y prosiect neu gyfraniadau arian parod, gan ddarparu'r dystiolaeth ddiweddaraf fel y bo'n berthnasol.

Yna bydd gofyn i chi ddarparu manylion dau lofnodai cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad. Bydd angen iddynt ddarllen a chytuno i'r Telerau Grant Safonol ac unrhyw Amodau Ychwanegol a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant. Os yw eich Grant yn £5miliwn a mwy byddwn yn paratoi contract wedi'i deilwra yn lle'r Llythyr Hysbysiad o Grant.

Unwaith y byddwn wedi prosesu a chymeradwyo'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn ystod y cam hwn, byddwn yn anfon e-bost yn cadarnhau bod gennych ganiatâd i ddechrau gweithio ar eich Prosiect. Os byddwch yn dechrau unrhyw waith cyn cael y caniatâd hwn, fe fydd ar eich menter eich hun ac ni fyddwn yn talu unrhyw gostau a ysgwyddir.

# Sut y byddwn yn talu eich Grant

Bydd gofyn i chi ddarparu eich manylion banc yn eich cyfrif ar-lein, a bydd y manylion hyn wedyn yn cael eu gwirio gan ein tîm cyllid.

## Grantiau datblygu hyd at £250,000

Byddwn yn talu eich Grant mewn tri rhandaliad.

Unwaith y bydd eich manylion banc wedi'u gwirio, mae'r taliad cyntaf yn cael ei brosesu a thelir 50% o'r Grant i'r cyfrif banc y gwnaethoch ddarparu manylion amdano.

Ar ôl i chi wario'r 50% cyntaf o gostau eich Prosiect, byddwch yn gallu cyflwyno cais am daliad ar-lein am y 30% nesaf o'ch Grant. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos sut y gwariwyd y 50% cyntaf o gostau eich Prosiect.

Byddwn yn talu'r 20% sy'n weddill o'ch Grant mewn ôl-daliadau unwaith y byddwch wedi gwario holl gostau eich Prosiect. Rhaid i chi gyflwyno cais am daliad terfynol a thystiolaeth i ddangos sut y gwariwyd y taliad blaenorol o 30% o'ch Grant a sut y gwariwyd yr 20% terfynol hwn. Rhaid i chi hefyd ddarparu'r Adroddiad Cwblhau, Adroddiad Gwerthuso a thystiolaeth o gydnabod y Grant fel y cytunwyd yn eich Contract Grant.

Os yw eich Prosiect yn ymwneud â chaffael treftadaeth, byddwn yn talu swm llawn y Grant sydd ei angen ar gyfer y pryniant mewn un taliad.

Rhaid anfon Adroddiad Cwblhau ac Adroddiad Gwerthuso atom o fewn tri mis o gwblhau eich Prosiect ac erbyn Dyddiad Dod i Ben eich Grant. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gofyn am ddiweddariadau ychwanegol ar eich cynnydd yn ystod oes eich Prosiect mewn modd sy'n eich cefnogi orau ac sy'n adlewyrchu risg y Prosiect.

## Grantiau datblygu dros £250,000 a phob grant cyflwyno

Ar gyfer y grantiau hyn byddwn yn gwneud taliadau mewn ôl-daliadau.

Byddwn hefyd yn cadw'r 10% olaf o'ch Grant hyd nes y byddwn yn fodlon bod y Prosiect wedi'i gwblhau, bod y Grant wedi'i wario'n briodol, a'ch bod wedi anfon eich Adroddiad Gwerthuso a phrawf o'ch cydnabyddiaeth o'r ariannu atom.

I hawlio'r 10% olaf o'ch Grant rhaid i chi gyflwyno Adroddiad Cwblhau o fewn tri mis i gwblhau eich Prosiect ac erbyn Dyddiad Dod i Ben eich Grant.

Byddwn yn talu eich Grant fel canran o gostau eich Prosiect. Rydym yn disgrifio hyn fel canran talu, sydd wedi'i hesbonio yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant. Er enghraifft, os byddwch yn darparu tystiolaeth o wariant gwerth cyfanswm o £50,000 a bod eich canran Grant yn 85%, eich taliad fydd £42,500.

Os yw eich Prosiect yn ymwneud â chaffael treftadaeth, byddwn yn talu swm llawn y Grant sydd ei angen ar gyfer y pryniant mewn un taliad.

Anelwn at ryddhau eich taliad Grant o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais am daliad a'r dogfennau ategol gofynnol.

# Adolygiad o'r cam datblygu

Byddwn yn cynnal adolygiad ffurfiol o'ch Cam Datblygu unwaith y bydd cynigion amlinellol a chostau wedi'u datblygu. Bydd amseriad yr adolygiad yn cael ei drafod yn eich cyfarfod dechrau arni.

Prif ddiben yr adolygiad yw:

- cadarnhau bod y Prosiect yn cael ei ddatblygu'n unol â'r Dibenion Cymeradwy a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant
- rhoi diweddariad ar gostau a chynnydd wrth godi arian
- rhoi diweddariad ar gydymffurfiaeth â'n gofynion grant, er enghraifft, cynnydd gyda thrafodaethau ynghylch perchnogaeth
- trafod a yw'r risgiau a ysgwyddir yn ystod y Prosiect yn hylaw
- trafod a yw eich Prosiect yn cydymffurfio â Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022 a rhoi gwybod i ni am unrhyw gyngor annibynnol rydych wedi'i dderbyn er mwyn ein cynorthwyo gyda'n hasesiad Rheoli Cymhorthdal

Bydd angen i chi gyflwyno diweddariad Prosiect cyn yr adolygiad, fel yr esbonnir yn adran diweddariadau Prosiect yr arweiniad hwn.

Os bu newidiadau sylweddol i'ch Prosiect, mae'r adolygiad yn rhoi'r cyfle i ni drafod unrhyw risgiau rydych wedi'u nodi, unrhyw feysydd sy'n destun pryder a lle mae angen gwneud unrhyw waith pellach.

Os byddwn yn codi pryderon ynghylch hyfywedd eich Prosiect neu'n teimlo nad yw'n gweddu i'r Dibenion Cymeradwy, mae'n bosibl y byddwn yn methu eich Adolygiad o'r Cam Datblygu. Os byddwch yn methu eich Adolygiad o'r Cam Datblygu, ni fydd modd i chi fwrw ymlaen â'ch Prosiect

na gwneud cais Cam Cyflwyno.

# Gwneud cais am grant cyflwyno

Ar ôl cwblhau eich Adolygiad o'r Cam Datblygu'n llwyddiannus, gallwch ddechrau paratoi ar gyfer eich cais am grant cyflwyno.

Bydd eich Cais mewn cystadleuaeth â phrosiectau eraill yn y camau datblygu a chyflwyno. Nid yw dyfarnu grant datblygu'n gwarantu y byddwch yn derbyn dyfarniad grant cyflwyno.

Mae terfynau amser chwarterol ar gyfer ceisiadau.

Os dyfernir grant cyflwyno i chi, bydd gennych hyd at bum mlynedd i gwblhau eich prosiect oni bai ein bod wedi cytuno ar gyfnod prosiect hwy gyda chi.

## Arwystl cyfreithiol (Cam Cyflwyno yn unig)

Os ydych yn gorff nad yw'n gorff cyhoeddus, mae eich Prosiect Cam Cyflwyno'n cynnwys gwaith cyfalaf neu gaffaeliad, ac mae eich grant dros £250,000, ein polisi yw cymryd arwystl dros yr eiddo a ariennir gan y grant.

Fel arfer mae arnom angen arwystl rheng gyntaf. Fodd bynnag, os oes gennych arwystl eisoes gyda benthyciwr masnachol bydd angen arwystl ail reng arnom. Os oes gennych arwystl eisoes gydag ariannwr arall/arianwyr eraill bydd angen arwystl rheng gyfartal arnom.

Os ydych yn gorff cyhoeddus megis awdurdod lleol neu brifysgol rydym yn gofyn am gyfyngiad ar eich teitl gyda'r Gofrestrfa Tir er mwyn sicrhau eich bod yn ceisio caniatâd gennym cyn ymgymryd ag unrhyw drafodion yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r Eiddo a ariennir gan y grant, megis rhoi les.

# Cwblhau eich Prosiect

Rhaid i chi gyflwyno Adroddiad Cwblhau o fewn tri mis i gwblhau eich Prosiect ac erbyn Dyddiad Dod i Ben y Grant.

Byddwch yn derbyn Dyddiad Dod i Ben y Grant ar gyfer Camau Datblygu a Chyflwyno eich Prosiect yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant, yn seiliedig ar amserlen y prosiect y gwnaethoch ei nodi yn eich Cais. Rhaid i chi gwblhau pob cam o'ch Prosiect ac anfon eich Adroddiad Cwblhau atom erbyn Dyddiad Dod i Ben y Grant.

Os byddwch yn profi oedi wrth gyflwyno'ch Prosiect, gallwch ofyn am estyniad i Ddyddiad Dod i Ben y Grant. Ni allwn warantu estyniad, ac os bydd eich Prosiect yn cymryd mwy nag uchafswm o dwy flynedd ar gyfer eich Cam Datblygu a phum mlynedd ar gyfer eich Cam Cyflwyno, mae'n bosibl y byddwn yn cau eich Grant ac yn gofyn am ad-daliad o'r cyfan neu ran o'r arian y gwnaethoch ei dderbyn.

Pan fyddwn wedi derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol i gofnodi bod pob cam o'ch Prosiect wedi'i gwblhau, byddwn yn cadarnhau hyn gyda chi. Gelwir hyn yn Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect

ffurfiol.

Wrth gwblhau rydym yn golygu:

- bod eich Prosiect wedi'i orffen, a'ch bod wedi cyflawni'ch Dibenion Cymeradwy
- eich bod wedi cydnabod eich Grant yn briodol
- eich bod wedi gwerthuso eich Prosiect a chyflwyno Adroddiad Cwblhau
- y gallwch ddarparu ffotograffau digidol manylder uchel sy'n dogfennu eich Prosiect
- os oedd eich Prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, eich bod wedi darparu Tystysgrif Cwblhau Ymarferol
- os yn berthnasol, eich bod wedi rhestru Allbynnau Digidol y prosiect a darparu cyfeiriad gwe (URL) y wefan neu wefannau lle gellir cael mynediad iddynt
- os yn berthnasol, rydych wedi ffeilio'ch cynllun cadwraeth gyda'r llyfrgell gyhoeddus, archif a/neu gronfa ddata berthnasol, ac wedi rhannu'r manylion gyda'ch Rheolwr Buddsoddi

Mae'n bwysig deall bod eich Contract Grant yn dod i rym unwaith y byddwch chi wedi llofnodi a'n bod ni wedi prosesu eich Caniatâd i Ddechrau. Mae'r Contract Grant yn parhau mewn grym ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect ac mae hyd y cyfnod y bydd yn parhau mewn grym yn dibynnu ar y gweithgareddau craidd a gyflawnir gan eich Prosiect. Bydd hyn yn cael ei ddisgrifio yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant.

Ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar **weithgareddau**, er enghraifft arddangosfa neu ddigwyddiad heb unrhyw allbynnau digidol neu waith cyfalaf, daw'r Contract Grant i ben ar Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect.

Ar gyfer prosiectau sy'n creu **Allbynnau Digidol**, er enghraifft creu gwefan, bydd y Contract Grant mewn grym o'r Caniatâd i Ddechrau tan 10 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect ar gyfer Grantiau rhwng £250,000 a £5miliwn neu 20 mlynedd ar gyfer Grantiau rhwng £5miliwn a £10miliwn.

Ar gyfer prosiectau **cyfalaf**, er enghraifft gwaith adeiladu o'r newydd neu adfer, bydd y Contract Grant mewn grym o'r Caniatâd i Ddechrau tan 20 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect neu 10 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect os ydych wedi gwneud cais am grant Menter Treftadaeth.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â **phrynu** eitem treftadaeth, tir neu adeilad, bydd y telerau ac amodau'n berthnasol am gyfnod amhenodol. Os, yn y dyfodol, y byddwch am werthu, dinistrio neu waredu'r hyn yr ydych wedi'i brynu, rhaid i chi ofyn am ein caniatâd a gallwn hawlio'ch Grant cyfan neu ran ohono'n ôl neu ofyn am gyfran o'r enillion yn gymesur â gwerth y Grant Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gaffael adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth yn yr Arweiniad Ymgeisio.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais am daliad terfynol ar gyfer pob cam, ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau pellach am daliadau ar gyfer y cam hwnnw gennych. Dylech felly gytuno ar eich cyfrifon terfynol gyda'ch contractwyr a'ch cyflenwyr cyn i chi wneud cais am y taliad Grant terfynol.

Os byddwch yn gwario llai na'ch costau cytunedig a bod eich Prosiect yn cael ei gwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw arian sydd heb ei wario o'ch Grant i ni. Byddwn yn cytuno â chi ar y swm sydd i'w ddychwelyd fel rhan o gwblhau eich Prosiect. Noder, ni ellir defnyddio ariannu o'r Cam Datblygu yn y Cam Cyflwyno.
Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi o bryd i'w gilydd ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau gan gynnwys drwy ein harolygon cwsmeriaid.

# Gweithio gyda ni

Rydym yn eich annog i gadw mewn cysylltiad â ni, fel y gallwn glywed am y pethau rydych yn eu cyflawni drwy gydol eich Prosiect.

Er nad yw bob amser yn bosibl i ni ymweld neu gwrdd â’r sefydliadau a ariannwn, gofynnir i chi ein gwahodd i ddigwyddiadau ac agoriadau prosiect allweddol a byddwn yn ceisio anfon cynrychiolydd lle bo modd.

Rydym yn deall y gall problemau neu faterion arwyddocaol godi yn ystod Prosiect. Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw broblemau o fewn eich sefydliad
- newidiadau i gostau'r prosiect
- oedi difrifol
- methu â chyflawni eich Dibenion Cymeradwy neu gyflwyno yn erbyn ein hegwyddorion buddsoddi
- methu â chynnal y Defnydd Cymeradwy

Rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl, fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol.

Rhaid i chi ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau am wybodaeth ac am drafod unrhyw newidiadau sylweddol i'ch Prosiect gyda ni. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau i bolisi neu arferion grant y Loteri Genedlaethol a allai effeithio ar eich ariannu.

Ni allwch newid Dibenion Cymeradwy neu Ddefnydd Cymeradwy eich Prosiect heb gael caniatâd ysgrifenedig gennym ymlaen llaw. Os ydych am i ni ystyried unrhyw newidiadau i’ch Dibenion Cymeradwy neu Ddefnydd Cymeradwy, rhaid i chi anfon manylion ysgrifenedig y rhesymau dros y cais ac esbonio sut y bydd yn effeithio ar:

ansawdd eich Prosiect

- cost eich Prosiect
- yr amser sydd ei angen arnoch i gwblhau eich Prosiect
- hyfywedd eich Prosiect yn y dyfodol
- mynediad cyhoeddus i'r Eiddo a ariennir gan y Grant yn y dyfodol
- rheoli a chynnal a chadw'r Eiddo a ariennir gan y Grant yn y dyfodol

Mae'n bosibl wedyn y byddwn yn ailasesu'r Prosiect neu'n cymryd unrhyw gamau eraill yr ystyriwn eu bod yn angenrheidiol. Efallai y byddwn yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer y newid dim ond os byddwch yn cytuno i delerau ac amodau ychwanegol fel y bo angen. Gall hyn gynnwys ei gwneud

yn ofynnol i chi lofnodi gweithred amrywio neu weithred drosglwyddo'r Contract Grant os bydd newid mewn perchnogaeth.

Rhaid i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt gyda ni fod yn ysgrifenedig a dylid eu hadrodd hefyd yn eich diweddariadau Prosiect ac/neu Adroddiad Cwblhau fel y bo'n berthnasol.

Os oes angen i chi wneud mân newidiadau i'r gyllideb a symud arian rhwng y penawdau cost a ddarparwyd yn eich Cais er mwyn cyflawni eich Dibenion Cymeradwy, gallwch adrodd ar hyn yn eich diweddariad Prosiect. Rhaid i chi ddangos sut mae'r newidiadau hyn wedi eich helpu i gyflwyno eich Prosiect.

Rhaid i chi gysylltu â ni ymlaen llaw os ydych am gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r gyllideb ac ar gyfer unrhyw wariant mawr o'ch cyllideb wrth gefn.

Os bydd cyfanswm cost y prosiect yn cynyddu yn ystod y Prosiect, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cynyddu eich Grant. Yn yr achos hwn bydd yn rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bellach a gaiff ei hadolygu ar sail yr achos unigol.

## Diweddariadau prosiect

Yn eich cyfarfod dechrau arni, byddwn yn cytuno gyda chi faint o ddiweddariadau Prosiect y disgwyliwn i chi eu darparu wrth i chi gyflwyno'ch Prosiect. Byddwn yn eich hysbysu am yr amlder sy'n eich cefnogi orau ac sy'n adlewyrchu risg y Prosiect.

Gan ddefnyddio'r diweddariadau hyn, byddwn yn monitro cynnydd eich Prosiect i gadarnhau ei fod yn cyflwyno'r cynllun prosiect a fanylwyd yn eich Cais a'r Dibenion Cymeradwy a nodwyd yn eich dogfennau Caniatâd i Ddechrau.

Dylai eich diweddariadau prosiect gynnwys y canlynol:

- ffotograffau yn dangos cynnydd eich Prosiect (gorfodol)
- cofnod o weithgareddau neu ddigwyddiadau rydych wedi’u trefnu (gorfodol)
- disgrifiadau swydd/manylion recriwtio (gorfodol os yn berthnasol)
- adroddiadau caffael (gorfodol os yn berthnasol)
- cynnydd o ran cyrraedd cerrig milltir allweddol, er enghraifft penodi contractwyr neu staff
- unrhyw faterion yn codi er mwyn i ni allu ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol

Wrth ddarparu diweddariad Prosiect cyn eich Adolygiad o'r Cam Datblygu, efallai y bydd yn briodol cynnwys tystiolaeth ychwanegol, gan ddibynnu ar natur eich prosiect.

Gall hyn gynnwys:

- cynllun gweithgareddau neu gynllun gweithredu ardal
- cynllun cost yn unol â cham 2 RIBA neu gyfwerth
- lluniadau a chynlluniau'n unol â cham 2 RIBA neu gyfwerth
- cynllun busnes
- cynllun cadwraeth
- tystiolaeth o ariannu partneriaeth yn y cam cyflwyno

- sefyllfa o ran manylion perchnogaeth ar Eiddo
- amserlen ar gyfer cwblhau cam cyflwyno eich prosiect
- cofrestr risgiau wedi'i diweddaru ar gyfer eich prosiect
- cyngor rheoli cymhorthdal arbenigol a ddarparwyd i chi mewn perthynas â'r Prosiect

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am baratoi’r dogfennau hyn yn adran Dogfennau ategol yr Arweiniad Ymgeisio.

### Sut i gyflwyno diweddariad Prosiect

I ddarparu diweddariad Prosiect, mewngofnodwch i'n gwasanaeth ar-lein ac agorwch y prosiect yr hoffech roi diweddariad ar ei gyfer.

Yn y cam hwn, bydd modd i chi gyflwyno cais am daliad neu ddarparu diweddariad Prosiect. Wrth ddewis 'Rhoi ddiweddariad prosiect', cewch eich gofyn i ateb cwestiynau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eich Prosiect.

Ar ôl i chi ddarparu'r wybodaeth hon ac uwchlwytho tystiolaeth fel y bo angen, byddwch yn gallu cyflwyno eich diweddariad Prosiect.

## Darparu tystiolaeth o wariant

Rhaid i chi ddarparu anfonebau ar gyfer yr holl wariant grant dros £500. Dylai pob anfoneb a gyflwynir i ni fod yn glir, yn ddarllenadwy, ac ar gyfer gwaith cymwys tuag at y Prosiect yr ydym wedi cytuno i'w ariannu. Ni ddylent fod wedi'u difrodi na'u hystrywio.

Dylai'r anfoneb gael ei chyfeirio at y sefydliad sy'n cyflwyno'r cais am daliad.

Rhaid i anfonebau gynnwys:

- rhif anfoneb
- y dyddiad y cawsant eu codi
- y dyddiad y disgwylir y taliad a'r telerau talu
- sut mae'r taliad i gael ei wneud ac i bwy
- manylion cwmni, gan gynnwys enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, rhif cwmni, rhif cofrestru TAW (os yn gofrestredig ar gyfer TAW)
- disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd
- y swm gros (heb TAW), swm y TAW os yn gofrestredig ar gyfer TAW a'r (cyfanswm) net sy'n ddyledus

Gallwch ddarparu tabl ar wahân yn manylu ar gostau o dan £500, gan gynnwys y cyfanswm hwn fel un llinell gwariant yn eich cais am daliad.

Dylid dangos tystiolaeth o gostau cyflog trwy ddarparu slipiau cyflog neu lythyr wedi'i lofnodi gan aelod o'ch sefydliad sydd ag awdurdod ariannol.

Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill. Eich cyfrifoldeb chi yw ceisio cyngor priodol ynghylch adennill TAW.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich Prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau os ydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

# Caffael

Ym mhob prosiect, waeth p'un a yw'n Gam Datblygu neu'n Gam Cyflwyno, pryd bynnag y byddwch yn defnyddio eich Grant i brynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau, byddwn yn gofyn i chi roi manylion y caffaeliad i ni (sef y broses brynu, tendro a dethol). Os ydych eisoes wedi prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar gyfer eich Prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch chi hynny. Ni allwn dalu eich Grant os nad ydych wedi dilyn y drefn a ganlyn.

Os ydych yn gorff cyhoeddus neu os yw eich Prosiect yn destun deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus, mae'n rhaid i chi ddilyn y ddeddfwriaeth berthnasol.

Rhaid i weithdrefnau recriwtio ymgynghorwyr a chontractau fod yn deg ac yn agored a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth berthnasol. Dylai ffioedd unrhyw ymgynghorwyr neu weithwyr proffesiynol eraill y byddwch yn eu recriwtio yn ystod y Prosiect weddu i ganllawiau proffesiynol a bod yn seiliedig ar fanyleb ysgrifenedig glir. Os oes unrhyw un o'r contractwyr, cyflenwyr neu ymgynghorwyr y dymunwch eu penodi'n gysylltiedig, er enghraifft yn ffrindiau neu'n berthnasau agos, neu os oes unrhyw gysylltiad ariannol megis perchnogaeth ar y cyflenwyr hyn bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym ni'n gyntaf.

Os ydych yn ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i geisio cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Gallwch hefyd weld ein canllawiau ymarfer da caffael.

## Llai na £10,000

Os ydych yn prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau am £10,000 neu lai, nid oes angen i chi dendro’n agored am y rhain na chael dyfynbrisiau lluosog. Byddwn yn disgwyl i chi ddangos gwerth cyffredinol am arian.

## Rhwng £10,000 a £50,000

Dylech gael o leiaf tri thendr neu ddyfynbris cystadleuol ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau gwerth £10,000 neu fwy (heb gynnwys TAW) yr ydym wedi cytuno i'w hariannu.

Nid oes angen o reidrwydd i chi benodi'r contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfynbris isaf. Wrth benderfynu pwy i'w benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth am arian cyffredinol y mae'r tendr neu ddyfynbris yn ei ddarparu a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd.

## Mwy na £50,000

Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol. Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau yr ydych wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad ar ba un i'w dderbyn.

Nid oes angen o reidrwydd i chi benodi'r contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfynbris isaf. Wrth benderfynu pwy i'w benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth am arian cyffredinol y mae'r dyfynbris yn ei ddarparu a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd.

Mewn rhai amgylchiadau, nid oes angen i chi ddilyn gweithdrefn dendro gystadleuol a gallwch wahodd un sefydliad yn unig i dendro. Mae hyn yn wir os:

- yw cyfanswm pris y contract yn llai na £10,000
- yw cytundeb fframwaith yn ei le ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau a fu'n destun tendr cystadleuol yn flaenorol, ac mae’r nwyddau neu’r gwasanaethau'n uniongyrchol berthnasol i gwmpas y gwaith prosiect sydd i’w wneud
- os oes contract prosiect ar waith a fu'n destun tendr cystadleuol yn flaenorol, a'i fod yn rhesymegol i'w ymestyn i ddarparu gwaith ychwanegol ar y prosiect. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i chi gadarnhau:
    - yn achos gwaith cyfalaf, y gellir cymhwyso prisiau’r rhan fwyaf o elfennau gwaith, gan gynnwys rhagofynion, gorbenion ac elw yn uniongyrchol o’r contract presennol i’r gwaith newydd
    - bod y gwaith newydd yn llai o ran graddfa, ac o fath tebyg i waith y prif gontract
    - na fydd y contractwr yn hawlio costau tarfu neu ymestyn y prif gontract os cyflwynir y gwaith newydd
    - bod y contract presennol yn cyfyngu ar waith sy’n cael ei wneud gan eraill
- yw'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gofynnol yn unigryw fel y nodir mewn manyleb gofyniad heb frand ac nad yw'n bosibl eu caffael o ffynonellau eraill trwy dendr cystadleuol
- gallwch ddangos eich bod wedi ceisio tendro am y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau yn agored ac yn gystadleuol ond nad oeddech wedi derbyn digon o ddiddordeb. Roedd yr unig dendr a dderbyniwyd wedi'i gyflwyno gan ddarparwr gwasanaeth a oedd yn credu ei fod yn gwneud hynny mewn cystadleuaeth ag eraill
- yw'n waith brys lle gellir dangos y byddai’r amser a gymerir i ddod o hyd i dendrau'n peryglu’r prosiect ac yn ychwanegu’n sylweddol at gostau yn y pen draw
- nad yw'r cwmni sy'n darparu'r tendr unigol wedi'i gysylltu, naill ai trwy berchnogaeth neu drwy gysylltiadau teuluol, ag uwch gynrychiolwyr y grantï

Byddwn hefyd yn gofyn i chi ystyried gwerthoedd cymdeithasol wrth gaffael, gan gynnwys:

- cadwyni cyflenwi amrywiol
- gwell cyflogadwyedd a sgiliau
- cynhwysiad, iechyd meddwl a lles
- cynaladwyedd amgylcheddol
- cadwyni cyflenwi diogel

Dylech sicrhau bod unrhyw gontractwr/cyflenwr/ymgynghorydd neu bartner a allai fod yn cyfrannu at greu Allbynnau Digidol yn ymwybodol o'n gofyniad i brosiectau rannu'r rhain o dan Drwydded Priodoliad Creative Commons 4.0 Ryngwladol neu gyfwerth, a sicrhau bod gennych gytundeb i'r gwaith dilynol gael ei rannu yn y modd hwn. Lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid i chi geisio cytundeb ysgrifenedig i wneud trefniadau amgen gyda ni, er enghraifft defnyddio dewis arall o drwydded agored, cyn cyhoeddi unrhyw gontract gwaith.

## Grantiau cymunedol

Fel rhan o'ch Prosiect, efallai eich bod wedi gofyn i ni gyfrannu tuag at gronfa o arian y gallwch ei defnyddio i ariannu grwpiau neu sefydliadau eraill, yr ydym yn eu galw'n dderbynyddion grantiau cymunedol, i gwblhau darnau o waith a fydd yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich prosiect. Mae hwn yn cael ei alw'n grant cymunedol.

Cyn i chi lansio eich cynllun grant cymunedol, bydd angen i chi anfon manylion atom am eich prosesau ymgeisio, gwneud penderfyniadau a monitro cynnydd. Dylid anfon hwn at eich Rheolwr Buddsoddi a fydd yn ei adolygu a'i gymeradwyo.

Wrth wneud cais am daliad i ni, rhaid i chi gynnwys rhestr o dderbynyddion grant cymunedol fel tystiolaeth o wariant. Rhaid i'r rhestr gynnwys faint a ddyfarnwyd i bob grantï, dyddiad y penderfyniad i ddyfarnu'r grant, a rhaid iddi gael ei llofnodi gan ddau berson o'ch panel penderfyniadau grant cymunedol.

Chi sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd grantiau cymunedol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r telerau yr ydych wedi cytuno iddynt yn ystod eich cais am brosiect. Bydd angen i chi benderfynu sut y byddwch yn cadw mewn cysylltiad â phob derbynnydd grant cymunedol a pha wybodaeth yr hoffech ei gweld ganddynt. Gall hyn fod yn gymesur gan ddibynnu ar faint y grant ac am beth y cafodd ei ddyfarnu.

Dylech ddweud wrthym sut mae'r cynllun grant cymunedol yn dod yn ei flaen yn eich diweddariadau prosiect i ni a gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol grantiau cymunedol o fewn eich prosiect yn eich adroddiad cwblhau.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Telerau Grant Safonol: £250,000 a £10miliwn

30/01/2024
30/01/2024
See all updates
Telerau Grant Safonol sy'n berthnasol i Grantiau Cam Datblygu a Chyflwyno rhwng £250,000 a £10miliwn.

### Diffiniadau

**'chi', 'eich', 'rydych', 'byddwch'** – y sefydliad(au) y dyfarnwyd y Grant iddynt yn y Llythyr Hysbysiad o Grant ac unrhyw sefydliad sy'n cytuno i fod yn grantï ar y cyd ac i gydymffurfio â'r

Contract Grant.

**‘ni', 'ein', 'rydym', 'byddwn'** – Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa’r Dreftadaeth Genedlaethol (sy’n gweinyddu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ac arian grant arall ar ran cyrff eraill o bryd i’w gilydd).

**Adroddiad Cwblhau** – yr adroddiad sydd i'w gyflwyno erbyn Dyddiad Dod i Ben y Grant.

**Adroddiad Gwerthuso** – yr adroddiad y mae'n rhaid i chi ei anfon atom cyn i ni dalu rhandaliad olaf y Grant sy'n adrodd stori'r Prosiect, ei lwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd.

**Allbynnau Digidol** – yr holl ddeunydd sydd â chynnwys treftadaeth a grëwyd neu a gopïwyd i fformat digidol gennych chi neu ar eich rhan mewn cysylltiad â’r Prosiect.

**Amodau Grant Ychwanegol** – unrhyw amodau grant ychwanegol a nodir yn y Llythyr Hysbysiad o Grant.

**Arweiniad arall** – yr holl arweiniad arall sy’n berthnasol i’r Prosiect ar ein gwefan fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd.

**Arweiniad Ymgeisio** – y ddogfen sy’n disgrifio cwmpas y rhaglen ariannu a sut i wneud cais.

**Cais** – eich ffurflen Gais wedi’i chwblhau ac unrhyw ddogfennau neu wybodaeth a anfonwch atom i gefnogi’ch cais am Grant Cam Datblygu neu Gam Cyflwyno.

**Cam Cyflwyno** – gweithredu cam cyfalaf a/neu weithgareddau'r Prosiect.

**Cam Datblygu** – y gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu'r Prosiect hyd at gais Cam Cyflwyno, gan gynnwys cynhyrchu dyluniadau, cynlluniau a dogfennau eraill.

**Caniatâd i Ddechrau** – ein cadarnhad ysgrifenedig y gallwch ddechrau ar y Prosiect.

**Contract Grant** – yn cynnwys

- Llythyr Hysbysiad o Grant;
- Telerau Grant Safonol;
- unrhyw Amodau Grant Ychwanegol; a
- Ffurflen Caniatâd i Ddechrau wedi'i llofnodi

**Cyfnod y Cytundeb Grant** – hyd y Contract Grant a nodir yn y Llythyr Hysbysiad o Grant.

**Cyfraith Rheoli Cymhorthdal** - yn golygu’r cyfreithiau cymwys yn y DU sy’n ymwneud â dyfarnu cymorthdaliadau yn y DU ar ddyddiad y Cytundeb hwn ac wedi hynny, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022 a rheoliadau gweithredu perthnasol, arweiniad statudol a chyfraith achosion.

**Defnydd Cymeradwy** –

- ar gyfer prosiect Cam Datblygu mae hyn yn ei olygu defnyddio cynnyrch y Cam Datblygu i ddatblygu cais Cam Cyflwyno dilynol; neu

- ar gyfer prosiect Cam Cyflwyno mae hyn yn golygu sut y gwnaethoch ddweud y byddech yn defnyddio’r Eiddo yn eich Cais ar ôl Dyddiad Cwblhau’r Prosiect ac mae’n berthnasol tan ddiwedd Cyfnod y Contract Grant (gan ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau y byddwn efallai'n cytuno iddynt hyd at ryddhau unrhyw ran o'r Grant ac wedi hynny).

**Derbyn Grant** – yr arweiniad a gyhoeddwn i esbonio sut y byddwn yn talu’r Grant, yn monitro’r Prosiect ac yn cytuno ar newidiadau i’r Grant.

**Dibenion Cymeradwy** – mae’r Dibenion Cymeradwy yn crynhoi’r Prosiect a ddisgrifir yn eich Cais sy’n cynnwys naill ai’r Cam Datblygu neu’r Cam Cyflwyno ac sy'n dangos sut y bydd eich Prosiect yn cyflawni’r Egwyddorion Buddsoddi.

**Diwrnod Gwaith** – unrhyw ddydd ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ?yl banc mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

**Dyddiad Cwblhau'r Prosiect** – dyddiad yr e-bost a anfonwn atoch yn eich hysbysu bod y Prosiect wedi’i gofnodi’n gyflawn.

**Dyddiad Dod i Ben Grant** – y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i chi gyflawni'r Dibenion Cymeradwy fel y nodir yn y Llythyr Hysbysiad o Grant ac erbyn pryd y byddwch yn tynnu taliad terfynol y Grant i lawr.

**Egwyddorion Buddsoddi** – y pedair egwyddor fuddsoddi a nodir yn yr Arweiniad Ymgeisio y mae'n rhaid i bob Prosiect eu hystyried, ac sy'n llywio ein penderfyniadau.

**Eiddo** – unrhyw eiddo yr ydych yn ei brynu, ei greu, ei dderbyn neu'n ei adfer, neu eiddo a ariennir fel arall gan y Grant gan gynnwys Allbynnau Digidol, hawliau eiddo deallusol ac unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cynhyrchu neu'n eu harchebu fel rhan o’r Prosiect.

**Eiddo Trydydd Parti** – unrhyw eiddo a nodir yn y Cais sy’n perthyn i Drydydd Parti neu’n cael ei reoli ganddo.

**Ffurflen Caniatâd i Ddechrau** – y ffurflen rydych yn ei chyflwyno i ni yn gofyn am ganiatâd i ddechrau ar y Prosiect.

**Gofynion Perchnogaeth Trydydd Parti** – y gofynion a nodir yn yr Arweiniad Ymgeisio sy’n ymwneud â’r trefniadau cytundebol y disgwyliwn i chi ymgymryd â nhw gyda Thrydydd Parti.

**Grant** – y swm a nodir yn y Llythyr Hysbysiad o Grant ar gyfer y Cam Cyflwyno.

**Llythyr Hysbysiad o Grant** – y llythyr yn cadarnhau ein Grant i chi.

**Prosiect** – y dibenion yr ydym wedi’u cymeradwyo fel y’u nodir yn y Cais (gan gymryd unrhyw newidiadau yr ydym ni a chi wedi cytuno arnynt yn ysgrifenedig i ystyriaeth hyd at ddyddiad ein penderfyniad i ddyfarnu’r Grant i chi ac unrhyw newidiadau y byddwn yn dweud wrthych amdanynt yn y Llythyr Hysbysiad o Grant). Weithiau disgrifir y dibenion hyn fel Dibenion Cymeradwy ac maent yn cynnwys eich bod yn derbyn ac yn defnyddio ariannu partneriaeth fel y nodir yn y Cais a sut y dywedoch y byddech yn defnyddio’r Eiddo (os o gwbl).

**Telerau Grant Safonol** – y telerau safonol hyn.

**Trwydded Agored** – y drwydded Priodoliad Creative Commons 4.0 Rhyngwladol (CC BY 4.0), neu gyfwerth.

**Trydydd parti** – unrhyw berchennog ar Eiddo Trydydd Parti.

## Cyflawni'r Dibenion Cymeradwy

1. Rhaid i chi ddefnyddio'r Grant dim ond at y Dibenion Cymeradwy, oni bai eich bod yn derbyn cymeradwyaeth gennym ymlaen llaw.

2. Rhaid i chi beidio â dechrau gweithio i gyflawni'r Dibenion Cymeradwy cyn derbyn Caniatâd i Ddechrau.

3. Rhaid i chi gyflawni'r Dibenion Cymeradwy, cyflwyno'ch Adroddiad Cwblhau a'ch Adroddiad Gwerthuso a thynnu'ch taliad Grant terfynol i lawr erbyn Dyddiad Dod i Ben y Grant.

4. Rhaid i chi ddefnyddio'r Eiddo, neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio, at y Defnydd Cymeradwy yn unig yn ystod Cyfnod y Contract Grant.

5. Yn ogystal â'r Telerau Grant Safonol hyn, mae'n rhaid i chi ddilyn yr Amodau Grant Ychwanegol (os oes rhai) a nodir yn y Llythyr Hysbysiad o Grant, ymdrin ag unrhyw faterion yr ydym yn eu nodi yn ystod y monitro, a bodloni'r gofynion a nodir yn yr Arweiniad Ymgeisio, Derbyn Grant, ac Arweiniad Arall a gyhoeddir ar ein gwefan sy'n berthnasol i'r Prosiect gan gynnwys sut i gydnabod eich grant.

6. Rhaid i chi gyflawni'r Dibenion Cymeradwy yn unol ag arfer gorau cyfredol yn eich maes treftadaeth ac at safon sy'n briodol ar gyfer prosiect sydd o bwysigrwydd i'r dreftadaeth genedlaethol. Rhaid i chi ddilyn yr holl ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol.

## Cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion Llywodraeth

7. Rydych yn cytuno i ddilyn proses chwythu'r chwiban i roi gwybod os na chaiff urddas, diogelwch a lles y defnyddwyr terfynol eu bodloni.

8. Rydych yn cytuno i beidio ag ymgymryd ag unrhyw weithgarwch personol, busnes neu broffesiynol sy'n gwrthdaro neu a allai wrthdaro ag unrhyw un o'ch rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Contract Grant, a chadw gweithdrefnau digonol ar waith i reoli a monitro unrhyw duedd neu wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig.

9. Byddwch yn dilyn ac yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau a rheoliadau perthnasol sy'n berthnasol i'ch sefydliad. Mae hyn yn cynnwys y canlynol (ond heb gael ei gyfyngu iddynt):

a) gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd, gan gynnwys ond heb gael ei gyfyngu i'r Ddeddf Llwgrwobrwyo;

b) cyfreithiau diogelu data gan gynnwys GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018; a

c) pholisïau a gweithdrefnau diogelu lle bo'n berthnasol.

10. Rydych yn cytuno i ymddwyn yn foesegol trwy ddilyn y 7 egwyddor bywyd cyhoeddus a gwneud dewisiadau cynaliadwy i leihau effaith eich Prosiect ar yr amgylchedd.

11. Rydych yn cytuno i ddilyn y Cod Ymddygiad llywodraeth sy'n nodi safonau ymddygiad ar gyfer pobl neu sefydliadau sy'n derbyn Grantiau gan lywodraeth.

12. Byddwch yn ein hysbysu'n ysgrifenedig cyn gynted â phosibl os gwneir neu fygythir unrhyw hawliadau cyfreithiol yn eich erbyn ac/neu a fyddai'n effeithio'n andwyol ar y Prosiect yn ystod cyfnod y grant (gan gynnwys unrhyw honiadau a wneir yn erbyn aelodau o'ch corff llywodraethu neu staff mewn perthynas â'r sefydliad).

13. Byddwch yn ein hysbysu'n ysgrifenedig cyn gynted â phosibl am unrhyw ymchwiliad sy'n ymwneud â'ch sefydliad, ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, cyflogeion neu wirfoddolwyr a gyflawnir gan yr Heddlu, y Comisiwn Elusennau, Cyllid a Thollau EF neu unrhyw gorff rheoleiddio arall.

# Cyfraith Rheoli Cymhorthdal

14. Disgwyliwn i chi gynnal asesiad annibynnol o gydnawsedd y Prosiect â Chyfraith Rheoli Cymhorthdal a chadarnhau i ni fod y Prosiect wedi'i strwythuro fel y gall gydymffurfio â Chyfraith Rheoli Cymhorthdal. Pan fyddwn yn rhoi ein barn ar unrhyw agwedd ar y Gyfraith Rheoli Cymhorthdal, rydych yn cadarnhau y byddwch yn ystyried yr wybodaeth hon ochr yn ochr â’r holl ffynonellau eraill o Gyfraith Rheoli Cymhorthdal sydd ar gael ar adeg ymrwymo i’r Contract hwn (gan gynnwys rheoliadau a phenderfyniadau cyhoeddedig) wrth gynnal eich asesiad eich hun o gydymffurfiaeth y Prosiect. Byddwn yn cymryd eich sylwadau ar gydymffurfiaeth â Chyfraith Rheoli Cymhorthdal i ystyriaeth wrth benderfynu cynnig y Grant.

15. Byddwn yn penderfynu’n rhesymol yn ein barn ni a chan ddilyn ein dadansoddiad ein hunain ar y cyd â’r wybodaeth a ddarparwyd gennych p'un a gaiff y Grant ei ddarparu yn unol â Chyfraith Rheoli Cymhorthdal ai beidio, a byddwn yn gwneud cofnodion perthnasol i’n galluogi i amddiffyn unrhyw her i'r Grant a allai godi gan drydydd parti yn seiliedig ar Gyfraith Rheoli Cymhorthdal.

16. Rydych yn cytuno i gadw cofnodion priodol o gydymffurfiaeth â’r Gyfraith Rheoli Cymhorthdal ac yn cytuno i gymryd pob cam rhesymol i’n cynorthwyo i gydymffurfio â gofynion y Gyfraith Rheoli Cymhorthdal ac ymateb i unrhyw ymchwiliad(au) a gychwynnir gan Adran o’r Llywodraeth neu her trydydd parti yn y llysoedd cenedlaethol.

17. Rydych yn cydnabod ac yn derbyn y gallai canfyddiad o ddiffyg cydymffurfiaeth y Prosiect â Rheoli Cymhorthdal gan Adran o’r Llywodraeth neu Lys ag awdurdodaeth gymwys arwain at orchymyn i'r Derbynnydd Grant ad-dalu’r Grant gyda llog.

18. Byddwn yn ymgymryd â gofynion cyhoeddi tryloywder perthnasol mewn perthynas â’r Grant os byddwn yn pennu ei fod yn gymhorthdal a ganiateir o dan y Gyfraith Rheoli Cymhorthdal o fewn tri mis fan hwyraf ar ôl dyddiad y Contract hwn a byddwn yn cadarnhau hyn i chi ar ôl ei wneud gan gynnwys dolen i’r cyhoeddiad perthnasol.

## Rhyddid gwybodaeth

19. Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("FOIA") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a byddwch yn ein cynorthwyo ac yn cydweithredu â ni (ar eich traul chi) i'n galluogi i gydymffurfio â'r gofynion datgelu gwybodaeth hyn.

## Diogelu Data

20. Byddwch yn (a byddwch yn sicrhau y bydd unrhyw un o'ch staff sy'n ymwneud â'r gweithgareddau o dan y Contract hwn yn) cydymffurfio ag unrhyw ofynion hysbysu o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU ('Deddfwriaeth Diogelu Data') a byddwn ni'n dau'n glynu'n briodol wrth pob rhwymedigaeth o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data sy’n codi mewn perthynas â’r Contract hwn.

21. At ddiben y Contract Grant hwn a’r Dibenion Cymeradwy, nid ydym yn rhagweld y bydd y naill barti na’r llall yn prosesu unrhyw ddata personol ar gyfer neu ar ran ei gilydd, o dan neu mewn cysylltiad â’r Contract Grant hwn. Os ydym ni neu chi'n rhagweld y bydd y llall yn prosesu unrhyw ddata personol ar gyfer ac ar ran ein gilydd byddwn yn cytuno ar amrywiad i’r Contract Grant hwn i ymgorffori darpariaethau priodol yn unol ag Erthygl 28 o GDPR y DU, neu fel sy’n ofynnol fel arall o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

## Monitro'r prosiect

22. Rhaid i chi roi unrhyw adroddiadau cynnydd, gwybodaeth a chofnodion ariannol neu arall y gall fod eu hangen arnom o bryd i'w gilydd ynghylch y Grant, yr Eiddo, y Dibenion Cymeradwy (a'u cyflawniad) a'r Defnydd Cymeradwy.

23. Rhaid i chi roi mynediad y gallai fod ei angen arnom i ni (neu i unrhyw un a awdurdodwn) i:

a) archwilio'r Eiddo ac unrhyw waith arno;

b) monitro gweithrediad a chynnydd y Dibenion Cymeradwy; a

c) monitro'r Defnydd Cymeradwy.

Yn yr achosion hyn byddwn yn rhoi rhybudd i chi. Byddwch yn adrodd ar gynnydd y Prosiect ar adegau y cytunir arnynt gyda ni.

24. Mae’n bosibl y byddwn yn gofyn i chi ddarparu prawf eich bod wedi cymryd camau i leihau’r risg o dwyll. Efallai y byddwn yn gofyn i chi am ganiatâd i archwilio eich prosesau a'ch gweithdrefnau cyfrifyddu er mwyn gwirio effeithiolrwydd mesurau gwrth-dwyll.

25. Byddwn yn monitro cynnydd y Prosiect ac yn cynnal gwiriadau yn ystod y Prosiect, ar ddiwedd y Prosiect ac ar ôl hynny i gadarnhau ei fod yn cyflawni’r Dibenion Cymeradwy fel y disgwylir. Os byddwn ni (neu unrhyw un yr ydym yn ei awdurdodi) yn gwneud unrhyw argymhellion ar y materion a nodir ym mharagraff 23, rhaid i chi gymryd yr argymhellion hynny i ystyriaeth wrth gyflawni eich

rhwymedigaethau i ni.

26. Gallwn ni, a’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a/neu eu cynrychiolwyr awdurdodedig, ar unrhyw adeg yn ystod a hyd at 7 mlynedd ar ôl diwedd y Contract Grant, gynnal archwiliadau mewn perthynas â’ch defnydd o’r Grant a/neu gydymffurfiaeth â’r Contract Grant hwn. Rydych yn cytuno i weithredu'n rhesymol wrth gydweithredu ag archwiliadau o'r fath, gan gynnwys darparu mynediad i ddogfennaeth, safleoedd a phersonél perthnasol.

27. Rhaid i chi gymryd camau priodol i fonitro eich llwyddiant eich hun wrth gyflawni'r Dibenion Cymeradwy ac wrth ddefnyddio'r Eiddo ar gyfer y Defnydd Cymeradwy. Ar ôl cwblhau'r Prosiect, rhaid i chi gyflwyno'ch Adroddiad Cwblhau ac Adroddiad Gwerthuso cyn y byddwn yn rhyddhau'r taliad Grant terfynol.

# Caffael

28. Cyn i chi ddechrau unrhyw gam o'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r Dibenion Cymeradwy, rhaid i chi roi'r holl gontractau angenrheidiol ar waith gyda chontractwyr a chynghorwyr proffesiynol sydd â'r cymwysterau priodol i'ch galluogi i orffen y cam hwnnw o'r gwaith. Rhaid i gontractau adeiladu gynnwys cymal sy'n eich galluogi i gadw rhan o ffioedd y contractwyr ar ôl cwblhau'r gwaith yn ymarferol. Os ydych am i unrhyw gontractau fod ar delerau gwahanol, rhaid i chi gael ein cymeradwyaeth ymlaen llaw.

29. Os yw’r Dibenion Cymeradwy yn ymwneud â phrynu nwyddau neu wasanaethau neu drefnu i waith gael ei wneud, rhaid i chi gynnal ymarfer tendro'n unol â’r gofynion a nodir yn yr Arweiniad Ymgeisio a Derbyn Grant a'r Arweiniad Caffael sydd ar gael ar ein gwefan.

# Eiddo

30. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth mae Eiddo'n cynnwys tir ac adeiladau, unrhyw beth sydd ynghlwm wrth dir fel adeileddau a cherfluniau, gwrthrychau mewn casgliad amgueddfa neu lyfrgell sy’n cael eu caffael, eu hadfer, eu gwarchod neu eu gwella gyda’n Grant ac eiddo anniriaethol neu anffisegol sy’n cael ei greu.

31. Rhaid i chi barhau i fod yn berchen ar yr Eiddo a chadw rheolaeth neilltuedig dros yr hyn sy'n digwydd iddo. Ac eithrio fel y caniateir o dan baragraff 43 (Allbynnau Digidol), rhaid i chi beidio â'i werthu, ei osod neu ei ildio nac ychwaith unrhyw fuddiant ynddo, na rhoi unrhyw hawliau drosto i unrhyw un arall (na chymryd camau i wneud hynny) heb gael cymeradwyaeth gennym ymlaen llaw. Gall ein cymeradwyaeth ddibynnu ar unrhyw un o'r gofynion a ganlyn:

a) eich bod yn talu cyfran o’r enillion net o werthu neu osod yr Eiddo i ni o fewn mis o ildio’r asedau neu nwyddau eraill;

b) eich bod yn gwerthu neu'n gosod yr Eiddo am ei werth marchnad llawn; neu

c) unrhyw amodau eraill sydd, yn ein barn ni, yn briodol.

32. Gallwn hawlio swm gennych sy'n cyfateb yn yr un gyfran i'r pris gwerthu ag y mae'r Grant i gost wreiddiol y Dibenion Cymeradwy, neu'r gyfran o'r Grant sy'n cael ei wario ar yr asedau neu'r nwyddau dan sylw, p'un bynnag yw'r mwyaf. Os gwnaethoch gais am y Grant yn unol â'r Arweiniad Ymgeisio Menter Dreftadaeth bydd y gyfran o enillion o'r gyfran sydd i'w thalu i ni'n cael ei chyfrifo yn unol â'r fformiwla a nodir yn yr arweiniad hwnnw. Rhaid i chi dalu beth bynnag y byddwn yn penderfynu sy'n briodol o dan yr amgylchiadau. Efallai y byddwn yn penderfynu peidio â gofyn i chi ad-dalu'r Grant (neu unrhyw ran ohono fel y gwelwn yn briodol) am unrhyw reswm ond ni fydd yn penderfynu ar hynny.

33. Rydym yn cadw'r hawl i gymryd sicrwydd dros yr Eiddo neu ymgymeriad eich sefydliad yn ôl ein dewis ni.  Os byddwn yn arfer ein hawl o dan y cymal hwn, ni fydd y Grant (neu unrhyw ran ohono sydd heb gael ei dalu) yn cael ei dalu hyd nes y bydd y dogfennau sydd eu hangen i greu'r sicrwydd wedi'u cwblhau er boddhad i ni.

34. Os yw'r Dibenion Cymeradwy yn ymwneud â chreu, atgyweirio neu adfer eiddo, rhaid i chi gynnal a chadw'r Eiddo mewn cyflwr da ar ôl i'r gwaith gael ei wneud. Os yw'r Dibenion Cymeradwy yn cynnwys paratoi cynllun cynnal a chadw a rheoli neu gynllun cadwraeth, rhaid i chi gynnal, rheoli neu warchod yr Eiddo yn unol â'r fersiwn o'r cynllun perthnasol yr ydym wedi'i gymeradwyo.

35. Rhaid i chi yswirio'r Eiddo at y safon a nodir yn yr Arweiniad Ymgeisio (a defnyddio unrhyw enillion o'r yswiriant yn unol â hynny) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

36. Rhaid i chi hefyd gadw unrhyw wrthrychau neu osodiadau sy'n ffurfio rhan o'r Eiddo mewn amgylchedd priodol a ffisegol ddiogel.

37. Rhaid i chi ddweud wrthym, yn ysgrifenedig, o fewn pum Diwrnod Gwaith am unrhyw golled neu ddifrod sylweddol i'r Eiddo.

38. Rhaid i chi drefnu i'r cyhoedd gael mynediad priodol i'r Eiddo a sicrhau na wrthodir mynediad unrhyw berson i'r Eiddo yn afresymol.

39. Os yw'r Dibenion Cymeradwy yn ymwneud â defnyddio rhan o'r Grant i brynu, derbyn, creu, adfer, cadw neu fel arall ariannu Eiddo Trydydd Parti rhaid i chi gydymffurfio â'n Gofynion Perchnogaeth Trydydd Parti.

## Cyhoeddusrwydd a chydnabyddiaeth

40. Mae'n bosibl y byddwn yn gwneud diben y Grant a'i swm yn gyhoeddus ym mha bynnag ffordd y gwelwn yn briodol.

41. Unwaith y byddwn wedi cyhoeddi'r Grant, rhaid i chi gydnabod y Grant yn gyhoeddus yn unol â'r gofynion a nodir yn y canllawiau ar ein gwefan. Rhaid i chi fodloni unrhyw ofynion cydnabyddiaeth neu gyhoeddusrwydd eraill y gallwn eich hysbysu amdanynt o bryd i'w gilydd. Cyn i ni wneud unrhyw gyhoeddiad cyhoeddus o'r Grant, rhaid i chi beidio â chyhoeddi unrhyw ddatganiad cyhoeddus, datganiad i'r wasg na chyhoeddusrwydd arall mewn perthynas â'r Grant neu sy'n cyfeirio atom, ac eithrio ar ffurf yr ydym wedi'i chymeradwyo ymlaen llaw.

42. Rhaid i chi hefyd ddarparu delweddau digidol manylder uchel o'r Prosiect i ni. Rydych yn rhoi'r hawl i ni ddefnyddio'r rhai a ddarparwch i ni unrhyw bryd, gan gynnwys eu rhoi mewn fformat digidol a'u haddasu. Rhaid i chi sicrhau'r holl ganiatadau sydd eu hangen i chithau a ninnau eu defnyddio cyn i chi eu defnyddio neu eu hanfon atom. Rhaid i chi hefyd gymhwyso'r Drwydded Agored Priodoliad Creative Commons 4.0 Rhyngwladol (CC BY 4.0) ofynnol i'r delweddau.

## Allbynnau Digidol

43. Rydych yn cytuno i:

a) roi trwydded anghyfyngedig, rhydd rhag breindal i ni i ddefnyddio, copïo, cadw a lledaenu’r Allbynnau Digidol fel y gwelwn yn briodol ac i roi is-drwyddedau o’r un fath ar gyfer Cyfnod y Contract Grant;

b) cymhwyso Trwydded Agored Priodoliad Creative Commons 4.0 Rhyngwladol (CC BY 4.0) neu gyfwerth, i’r holl Allbynnau Digidol a ariennir gan y grant, ac eithrio cod a metadata, a heb gynnwys asedau parth cyhoeddus neu atgynyrchiadau digidol nad ydynt yn wreiddiol o asedau parth cyhoeddus (gweler isod);

c) nodi'n glir a chymhwyso Ymroddiad Parth Cyhoeddus Creative Commons 0 1.0 Cyffredinol (CC0 1.0), neu gyfwerth i:

- god a metadata a grëwyd yn ystod y prosiect; ac
- Asedau parth cyhoeddus neu atgynyrchiadau digidol nad ydynt yn wreiddiol o asedau parth cyhoeddus;

ch) dod o hyd i'r holl awdurdodiadau o unrhyw fath sy'n ofynnol i chi gymhwyso'r Drwydded Agored neu'r Ymroddiad Parth Cyhoeddus (CC BY 4.0 neu CC0 1.0) perthnasol a'u cynnal mewn grym;

d) contractio i'r perwyl y bydd unrhyw ddeunydd a grëir gennych neu ar eich rhan sy'n ffurfio Allbynnau Digidol yn cael ei wneud ar delerau sy'n golygu naill ai y bydd yr hawlfraint yn y deunydd digidol yn cael ei neilltuo i chi neu fod perchennog yr hawlfraint yn cytuno y gellir rhannu deunydd o dan Drwydded Agored CC BY 4.0 neu gyfwerth;

dd) sicrhau bod yr Allbynnau Digidol yn cael eu cadw'n gyfredol, eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd ac nad ydynt yn mynd yn ddarfodedig cyn pen ugain mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect;

e) cydymffurfio â’r Telerau Grant Safonol hyn mewn perthynas â’r ffeiliau digidol sy’n ffurfio’r Allbynnau Digidol am y cyfnod y cytunwyd arno yn y Llythyr Hysbysiad o Grant. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae hyn yn cynnwys sicrhau mynediad ar-lein rhydd a di-rwystr at yr Allbynnau Digidol. Rhaid i chi beidio â rhyddhau Allbynnau Digidol eich Prosiect ar delerau eraill heb gael caniatâd ysgrifenedig gennym ymlaen llaw;

f) sicrhau bod gwefannau a chynnwys gwefannau'n bodloni o leiaf safon hygyrchedd Single A W3C; a

ff) darparu cyfeiriad neu gyfeiriadau gwe (URL) y wefan, neu wefannau, a fydd yn lletya eich Allbynnau Digidol i ni am y cyfnod amser a bennir, a diweddaru'r rhain os caiff deunyddiau eu hadleoli. Ar gyfer prosiectau lle mae deunyddiau wedi'u lleoli ar draws ystod o wefannau, mae angen URL tudalen mynegai ar-lein.

# Talu ac ad-dalu'r grant

44. Hyd at Ddyddiad Dod i Ben y Grant, byddwn yn talu'r Grant i chi neu unrhyw randaliad ohono yn unol â'r Telerau Grant Safonol hyn a'r gweithdrefnau a esbonnir mewn Derbyn Grant cyn belled â bod:

a) Y Loteri Genedlaethol yn parhau i weithredu o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) a bod Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn parhau i weithredu o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd);

b) digon o arian ar gael i ni o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol (neu o'r fath ffynonellau eraill sy'n ofynnol i gyflwyno ein rhaglenni grant; a'n bod

c) yn fodlon eich bod yn cyflawni (ac yn parhau i gyflawni) neu wedi cyflawni'r Dibenion Cymeradwy yn unol â'r Telerau Grant Safonol hyn a'ch bod yn gwario'r Grant yn gymesur ag unrhyw ariannu partneriaeth neu unrhyw ariannu arall rydych yn ei dderbyn o ffynonellau eraill ar gyfer y Dibenion Cymeradwy.

45. Rydych yn cydnabod mai'r Grant yw cyfanswm yr ariannu y byddwn yn ei ddarparu ac na chaiff ei gynyddu o ganlyniad i chi orwario neu am unrhyw reswm arall.

46. Rhaid i chi ad-dalu i ni ar unwaith unrhyw Grant yr ydym wedi'i dalu i chi (a byddwn yn atal unrhyw randaliadau o'r Grant yn y dyfodol) os:

a) nad ydych yn gweithredu mwyach, neu os cewch eich datgan yn fethdalwr neu'n mynd i law'r gweinyddwr, y derbynnydd neu'n ymddiddymu;

b) byddwch yn methu â defnyddio'r Grant ar gyfer y Dibenion Cymeradwy oni bai y cytunir ar hynny gyda ni ymlaen llaw;

c) byddwch yn methu â chadw at y Defnydd Cymeradwy oni bai y cytunir ar hynny gyda ni ymlaen llaw;

ch) byddwch yn gwaredu'r Eiddo heb gael caniatâd gennym;

d) byddwch yn methu â darparu gwybodaeth i ni na dilyn ein cyfarwyddiadau rhesymol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau gyda'ch Prosiect;

dd) ydych, yn ein barn ni, wedi rhoi gwybodaeth dwyllodrus, anghywir neu gamarweiniol i ni neu wedi cuddio gwybodaeth berthnasol yn fwriadol sy'n berthnasol i gynnwys eich Cais;

e) ydych wedi ymddwyn yn esgeulus mewn unrhyw fater arwyddocaol neu'n dwyllodrus mewn cysylltiad â'r Dibenion Cymeradwy neu'r Defnydd Cymeradwy;

f) yw unrhyw awdurdod cymwys, er enghraifft, llys, corff cyhoeddus, neu awdurdod lleol yn cyfarwyddo ad-dalu’r Grant, gan gynnwys amgylchiadau pan fernir bod y Grant yn gymhorthdal anghyfreithlon;

ff) bydd newid arwyddocaol yn strwythur neu statws eich sefydliad oni bai y cytunir fel arall gyda ni;

g) byddwch yn dwyn anfri arnom ni neu’r Loteri Genedlaethol, neu y byddwn yn ystyried bod arian cyhoeddus mewn perygl am unrhyw reswm;

ng) byddwn yn terfynu neu'n gohirio unrhyw grant arall yr ydym wedi'i roi i chi;

h) ydych yn methu â gwneud cynnydd da gyda'r Prosiect neu rydych yn annhebygol, yn ein barn ni, o gwblhau'r Prosiect neu gyflawni'r Dibenion Cymeradwy; neu

i) os byddwch yn methu â chadw at unrhyw un o’r Telerau Grant Safonol hyn.

47. Ni fydd grant yn ad-daladwy o dan baragraff 46 yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

a) newid perchnogaeth yr Eiddo;

b) newid materol yn strwythur eich sefydliad;

c) newid i'r Dibenion Cymeradwy; a/neu

ch) newid i'r Defnydd Cymeradwy;

ar yr amod y byddwch chi, neu’r perchennog newydd (os yn berthnasol), yn anfon cais am ganiatâd ar gyfer y newid atom y byddwn yn cytuno iddo'n ysgrifenedig. Gall ein caniatâd fod yn ddarostyngedig i amodau gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i chi ymrwymo i weithred amrywio gyda ni neu fod y perchennog newydd yn ymrwymo i gytundeb newyddu gyda ni.

48. Os bydd unrhyw un o’r telerau ac amodau a nodir yn y Contract hwn yn cael ei dorri, mater i ni wrth weithredu’n rhesymol fydd:

a) penderfynu a oes modd unioni'r toriad; ac

b) os ydym yn ystyried y gellir unioni'r toriad, i’ch hysbysu am y terfyn amser ar gyfer unioni’r toriad er mwyn osgoi gorfod ad-dalu'r Grant yn unol â pharagraff 46.

49. Os ydych yn sefydliad masnachol ac wedi gwneud cais am y Grant yn unol â’r Arweiniad Ymgeisio Menter Treftadaeth, bydd yn ofynnol i chi, ymhen 5 a 9 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau’r Prosiect, dalu cyfran o enillion net y Prosiect i ni sy’n fwy na’r rhagamcaniad incwm a gwariant y dyfodol y gwnaethoch ei ddefnyddio i bennu'r diffyg cadwraeth yn eich Cais. Bydd y fath gyfran yn cael ei chyfrifo'n unol â'r ganran grant berthnasol a nodwyd yn y Llythyr Hysbysiad o Grant.

50. Os byddwch yn cyflawni'r Dibenion Cymeradwy heb wario swm llawn y Grant, rhaid i chi ad-dalu'r rhan o'r Grant nad ydych wedi'i gwario. Byddwn yn ystyried eich bod wedi gwario'r Grant yn gymesur â chronfeydd eraill yr oeddech i fod i'w derbyn o ffynonellau eraill ar gyfer y Dibenion Cymeradwy.

51. Os byddwch yn gwerthu neu fel arall yn ildio rhan neu'r cyfan o’r Eiddo heb gael caniatâd gennym o dan baragraff 31, neu os byddwch yn derbyn arian mewn rhyw ffordd arall o ganlyniad i chi beidio â dilyn y Telerau Grant Safonol hyn ac unrhyw Amodau Grant Ychwanegol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi talu cyfran o’r enillion net i ni'n ddi-oed os yw’r gyfran honno’n fwy na’r swm y byddai gennym hawl iddo fel arall o dan baragraff 46.

# Telerau cyffredinol

52. Allwch chi ddim drosglwyddo'r Grant nac unrhyw hawliau o dan y Contract Grant, ac mae'n rhaid i chi beidio â hawlio i wneud hynny.

53. Rhaid i chi gymryd pob cam a llofnodi a dyddio unrhyw ddogfennau a allai fod yn angenrheidiol i gyflawni eich rhwymedigaethau o dan y Contract Grant ac i roi'r hawliau a roddir i ni oddi tanynt.

54. Os oes mwy nag un ohonoch, bydd unrhyw atebolrwydd o dan y Contract Grant yn berthnasol i chi i gyd gyda'ch gilydd ac ar wahân.

55. Gallwn ddibynnu ar unrhyw un o’n hawliau o dan y Telerau Grant Safonol hyn ar unrhyw adeg, hyd yn oed os na fyddwn bob amser yn dewis gwneud hynny ar unwaith. Os byddwn yn penderfynu peidio â dibynnu ar un hawl, mae'n bosibl o hyd y byddwn yn dibynnu ar unrhyw un o'n hawliau eraill o dan y Telerau Grant Safonol hyn.

56. Os bydd angen ein cymeradwyaeth arnoch ar gyfer unrhyw beth, rhaid i chi ysgrifennu atom i ofyn amdani. Dim ond os byddwn ni (neu unrhyw un yr ydym yn ei awdurdodi) yn ei rhoi i chi'n ysgrifenedig y gallwch ddibynnu ar unrhyw gymeradwyaeth sydd ei hangen o dan y Telerau Grant Safonol hyn.

57. Bydd pob hysbysiad a chyfathrebiad arall y byddwn ni neu chi'n eu hanfon at ein gilydd o dan y Telerau Grant Safonol hyn (gan gynnwys unrhyw gymeradwyaeth neu ganiatâd sy’n ofynnol gennym) yn ysgrifenedig a thybir ei fod wedi’i roi’n briodol os caiff ei anfon yn bersonol, ei e-bostio, neu ei anfon drwy'r post (post dosbarth cyntaf rhagdaledig) i gyfeiriad y parti perthnasol, y cyfeirir ato uchod neu sydd fel arall wedi'i hysbysu'n ysgrifenedig. Os caiff ei anfon yn bersonol neu os caiff ei e-bostio, ystyrir bod pob cyfathrebiad o’r fath wedi’i roi wrth gael ei dderbyn (ac eithrio os caiff ei dderbyn ar Ddiwrnod nad yw’n Ddiwrnod Gwaith neu ar ôl 5.00 pm ar unrhyw Ddiwrnod Gwaith ystyrir ei fod wedi’i dderbyn ar y Diwrnod Gwaith nesaf) ac os caiff ei anfon drwy'r post ystyrir bod pob cyfathrebiad o'r fath wedi'i roi a'i dderbyn ar yr ail Ddiwrnod Gwaith yn dilyn y fath anfoniad drwy'r post.

58. Mae unrhyw ddogfennau y mae angen i chi eu hanfon atom o dan y Telerau Grant Safonol hyn at ein dibenion ein hunain yn unig. Os byddwn yn cymeradwyo neu'n derbyn unrhyw ddogfennau, nid yw hyn yn golygu ein bod wedi eu cymeradwyo neu eu derbyn at unrhyw ddiben arall.

59. ni all ein staff, Ymddiriedolwyr a chynghorwyr roi cyngor proffesiynol i chi ac ni ellir eu dal yn gyfrifol am unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd, unrhyw gamau yr ydych yn methu â’u cymryd, neu am eich dyledion neu rwymedigaethau. Er y gallwn roi ariannu i chi, chi sy'n gwbl gyfrifol o hyd am bob rhan o'ch Prosiect, eich busnes a'r penderfyniadau yn ei gylch. Ni fyddwn yn atebol i unrhyw un arall a all gymryd camau neu fygwth camau yn eich erbyn.

60. Ni fydd paragraffau 23(a) ac (c), 31, 34 a 35 yn berthnasol os yw eich Prosiect ar gyfer y Cam Datblygu.

61. Bydd Cyfnod y Contract Grant yn para am y cyfnod a nodir yn y Llythyr Hysbysiad o Grant.

62. Ni ellir gorfodi'r Contract Grant gan unrhyw un ar wahân i chi neu ni.